# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>26 TACHWEDD 2018<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>26 NOVEMBER 2018<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau neu Swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Hydref, 2018.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 2, 2018/19** (Tudalennau 21 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2018/19** (Tudalennau 41 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2018/19** (Tudalennau 77 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO CYLLIDEB Y CRT, CHWARTER 2 2018/19** (Tudalennau 89 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2019/2020** (Tudalennau 97 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **CYNLLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH CYNGOR 2019/20** (Tudalennau 103 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**11** **OPSIYNAU GOFAL - GRŴP TAI BACH** (Tudalennau 125 - 132)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**12** **PECYN MAETHU AR GYFER GOFALWYR MAETH YR AWDURDOD LLEOL** (Tudalennau 133 - 140)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**13** **DATGANIAD POLISI GAMBLO 2019-2022** (Tudalennau 141 - 166)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 11)<br>Pennaeth Dros Dro Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitemau 8 a 9)<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 8)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau (MY) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones, Dylan Rees |

---

DRAFFT

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar 17 Medi, 2018 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2018 fel rhai cywir.**

### 4. COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2018 i'w mabwysiadu.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2018.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd, 2018 a mis Mehefin, 2019 er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel a ganlyn -

- Fod eitem 8 (Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN)) yn newydd i'r Flaenraglen a bydd yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd, 2018.
- Ers cyhoeddi'r adroddiad mae'r Gwasanaethau Plant wedi gwneud cais i'r Pwyllgor Gwaith ystyried dwy eitem yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr, 2018 yn ymwneud â Cartrefi Grŵp Bach – Opsiynau Gofal ar gyfer y Dyfodol a phecynnau Maethu ar gyfer Gofalwyr Maeth.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith wedi ei diweddaru y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd, 2018 i Fehefin, 2019 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU – DIWEDDARU'R CYLCH GORCHWYL

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei bod yn arfer dda i bwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn briodol – adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddiwethaf ym mis Mai, 2015. Ym mis Mai, 2018 bu i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) adolygu a diweddaru ei ganllawiau er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn deddfwriaeth a datblygiadau proffesiynol sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus. Mae'r canllawiau newydd yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac yn diweddaru swyddogaeth y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag atal twyll er mwyn adlewyrchu'r Côd Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredigaeth. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn bresennol mewn gweithdy i drafod y canllawiau diwygiedig a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2018 ac maent wedi cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod canllawiau CIPFA wedi eu hymgorffori yn eu cyfanrwydd yn y cylch gorchwyl newydd ac eithrio'r gofyniad i'r Cyngor Llawn gymeradwyo penodi aelodau lleyg y Pwyllgor. Ar hyn o bryd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth sy'n gyfrifol am hynny ac argymhellir bod y drefn honno'n parhau gan fod risg, oherwydd amserlen pwyllgorau, y byddai disgwyl am gyfarfod o'r Cyngor Llawn i benodi aelodau lleyg yn golygu na fyddai modd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyfarfod a gallai hynny olygu na fyddai modd cymeradwyo'r datganiad cyfrifon drafft o fewn y terfynau amser.

Roedd y Pwyllgor gwaith yn cefnogi'r cynnig i barhau â'r drefn lle mae Aelodau Lleyg yn cael eu penodi gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod y cynnig yn dderbyniol o safbwynt cyfreithiol.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu Cylch Gorchwyl drafft newydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.**

## 7. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – DIWYGIO'R CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION / CANLLAWIAU LLEOL AR Y CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn ymgorffori newidiadau i'r Côd Ymddygiad i Swyddogion a'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygid i Swyddogion.

Adroddodd y Cadeirydd fod y Côd Ymddygiad a Chanllawiau presennol wedi cael eu diwygio mewn ymateb i argymhellion yr Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiwylliant Moesegol ac mae'r dyfyniad perthnasol o'r adroddiad hwnnw wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad. Diweddarwyd y Côd Ymddygiad ei hun er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth ac mae'r newidiadau yn cael eu dangos yn Atodiad 2. Diweddarwyd y canllawiau er mwyn eu gwneud yn haws eu defnyddio ac ymgorffori'r gofynion deddfwriaethol newydd ac mae copi o'r ddogfen yn Atodiad 3.

Ymgynghorwyd ar y Côd Ymddygiad a'r Canllawiau gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Archwilio a Risg; diwygiwyd y canllawiau gwreiddiol er mwyn ymgorffori sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Côd a'r Canllawiau byddant yn cael eu cyhoeddi ar Borth Polisi'r Cyngor ac yn cael eu cynnwys yn y drefn Derbyn Polisïau Corfforaethol ble mae'n ofynnol i swyddogion glicio i dderbyn ac ateb cwestiynau ynglŷn â'r dogfennau diwygiedig.

**Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn -**

- **Mabwysiadu'r Côd Ymddygiad i Swyddogion sydd wedi ei gynnwys Atodiad 2 yr adroddiad.**
- **Mabwysiadu'r Canllawiau Lleol i'r Côd Ymddygiad Swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad.**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad, yn cynnwys unrhyw newidiadau dilynol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod Atodiadau 2 a 3 wedi cael eu mabwysiadu.**

## 8. CYLLID AR GYFER GWAITH LLIFOGYDD YN LLANGEFNI

Cyflwynwyd, er ystyriaeth, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo dyrannu £85k o gyllid cyfalaf i'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo er mwyn cwrdd â'r gost o drwsio wal atal llifogydd tu ôl i Glandwr, Llangefni. Roedd y gymuned yn teimlo'n gryf bod angen cymryd camau brys cyn gaeaf 2018. Yn dilyn hynny, trefnodd CNC fod yr afon yn cael ei glanhau a gwaith modelu llifogydd yn cael ei wneud. Fodd bynnag, nodwyd ar y pryd nad oedd modd cadarnhau pryd fyddai unrhyw waith yn deillio o'r broses fodelu yn cael ei wneud.

Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y Cyngor wedi archwilio'r asedau hynny o'i eiddo yn Llangefni fyddai'n gallu gwneud gwahaniaeth petai digwyddiad tebyg o law eithafol ar y raddfa a gafwyd ym mis Tachwedd 2017 yn digwydd eto ac adnabuwyd rhan o wal derfyn, ym mherchnogaeth y Cyngor, ger Afon Cefni a thu cefn i Deras Glandwr. Roedd y wal wedi decharu dymchwel mewn rhai mannau ac ystyriwyd y byddai trwsio'r wal hon yn lleihau'r perygl o lifogydd yn Nheras Glandwr ac yn lleihau'r perygl o ddŵr llifogydd lifo ar hyd Ffordd Glandwr ac i Stryd yr Eglwys. Y dewis arall yn hytrach na thrwsio'r wal fyddai disgwyl i CNC gwblhau'r gwaith modelu llifogydd ond mae perygl y byddai eiddo a busnesau yng nghanol y dref yn cael eu heffeithio gan lifogydd eto yn y cyfamser. Mae rhai preswylwyr yn dal i gael eu heffeithio gan y difrod a achoswyd o ganlyniad i lifogydd mis Tachwedd 2017 ac nid yw rhai busnesau wedi ailagor. Byddai oedi cyn gwneud y gwaith yn creu risg o lifogydd pellach ac yn niweidio enw da'r Awdurdod.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cais am gyllid cyfalaf ar yr amod bod sicrwydd yn cael ei roi fod yr arian ar gael.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod disgwyl y bydd tanwariant yn y gyllideb gyfalaf erbyn diwedd y flwyddyn a bod modd felly dyrannu £85k o'r arian cyfalaf sy'n weddill i'r cynllun hwn.

Yn ogystal, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod y gwaith a wnaethpwyd gan y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn ymateb i'r llifogydd a'r difrod a gafwyd yn Llangefni ac mewn ardaloedd eraill ar yr Ynys a gafodd eu heffeithio gan y llifogydd ym mis Tachwedd 2017.

**Penderfynwyd bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn derbyn £85k o gyllid cyfalaf er mwyn cwrdd â chost gwaith atgyweirio wal atal llifogydd tu cefn i Glandwr, Llangefni.**

## 9. RHEOLI GWASTRAFF – PENODI RHEOLWR PROSIECT DROS DRO

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo penodi Rheolwr Prosiect dros dro hyd at 31 Mawrth, 2021.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gasglu gwastraff, cadw tir perthnasol yn rhydd o sbwriel a chwrdd â thargedau ailgylchu statudol. Cyfanswm cost y gwasanaeth yn 2017/2018 oedd oddeutu £3.8m. Daw'r contract 14 mlynedd presennol gyda Biffa Municipal i ben ar 21 Mawrth 2021 a rhaid datblygu cynlluniau i sicrhau bod opsiynau hyfyw mewn lle pan ddaw'r contract presennol i ben. Bydd y broses o ail-gaffael y contract yn dasg sylweddol ac oherwydd ei faint a'i gymhlethdod bydd angen adnoddau sylweddol i gyflenwi'r prosiect. Fel y gwelir yn adran 2 yr adroddiad, bydd rhaid dwyn ynghyd nifer o arbenigeddau fel rhan o'r broses gaffael er mwyn sicrhau fod gwahanol ffrydiau yn cael eu rheoli a'u gweithredu mewn modd amserol. Barn Swyddogion a'r Uwch Dîm Rheoli yw y dylid penodi Rheolwr Prosiect ar gontract cymharol fyrdymor er mwyn sicrhau bod y prosiect caffael yn cael ei gyflenwi i safon uchel er mwyn sicrhau fod y risgiau'n cael eu lleihau, dyddiadau cau yn cael eu cwrdd a bod y Cyngor yn cael gwerth am arian.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd ac, wrth gydnabod maint a chymhlethdod y contract newydd, gwnaed y pwyntiau a ganlyn -

- Bod rhaid gwneud popeth posib er mwyn sicrhau bod y contract sy'n cael ei gaffael yn addas i bwrpas.
- Ystyrir bod angen penodi rheolwr prosiect dros dro oherwydd diffyg capasiti o fewn y Cyngor o ganlyniad i doriadau dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, nodwyd y bydd y sawl a benodir yn gweithio gyda staff Adain Rheoli Gwastraff y Cyngor fydd yn darparu cyfran helaeth o'r amser, arbenigedd ac adnoddau i gefnogi'r broses gaffael.
- A fyddai modd ystyried cydweithio gydag awdurdod lleol cyfagos er mwyn rhannu capasiti.
- A fyddai modd i'r Cyngor ystyried darparu'r gwasanaeth casglu a glanhau gwastraff yn fewnol.
- Sut fyddai diwrnodau rhydd y Rheolwr Prosiect (1-2 ddiwrnod yr wythnos yn ystod y ddwy flynedd ariannol gyntaf a 3 diwrnod yr wythnos yn ystod y flwyddyn olaf) yn cael eu rhannu rhwng y prosiectau trawsnewid eraill a nodir yn yr adroddiad.
- A yw'n penodi'r unigolyn iawn sy'n meddu ar yr arbenigedd angenrheidiol i swydd dros dro yn debygol o fod yn anodd.



DRAFT

Dywedodd y Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y rhagwelir y bydd y Rheolwr Prosiect dros dro yn ymgymryd â'r tasgau a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cynnwys cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn asesu pa wasanaethau a ddylid eu darparu a sut. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at lwybrau recriwtio posib e.e. mae gwaith adeiladu'r cyfleuster adfer ynni, Parc Adfer, yn Sir y Fflint yn tynnu tua'i derfyn a gallai hynny olygu fod adnoddau rheoli prosiect yn cael eu rhyddhau.

Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod llawer iawn o gydweithio yn digwydd yn barod mewn perthynas â rheoli gwastraff e.e. gyda Sir y Fflint ac awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru fel rhan o Brosiect Rheoli Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru y mae'r Parc Adfer yn rhan ohono; yn ogystal ceir deialog gyda Gwynedd yn ddyddiol. Fodd bynnag, mae cydbwyllgor yn annhebygol oherwydd gwahaniaethau o ran anghenion ac amseru mewn perthynas â mynd allan i dendr. Rhoddir ystyriaeth i'r opsiwn o ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol fel rhan o arfarniad cynhwysfawr o opsiynau fydd yn adolygu pa wasanaethau a ddylid eu darparu, sut ddylid eu darparu a'u rheoli, a'r gost. Er mai prif dasg y Rheolwr Prosiect fydd rheoli'r broses o gaffael y contract casglu a glanhau newydd, ni ragwelir y bydd gofynion y gwaith hwn yn cymryd holl amser y sawl fydd yn cael ei benodi ac y bydd diwrnodau rhydd ar gael, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, i weithio ar brosiectau blaenoriaeth y mae angen cefnogaeth rheoli prosiect ar eu cyfer; trefnir hyn mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Trawsnewid.

**Penderfynwyd awdurdodi penodi Rheolwr Prosiect Dros Dro hyd at 31 Mawrth, 2021 i**

- **Gynnal arfarniad o'r opsiynau er mwyn asesu sut y dylid casglu a glanhau gwastraff yn y dyfodol.**
- **Cyflawni swyddogaethau rheoli prosiect mewn perthynas â chaffael gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau newydd fydd yn cychwyn ar 1 Ebrill, 20201.**
- **Rheoli prosiectau unwaith ac am byth ar draws y Cyngor yn ôl yr angen.**

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.**

## 11. MODERNEIDDIO YSGOLION YNYS MÔN – ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL/ACHOS BUSNES AMLINELLOL – YSGOL GYNRADD NEWYDD YN LLE YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar gyfer ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sail strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol dros greu ysgol newydd yn unol â phroses Achos Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif er mwyn derbyn arian cyfalaf ar gyfer y prosiect.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ystyried yr ASA/ABA ar gyfer yr ysgol newydd yn ei gyfarfod ar 24 Hydref, 2018 ac ar ôl gofyn am eglurhad ynglŷn â materion yn ymwneud â diogelwch y briffordd, fforddiadwyedd, telerau contract, amserlen adeiladu a'r gwaith yn rhedeg yn hwyr, bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol



DRAFT

ac yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Diolchodd yr Aelod Portffolio i'r Pwyllgor Sgriwtini am drafodaeth adeiladol ar y mater.

Cyflwynodd y Pennaeth Dysgu drosolwg o'r ASA/ABA a chyfeiriodd at y manylebau ar gyfer yr ysgol newydd a'i statws fel ased cymunedol, amcangyfrif o gostau'r prosiect, y broses a ddilynwyd i arfarnu'r safle a thendro a'r cynllun prosiect arfaethedig a'r amserlen gyflenwi.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dylan Rees, Aelod Lleol ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor, wrth ystyried yr ASA/ABA, wedi codi materion yn ymwneud â phriffyrdd, cyflenwad digonol o lefydd parcio, amodau traffig a diogelwch ffyrdd gerllaw lleoliad safle'r ysgol newydd, cadw at amserlenni; sicrhau fod telerau contract yn ddigon cadarn i sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor a pharhau â'r drafodaeth gyda chymuned Bodffordd ynghylch yr adnodd cymunedol yn Ysgol Bodffordd.

Mewn perthynas â fforddiadwyedd y prosiect, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y gall cyfanswm yr arbedion sy'n deillio o gynlluniau moderneiddio ysgol amrywio yn dibynnu ar faint o ysgolion sy'n cael eu cau fel rhan o'r broses mewn ardal benodol. Yn yr achos hwn, nid yw'r arbedion yn sylweddol a bydd y prosiect yn creu costau ychwanegol i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n cynnig cyfraniad tuag at gostau cyfalaf fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig cyfle unwaith mewn oes i'r Awdurdod foderneiddio ei stoc ysgolion gan gadw mewn cof y byddai'n rhaid iddo fel arall ariannu costau ôl-groniad cynnal a chadw ar ei ysgolion, sy'n gost sylweddol.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol cyfunedig (ASA/ABA) ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**
- **Bod yr ASA/ABA yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**
- **Bod derbyniadau cyfalaf i ariannu adeiladau'r ysgol gynradd newydd yn cael eu neilltuo ar yr amod nad oes problemau'n codi wrth werthu'r safle(oedd).**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **26 Tachwedd 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2018 - Gorffennaf 2019;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2018 - Gorffennaf 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 10

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 2018** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 2 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>13 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 3 | **Datblygu Safle Sipsiwn a Theithwyr, Star** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>26 Tachwedd 2018<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>10 Rhagfyr 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 5 | **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN)**<br><br>Dirprwyo i Gyngor arall yr awdurdod i gweithredu'r Prosiect. | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 - yn amodol ar gael adroddiad rhanbarthol cytunedig. | |
| 6 | **Sefydlu Bwrdd a Chyfundrefn Draenio Cynaliadwy** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br><br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |

Tudalen 12

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Moderneiddio Ysgolion Môn – Adroddiad ar y gwrthwynebiadau i ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 8 | **Moderneiddio Ysgolion Môn – Achos Strategol Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol Cyfunedig – Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 10 Rhagfyr 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| **Ionawr 2019** | | | | | | | |
| 9 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Ionawr 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

Tudalen 14

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Chwefror 2019** | | | | | | |
| 10 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 11 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Chwefror 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 12 | **Ffioedd a Thaliadau 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 13 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 15 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 16 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 17 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

Tudalen 16

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 19 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2019/20** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| | | | | | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| **Mawrth 2019** | | | | | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 23 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>(Dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 24 | **Moderneiddio Hamdden** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>12 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill 2019** | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| | **Mai 2019** | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2019 | |
| | **Mehefin 2019** | | | | | | |
| 27 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2019 | |
| | **Gorffennaf 2019** | | | | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Gorffennaf 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Rhagfyr 2018 – Gorffennaf 2019

Diweddarwyd 19 Tachwedd 2018



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 TACHWEDD 2018** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2018/19)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.1 Hwn yw ail gerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

1.2 Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd hwy ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018.

1.3 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

1.3.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 3. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o chwarter i chwarter er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod Ch3.

1.3.2 Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.

1.3.3 Parhau i gynnal/gwella presenoldeb yn y gwaith gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol. Rhoddir blaenoriaeth i gynnal y gwelliant mewn perfformiad yn y gwasanaethau Oedolion a Dysgu ar gyfnod pan mae eu perfformiad cyffredinol yn holl bwysig i ddatblygiad ein plant a lles ein dinasyddion mwyaf bregus.

1.3.4 Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant yn ystod y chwe mis nesaf, ail-werthuso eu

| |
|---|
| gweithdrefn rheoli cwynion er mwyn gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen.<br><br>1.3.5 Parhau i graffu'n rheolaidd ar reolaeth ariannol gorfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.<br><br>1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae sylwadau AD wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Mi fydd sylwadau yn dilyn cyfarfod Sgriwtini Corfforathol ar y 23/11 i'w drafod yn y cyfarfod hwn |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2, 2018/19 a'r Cerdyn Sgorio<br>Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 2<br>Atodiad C - Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 – Chwarter 2 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2018/19 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018). |

**ADRODDIAD MONITRO’R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2018/19)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Datblygwyd y system hon o adrodd yn chwarterol ar y cerdyn sgorio ochr yn ochr â’r ffrwd waith sy’n nodi ac yn rhoi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn benodol weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio’r adroddiad perfformiad.

1.2 Cafodd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni eu penderfynu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad gan Benaethiaid Gwasanaeth ac mae’r cerdyn sgorio yn dangos y sefyllfa bresennol ar ddiwedd Ch2 a bydd (ynghyd â’r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd 2018.

## 2. CYD-DESTUN

**2.1** Hon yw’r chweched flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i’r amlwg mewn perthynas â nifer o’r dangosyddion hynny ac mae sylwadau’r UDA / y Pwyllgor Sgriwtini a’r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar ddarpariaeth weithredol.

**2.2** Adlewyrchir yr effaith honno yn y modd y mae perfformiad y Cyngor yn cymharu’n ffafriol ar lefel genedlaethol yn erbyn nifer o ddangosyddion a gesglir yn flynyddol.

**2.3** Ceir tystiolaeth o’r effaith honno’n chwarterol ac yn ein perfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn y MAC.

**2.3.1** Mae’r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC), sef cyfres o ddangosyddion sy’n mesur perfformiad yn genedlaethol, wedi cael eu cyhoeddi gan Data Cymru am 2018/19. O’r dangosyddion a gyhoeddwyd (nid yw dangosyddion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael eu rhyddhau eto) mae perfformiad blwyddyn ar flwyddyn y Cyngor wedi gwella mewn perthynas â 75% o’r dangosyddion sydd ar gael ac mae perfformiad wedi dirywio yn y 25% arall.

**2.3.2** O’r data a gyhoeddwyd, mae gan y Cyngor 7 dangosydd yn y Chwartel Uchaf (ymhlith y 6 Cyngor gorau yng Nghymru), 5 yn y Chwartel Canolrifol Uwch (rhwng y 7fed a’r 11eg safle), 5 yn y Chwartel Canolrifol Is (rhwng y 12fed a’r 16eg safle), a 3 yn y Chwartel Is (rhwng yr 17eg a’r 22ain safle). Yn achos y dangosyddion MAC sy’n cael eu tracio yn y Cerdyn Sgorio, gellir gweld eu safleoedd yn chwarteli 2017/18 yn y golofn ddiwethaf.

**2.3.3** Ceir dadansoddiad pellach o’r perfformiad cyffredinol drwy’r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gellir gweld copi ohono drwy fynd i’r wefan ganlynol: [http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor](http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor)

**2.3.4** Mae'r targedau ar gyfer y dangosyddion MAC sy'n cael eu tracio'n chwarterol eisoes wedi cael eu haddasu ble yr oedd angen gwneud hynny. Bydd y targedau ar gyfer y dangosyddion MAC Gwasanaethau Cymdeithasol nad ydynt wedi eu cyhoeddi hyd yma yn cael eu hadolygu yn ystod Ch3 unwaith y bydd y canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi.

## 2.4 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.4.1** Ar ddiwedd Ch2, mae'n galonogol nodi fod mwyafrif y dangosyddion perfformiad yn parhau i berfformio'n dda fel yr oeddent yn adroddiad Ch1. Mae hyn yn beth da ac yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa yr oeddem ynddi ar ddiwedd Ch2 yn 2017/18. Gan ein bod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar berfformiad, y flaenoriaeth yn awr yw cynnal y perfformiad da hwn ar draws ein gwasanaethau yn Ch3.

**2.4.2** Er bod yr adroddiad hwn yn un cadarnhaol rydym yn nodi bod 2 o'r 30 dangosydd yr adroddir arnynt yn chwarterol yn tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol am y flwyddyn. Mae'r rhain wedi ei hamlygu'n Goch neu'n Ambr ar y cerdyn sgorio ei hun ac maent yn cael eu trafod isod.

**2.4.3** Y ddau ddangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion wnaeth danberfformio yn ystod Ch 2 oedd –

(i) 11) PM20a – COCH - Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi ac a oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach. Roedd perfformiad yn yr achos hwn yn 33% ar ddiwedd Ch2 yn erbyn targed o 50%.

Fel y nodwyd yn adroddiad monitro Ch1 y cerdyn sgorio, mae'r dangosydd hwn yn delio gyda nifer fechan o achosion (3) ac o'r herwydd, gall perfformiad amrywio'n sylweddol o chwarter i chwarter. Yn Ch2, o ganlyniad i'r ymyrraeth ail-alluogi a ddarparwyd gan y gwasanaeth, darparwyd mwy yn hytrach na llai o ofal ar gyfer 3 unigolyn. Mae hyn yn adlewyrchiad o natur y salwch sydd ganddynt.

Oherwydd y nifer fechan o achosion, nid oes arwyddocâd ystadegol i'r data hwn ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i'w fonitro yn ystod Ch3 a Ch4.

(ii) 07) PAM/025 (PM19) – AMBR - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed. Perfformiad y dangosydd hwn ar ddiwedd Ch2 oedd 4.08 yn erbyn targed blynyddol o 3.

Cydnebir bod cyfradd uchel o oedi wrth drosglwyddo gofal yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd y perfformiad yn Ch2 (1.79) yn welliant ar berfformiad Ch1 (2.30).

Rhagwelir y bydd y cytundeb Gofal Cartref sy'n seiliedig ar ardaloedd ac a gomisiynwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol ar ffigyrau Ch3. Er enghraifft, mae ffigyrau ar gyfer mis Hydref 2018 yn dangos na chafodd neb

oedd yn disgwyl am ofal cymdeithasol eu cadw yn yr ysbyty yn ystod y mis a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau yn y dyfodol.

**2.4.4** Mae gweddill y dangosyddion yr adroddir arnynt yn yr adran rheoli perfformiad ar gyfer Ch2 i gyd yn **WYRDD** neu'n **FELYN** ac yn perfformio'n dda o gymharu â'u targedau. Bydd rhaid i Wasanaethau fonitro nifer o ddangosyddion y mae eu perfformiad yn dirywio o gymharu â Ch1 yn ystod Ch3.

**2.4.5** Un o'r dangosyddion oedd yn GOCH ac a drafodwyd yn Adroddiad Monitro Ch1 y Cerdyn Sgorio oedd dangosydd 4 ar y Cerdyn Sgorio (PM28), cyfartaledd yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae'n braf nodi fod y dangosydd hwn wedi gwella erbyn hyn ac yn WYRDD ar ddiwedd Ch2.

**2.4.6** *Er mwyn cynnal a gwella ein perfformiad a'n statws cenedlaethol fel cyngor sy'n cyflawni,* ***mae'r UDA yn argymell –***

**2.4.6.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 3. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o chwarter i chwarter er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod Ch3.

**2.4.6.2** Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.

**2.4.7** Mae Atodiad B yn dangos yr holl raglen waith y mae'r ddau Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Mae'r materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u tracio drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod yn chwarterol.

## 2.5 RHEOLI POBL

**2.5.1** Mae rheoli ein pobl yn agwedd hollbwysig o reolaeth gorfforaethol y Cyngor sydd (os caiff ei rheoli'n ddigonol) yn ein galluogi ni i barhau gyda'r nod o wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Mae gweithlu da ac iach yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaethau da sy'n gwella.

**2.5.2** Er mwyn sicrhau gwelliant, mae salwch yn faes sy'n cael ei ddadansoddi, gydag adroddiadau'n cael eu paratoi'n fisol. Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd 2.04 o ddyddiau o salwch fesul ALlC sydd yn welliant ar chwarter 1 ac yn rhoi sgôr o 4.75 o ddyddiau o salwch fesul ALlC (dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan reoli pobl). Dengys y ffigwr hwn ein bod ychydig dan y targed o gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18, sef 4.25 diwrnod o salwch fesul ALlC. Fodd bynnag, mae ychydig yn well na chanlyniadau 2016/17 ble yr oedd perfformiad yn 9.78 o ddyddiau o salwch fesul ALlC ar ddiwedd y flwyddyn.

**2.5.3** Dengys dadansoddiad manylach o berfformiad y gwasanaethau yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer Ch2 2018/19 fod 4 gwasanaeth yn uwch na'u

targed. Mae cyfuno'r canlyniadau hyn gyda chanlyniadau Ch1 yn dangos fod nifer o wasanaethau (6) yn uwch na'u targed ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn ar hyn o bryd. Er bod hyn yn fater o bryder, y ddau wasanaeth y mae'r UDA wedi eu blaenoriaethu i wella eu cyfraddau salwch blynyddol ymhellach yn Ch3 o gymharu â blynyddoedd blaenorol yw:

- Oedolion
- Dysgu


Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys dros 50% o'n gweithlu.

**2.5.4** Roedd gwelliant sylweddol yn lefelau absenoldeb salwch y Gwasanaethau Oedolion yn ystod Ch2 ac roedd yn well nag ar unrhyw gyfnod yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Oherwydd cyfradd salwch uwch yn Ch1 mae sgôr y gwasanaeth ar hyn o bryd yn 6.88 diwrnod o salwch fesul ALlC yn erbyn targed o 5.90 diwrnod o salwch fesul ALlC hyd at ddiwedd Ch2. Collwyd cyfanswm o 1371 diwrnod o ddiwrnodau oherwydd achosion o salwch tymor hir rhwng mis Ebrill a mis Medi. Gyda misoedd y gaeaf ar y gorwel, mae'n hanfodol ein bod yn blaenoriaethu sicrhau cyfraddau salwch da ymysg staff yn y Gwasanaeth Oedolion er mwyn delio gyda'n dinasyddion mwyaf bregus.

**2.5.5** Mae lefelau salwch y gwasanaeth Dysgu wedi gwella hefyd o gymharu â Ch1. Hyd at ddiwedd Ch2 roedd gan y gwasanaeth 4.67 diwrnod o salwch fesul ALlC yn erbyn targed o 4.16 diwrnod o salwch fesul ALlC. Y prif reswm am y lefel salwch hwn yw perfformiad Ysgolion Cynradd (dangosydd 04 ar y cerdyn sgorio). Gellir priodoli 68% o'r lefelau salwch yn y gwasanaeth Dysgu i Ysgolion Cynradd. Mae hyn wedi cael ei gydnabod a lluniwyd cynllun gwaith salwch sydd yn cael ei weithredu gan y gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**2.5.6** Hyd at ddiwedd Ch2 mae patrwm salwch tymor hir ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn parhau ac rydym fel Awdurdod yn cydnabod na fydd salwch tymor hir yn diflannu.

**2.5.7** Mae'r Cyngor yn parhau i graffu'r arferion hyn yn rheolaidd ar draws ei wasanaethau amrywiol ac erbyn diwedd Ch2, roedd y perfformiad cadarnhaol a welwyd yn Ch1 yn parhau. Mae tabl 1 yn dangos bod y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen yn cwrdd â'r targed. Dyma'r tro cyntaf yn ystod y tair blynedd diwethaf i hynny gael ei gyflawni. Yn ogystal, mae canran cyffredinol y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gwblhawyd (ar amser neu yn hwyr) yn 89% ac unwaith eto mae'n rhoi sicrwydd fod camau yn cael eu cymryd i ddelio ag absenoldebau salwch yn unol â disgwyliadau polisi.




(Tabl 1)

**2.5.8 O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –**

**2.5.9** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal/gwella lefelau presenoldeb yn y gwaith gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol. Mae angen rhoi blaenoriaeth i gynnal y gwelliant mewn perfformiad yn y gwasanaethau Oedolion a Dysgu ar gyfnod pan mae eu perfformiad cyffredinol yn holl bwysig i ddatblygiad ein plant a lles ein dinasyddion mwyaf bregus.

## 2.6 GWASANAETH CWSMER

**2.6.1** Hyd at ddiwedd Ch2, defnyddiwyd technoleg AppMôn i gyflwyno 1809 o adroddiadau (ar faterion yn cynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Mae hyn yn gynnydd o gymharu â 1087 yn Ch2 17/18. Daeth 84% o'r adroddiadau hyn drwy'r wefan sydd yn y broses o gael ei diweddaru a'i hadnewyddu.

**2.6.2** Dangosydd newydd ar gyfer eleni yw nifer y defnyddwyr cofrestredig sydd gennym ar AppMôn a Gwefan y Cyngor a rhwng diwedd Ch1 a diwedd Ch2 gwelwyd cynnydd o bron i 600 o ddefnyddwyr i 4883. Fel y nodwyd yn adroddiad y cerdyn sgorio ar gyfer Ch1, bydd gwefan y Cyngor yn cael ei gweddnewid a rhagwelir y bydd hyn annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o ffurflenni ar-lein ac i gysylltu â'r Cyngor ar-lein. Yn ogystal, disgwylir y bydd nifer y taliadau a wneir ar y we yn cynyddu.

**2.6.3** Fe gynyddodd nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol unwaith eto yn ystod Ch2 i 28k. Mae hyn wedi ei rannu rhwng Facebook (13k o ddilynwyr) a Twitter (14k o ddilynwyr) ac Instagram (1k). Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a rhagdybir y bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r sianelau hyn yn parhau i gynyddu gan olygu newid felly yn y modd y mae trigolion ac eraill yn cyfathrebu gyda ni fel Cyngor. Mae'n cael effaith

hefyd ar faich gwaith y tîm corfforaethol bychan sy'n monitro ac yn ymateb i'r presenoldeb hwn ar y cyfryngau cymdeithasol.

**2.6.4** O ran rheoli cwynion gan gwsmeriaid, roedd 29 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch2 o gymharu â 43 yn Ch2 17/18. Erbyn diwedd Ch2 roedd 92% o'r cwynion oedd angen ymateb iddynt wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen ofynnol, ac roedd 2 o'r ymatebion yn hwyr. O'r cwynion hyn, ni chadarnhawyd 15 ohonynt, cadarnhawyd 6 yn llawn (Adnoddau [3], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [2], a Thai [1] a chadarnhawyd 1 yn rhannol (Priffyrdd Eiddo a Gwastraff [1]). Mae hyn yn arwydd ein bod yn flaengar yn ein hymagwedd tuag at ddelio gyda chwynion a'n bod yn eu defnyddio mewn modd rhagweithiol i wella pethau.

**2.6.5** O ran y gwasanaethau cymdeithasol, cafwyd 4 cwyn Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion) a 26 o Gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [19], Gwasanaethau Oedolion [7]) yn ystod Ch2. O'r cwynion hyn, ymatebwyd i 50% ohonynt (Coch ar y cerdyn sgorio) o fewn yr amserlen gyda 13 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Plant [10] a Gwasanaethau Oedolion [3]). Er nad oedd y Gwasanaethau Plant wedi anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen yn achos 9 o'r 19 cwyn Cam 1, roedd trafodaeth wedi cael ei chynnal gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen yn achos 14 o'r 19 (74%).

**2.6.6** Roedd cyfanswm canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen yn 76% ar ddiwedd Ch2 sy'n debyg i berfformiad ar ddiwedd Ch1. Derbyniwyd cyfanswm o 552 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (cyfanswm o 3899 o gwestiynau) erbyn diwedd Ch2 ac roedd 110 o ymatebion hwyr. Mae ein hymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn bwysig ac yn gwella ac mae'r UDA a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn fanwl.

***2.6.7*** ***O'r herwydd mae'r UDA yn argymell –***

***2.6.7.1*** *Fod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant ail-asesu eu system rheoli cwynion er mwyn gwella nifer yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni gofynnol.*

## 2.7 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.7.1** Rhagwelir gorwariant o £2.660m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae £3.561m o'r gorwariant rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 i'w briodoli i gyllidebau'r gwasanaeth, sydd wedi eu gwneud i fyny o nifer o or a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau'n debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Gwasanaeth Oedolion hefyd dan pwysau oherwydd galw cynyddol. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaidd erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £0.553m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a disgwylir i'r Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Dreth Gyngor, gasglu gwarged o £0.348m. Bydd hynny'n gostwng cyfanswm y gorwariant i £2.660m. Mae lefel

ragamcanedig y gorwariant yn 2.03% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol os bydd yn digwydd mewn gwirionedd.

**2.7.2** Er y gellir cyllido'r lefel hon o orwariant o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2018/19, bydd yn erydu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i lefel sydd ymhell islaw'r isafswm derbyniol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb am 2019/20, bydd angen cyllido'r gorwariant a chychwyn y broses o geisio rhoi arian yn ôl yn y balansau cyffredinol. Dyma ymagwedd ddarbodus sy'n angenrheidiol i warchod hyfywedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**2.7.3** Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd craffu rheolaidd gan yr UDA a chamau lliniaru gan Benaethiaid Gwasanaeth o gymorth i'r gwasanaethau reoli'r cyllidebau y mae ganddynt reolaeth drostynt.

**2.7.4** O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

**2.7.4.1** Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**3.1.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 3. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o chwarter i chwarter er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod Ch3.

**3.1.2** Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.

**3.1.3** Parhau i gynnal/gwella presenoldeb yn y gwaith gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol. Rhoddir blaenoriaeth i gynnal y gwelliant mewn perfformiad yn y gwasanaethau Oedolion a Dysgu.

**3.1.4** Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant yn ystod y chwe mis nesaf, ail-werthuso eu gweithdrefn rheoli cwynion er mwyn gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen.

**3.1.5** Parhau i graffu'n rheolaidd ar reolaeth ariannol gorfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2018/19

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result | Chwartel 17/18 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) PAM/029 (PM33) - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.35% | 5.50% | 11% | 9% | 5% | TBC Ch3 / Q3 |
| 02) PAM/028 (PM24) - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↓ | 91% | 90% | 90% | 67.57% | 89.17% | TBC Ch3 / Q3 |
| 03) SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 79.16% | 83% | 83% | 63.32% | 79.35% | TBC Ch3 / Q3 |
| 04) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 272 | 320 | 320 | 326.5 | 266 | TBC Ch3 / Q3 |
| 05) SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Melyn / Yellow | ↓ | 16% | 15% | 15% | - | - | - |
| 06) SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.42% | 94% | 94% | - | - | - |
| 07) PAM/25 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Ambr / Amber | ↓ | 4.08 | 3 | 3 | 6.58 | 6.05 | TBC Ch3 / Q3 |
| 08) SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Melyn / Yellow | ↓ | 91.4 | 93% | 93% | 96% | 94.40% | TBC Ch3 / Q3 |
| 09) SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 16 | 19 | 19 | 17.44% | 20.51% | TBC Ch3 / Q3 |
| 10) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.25% | 90% | 90% | 93.25% | 90.48% | TBC Ch3 / Q3 |
| 11) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Coch / Red | ↑ | 33.33% | 50% | 50% | 59.26% | 62.60% | TBC Ch3 / Q3 |
| 12) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 65.52% | 62% | 62% | 62.65% | 33.30% | TBC Ch3 / Q3 |
| 13) PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (Ch3/Q3) | - | - | - | 94.80% | 94.80% | 94.80% | | TBC Rhagfyr / December |
| 14) PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (Ch3/Q3) | - | - | - | 94.60% | 94.60% | 94.60% | | Uchaf / Upper |
| 15) PAM/010 (STS/005b) - Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.58% | 94% | 94% | 93% | 93% | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 16) PAM/030 (WMT/009b) - Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 72.84% | 74% | 72% | 72.2% | 65.8% | Uchaf / Upper |
| 17) PAM/035 - Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↓ | 0.15 | 1 | 1 | - | - | - |
| 18) PAM/043 - Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | - | ↑ | 119kg | - | 210kg | - | - | - |
| 19) PAM/017 (LCS/002b) - Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth | Gwyrdd / Green | ↓ | 257k | 235k | 515k | 508k | 464k | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 20) PAM/023 (PPN/009) - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% | Uchaf / Upper |
| 21) PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Melyn / Yellow | ↓ | 86% | 90% | 90% | 86% | - | Isaf / Lower |
| 22) PAM/019 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 65% | 65% | 47% | - | Isaf / Lower |
| 23) PAM/041 - Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 66% | 50% | 50% | - | - | - |
| 24) PAM/042 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 83% | 80% | 80% | - | - | - |
| 25) PAM/012 - Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 56.62% | 55% | 55% | - | - | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | → | 48 | 32 | 75 | 75 | - | Uchaf / Upper |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 4 | 2 | 4 | 4 | - | - |
| 28) PAM/015 (PSR/002) - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↓ | 161.1 | 175 | 175 | 177 | 238.8 | Uchaf / Upper |
| 29) PAM/037 - Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Melyn / Yellow | ↓ | 13.39 | 12 | 12 | - | - | - |
| 30) PAM/038 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | - | - | - |
| 31) PAM/009 - Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | Isaf / Lower |
| 32) PAM/032 - Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 33) PAM/033 - Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 34) PAM/034 - Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) PAM/040 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 36) PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 37) PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 38) PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 39) PAM/020 (THS/012a) - Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 3% | 3.20% | 2.30% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 40) PAM/021 (THS/012b) - Canran y prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 5% | 4.40% | 3.20% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 41) PAM/020 (THS/012c) - Canran y prif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 10% | 8.90% | 10.10% | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 42) PAM/039 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2018/19

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | → | 29 | 35 | 71 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↓ | 4 | - | 9 | 5 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 9 | - | 28 | 25 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 92% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 50% | 80% | - | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 26 | - | 51 | 54 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 33 | - | 112 | 191 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | → | 135 | - | 753 | 566 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 76% | 80% | 78% | 77% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 552 | - | 919 | 1037 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 4883 | - | - | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | → | 1809 | - | 2k | 1k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↓ | 6.6k | - | 11k | - |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↓ | 3.2k | - | 5k | - |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 28k | 25k | 25k | 21k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 422k | - | 820k | 715k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2261 | - | 2252 | 2258 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1260 | - | 1244 | 1250 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↑ | 4.75 | 4.47 | 9.96 | 9.78 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.00 | - | 4.63 | 4.72 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.75 | - | 5.32 | 5.06 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↑ | 5.87 | 4.16 | 10.39 | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.34 | - | 4.85 | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.53 | - | 5.55 | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.36 | 4.16 | 9.67 | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.74 | - | 5.32 | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.65 | - | 4.35 | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 80% | 80% | 73% | 78% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | ↑ | 89% | 95% | 85% | 91% |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | - | - | - | 80% | 69% | 57% |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | 11% | 10% |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | - | - | - | 80% | 90.50% | 80% |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) (Q3/Ch3) | - | - | - | - | - | 91.40% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↓ | 14 | - | 12 | 15 |

| Rheolaeth Arannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | - | £63,622,459 | £65,924,287 | 3.62% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | - | £130,899,873 | - | - | £133,559,880 | 2.03% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £44,891,000 | - | - | £23,494,000 | -47.66% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | - | £2,521,500 | - | - | £2,254,500 | -10.59% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | - | -£10,481,695 | -£12,790,396 | 22.03% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | - | £11,063,000 | - | - | £8,034,000 | -27.38% |
| 07) Chost benthyca | - | - | £4,491,593 | - | - | £4,047,747 | -9.88% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↓ | - | 92.00% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.90% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.70% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↓ | - | 96.8% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 98.84% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd d | - | ↑ | - | 97.38% | - | - | - |

Atodiad B

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau, a'r**
- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi dechrau |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | **RAYG a Diweddariad** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu **Ysgol Santes Dwynwen** yn Niwbwrch wedi llithro i Mawrth 2019<br><br>Mae gwaith adnewyddu **Ysgol Brynsiencyn** wedi digwydd dros gyfnod yr haf. Mae gwaith pellach i'w wneud ar y ffenestri cyn cwblhau. |
| | **Llangefni** | **Ysgol Bodffordd a Ysgol Corn Hir**<br>Rhybudd Stadudol wedi ei gyhoeddi i'r bwriad i gau'r ysgolion. Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cais Cyn-Cynllunio rhwng 17 Medi a 16 Hydref ar ddyluniad yr Ysgol Ardal Newydd. Bydd y canlyniadau o'r ymgynghoriad i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith maes o law.<br><br>**Ysgol y Graig a Ysgol Talwrn**<br>Penderfynwyd cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. Mae gwaith dylunio a'r chostau cysylltiedig yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. |
| | **Seiriol De Ddwyrain** | Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith oedd i gymeradwyo Opsiwn 1, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed. Mae gwaith dylunio a'r chostau cysylltiedig wrthi'n cael eu ddatblygu. |
| | **Ardal Amlwch** | Ymgynghoriad anffurfiol ar yr ardal yn cael ei gynnal rhwng 5 Tachwedd - 2 Rhagfyr |
| | **Ôl 16** | Ymgynghoriad anffurfiol ar ôl 16 yn cael ei gynnal rhwng Tachwedd a Rhagfyr |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae Hafan Cefni bellach ar agor. Mae 39 o denantiaid bellach wedi symud i mewn. Mae'r ymateb gan y tenantiaid a'r teuluoedd wedi bod yn gadarnhaol iawn. |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.<br><br>Nawr bod penderfyniad wedi'i gytuno mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, bydd datblygiad y safle yn cael ei adolygu. |
| | **Tai a chefnogaeth mewnol** | Mae'r Gwasanaeth yn cael ei ail-fodelu er mwyn sicrhau arbedion ariannol. Mae staff yn ymgynghori ar newidiadau posibl ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Tai a Chefnogaeth Allanol** | Bwriad y prosiect fydd i ailfodelu ac ail ddylunio'r gwasanaethau mewn ymgynghoriad agos gyda gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae rhai newidiadau eisoes wedi'u gweithredu i gynorthwyo arbedion ariannol. |
| | **Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref** | Mae'r contractau newydd mewn lle erbyn hyn. Mae cyfnod pontio hyd at Ch3 2018/19. |
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Melin Llynnon a'r Tai Crynion– Hysbysebiad yn y cylchgrawn arbenigol yn Mehefin 2018 i geisio denu diddordeb masnachol.<br><br>Carchar a Llys Biwmares – Mae'r gwaith mewn partneriaeth gyda Cyngor tref Biwmares i drosglwyddo'r asedau ar y gweill. |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Wedi ei gwblhau |
| | **Market Hall** | Mae'r prosiect ar ei hol hi a mae'r dyddiad cwblhau nawr yn Rhagfyr 2018. Mae materion Cyllidol yn gysylltiedig gyda arian ERDF wedi gohirio'r prosiect. |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | | Mae'r cais cynllunio ar gyfer y safle Star wedi eu gyflwyno i a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Hydref 2018 |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler y Dangosyddion Perfformiad 16 + 17 ar y Cerdyn Sgorio i weld cyrhaeddiad Ch2 |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Mae cynllun ar y gweill i ddarparu gwaith lliniaru llifogydd ym Mhentraeth, Biwmares a Bodffordd yn ystod 2018/19. |

| **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen / Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **RAYG a Diweddariad byr** |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | Slipiau Cyflog - Mae costau argraffu a phostio wedi gostwng gydag amcangyfrif o arbedion o £1000 y mis.<br><br>Recriwtio trwy'r wefan - Materion technegol i'w datrys o hyd - amcangyfrifir mynd 'yn fyw' ym mis Tachwedd 2018<br><br>Costau teithio – ar y trywydd iawn ac yn gwneud cynnydd da. Mae hawliadau teithio electronig |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyntaf wedi'u cwblhau'n llwyddiannus a bydd y dechnoleg yn cael eu cyflwyno i eraill yn ystod y misoedd nesaf |
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb** | Prosiect yn ôl ar y trywydd iawn yn dilyn yr uwchraddio i bob cyfrifiadur yn y llyfrgelloedd. Peilot i ddechrau mis Ionawr 2019 yn Amlwch a Phorthaethwy am gyfnod o 4 mis. |
| | **Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel** | |
| | **CRM** | Gweithredwyd y Modiwl Gwastraff ac Ailgylchu. Mae oedi gyda sicrhau'r cyswllt AD ac integreiddio Teleffoni'n yn golygu bod y prosiect yn Goch - mae cynlluniau wedi cael eu sefydlu i fynd i'r afael â'r oedi hwn. |
| | **Gwella Prosesau Busnes** | Penderfyniad i ganolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o edrych ar VOIDS.<br><br>Mae'r broses wedi sgopio a mae ymdrechion diwygiedig yn parhau. Cytundeb i ail edrych ar hwn yn dilyn ymgorffori yr arfer diwygiedig. |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Mae dogfennaeth tendr Refit Cymru wedi'i gwblhau ac i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018.<br><br>Mae gwaith cyfalaf wedi'i neud yn Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi |
| **Strategaeth TGCh** | | Strategaeth TG Digidol – 'Ynys Ddigidol' wedi cael ei chymeradwyo ac yn berthnasol i 2016-2020.<br><br>Strategaeth yn cael ei ddiwygio i'w ail-fabwysiadu yn ystod Chwarter 2. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Fe wnaethom gomisiynu CIPFA i gynnal adolygiad dros yr haf o'r cynnydd hyd yma / pellter a deithiwyd a bydd cyhoeddiad ar adroddiad SAC ar ein trefniadau lleol ar fin digwydd. Felly, ein bwriad yw rhoi cynllun gwella pellach ar waith yn cynnwys argymhellion CIPFA a SAC ynghyd â'r ddwy ffrwd waith sy'n parhau ar y trywydd iawn |
| **Strategaeth Cyfathrebu** | | Strategaeth Cyfathrebu dywededig wedi ohirio tan Rhagfyr 2018 |

**ATODIAD C**

## Alldro Refeniw Rhagamcanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 – Chwarter 2

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch2 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2018/19 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Ch2 Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor / (Tan)wariant | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 | Gor/(tan)wariant drafft llynedd 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **DYSGU GYDOL OES** | | | | | | | | | |
| Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig | 43,129 | 22,377 | 22,377 | 0 | 0.00% | 43,129 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog | 4,263 | 1,241 | 1,547 | 307 | 24.07% | 4,890 | 627 | 14.71% | 893 |
| Diwylliant | 1,305 | 853 | 791 | (61) | -7.20% | 1,192 | (113) | -8.66% | (147) |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | 24,602 | 11,931 | 12,750 | 820 | 6.87% | 25,468 | 866 | 3.52% | 215 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | 8,317 | 4,555 | 5,772 | 1,217 | 26.71% | 10,349 | 2,032 | 24.43% | 1,778 |
| **TAI** | 1,021 | 994 | 905 | (88) | -8.90% | 1,006 | (15) | -1.47% | 7 |
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,302 | 3,613 | 3,806 | 193 | 5.35% | 6,218 | (84) | -1.33% | (100) |
| EIddo | 907 | 479 | 650 | 171 | 135.62% | 977 | 70 | 7.72% | 55 |
| Gwastraff | 7,490 | 3,537 | 3,507 | (30) | -0.84% | 7,493 | 3 | 0.04% | (63) |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,733 | 1,197 | 1,231 | 35 | 3.90% | 1,683 | (50) | -2.89% | (10) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,948 | 840 | 715 | (126) | -14.96% | 1,993 | 46 | 2.31% | 9 |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,235 | 685 | 685 | 0 | -0.05% | 1,227 | (8) | -0.65% | (61) |
| TGCh | 2,354 | 1,226 | 1,443 | 217 | 17.71% | 2,601 | 247 | 10.49% | 45 |
| Trawsnewidd Corfforaethol | 825 | 325 | 276 | (49) | -15.14% | 714 | (111) | -13.45% | (158) |
| **ADNODDAU** | 2,839 | 1,587 | 1,503 | (85) | -5.34% | 2,820 | (19) | -0.67% | (3) |
| **BUSNES Y CYNGOR** | 1,528 | 747 | 710 | (36) | -4.83% | 1,522 | (6) | -0.39% | 181 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch2 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2018/19 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Ch2 Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor / (Tan)wariant | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 | Gor/(tan)wariant drafft llynedd 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **COSTAU CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD** | 3,430 | 1,816 | 1,500 | (316) | -17.38% | 3,293 | (137) | -3.99% | (103) |
| **RHEOLAETH CORFFORAETHOL** | 657 | 328 | 335 | 7 | 2.01% | 671 | 14 | 2.13% | (81) |
| **AMCANGYFRIF O EFFAITH COSTAU NA ELLIR EU RHEOLI** | | | | | | 200 | 200 | | 159 |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU GWASANAETH** | **113,884** | **58,330** | **60,505** | **2,174** | **3.73%** | **117,445** | **3,561** | **3.13%** | **2,616** |
| Ardollau | 3,360 | 3,360 | 3,361 | 1 | 0.02% | 3,360 | 0 | 0.00% | (2) |
| Rhyddhad Dewisol Trethi | 60 | 0 | 0 | 0 | 0% | 63 | 3 | 5.00% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,511 | 0 | (23) | (23) | 0.00% | 7,050 | (461) | -6.14% | (494) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,232 | 1,232 | 1,267 | 35 | 2.88% | 1,232 | 0 | 0.00% | 106 |
| Cyfraniad gwasanaethau Cefnogol CRT | (693) | 0 | 0 | 0 | | (693) | 0 | 0.00% | **(82)** |
| Budd-daliadau a roddwyd | 5,546 | 700 | 815 | 115 | 16.44% | 5,451 | (95) | -1.71% | (849) |
| **CYFANSWM CYLLID CORFFORAETHOL** | **17,016** | **5,292** | **5,420** | **128** | **2.42%** | **16,463** | **(553)** | **-3.25%** | **(1,276)** |
| **CYFANSWM 2018/19** | **130,900** | **63,622** | **65,924** | **2,302** | **3.62%** | **133,908** | **3,008** | **2.30%** | **1,340** |
| **CYLLIDO** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (12,155) | (12,155) | 0 | 0.00% | (22,574) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (34,541) | (101) | 0.29% | 116 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (895) | (247) | 38.02% | 0 |
| Grant Cynnal Refeniw | (73,238) | (39,436) | (39,436) | 0 | 0.00% | (73,238) | 0 | 0.00% | 0 |
| **CYFANSWM CYLLID 2018/19** | **(130,900)** | **(51,591)** | **(51,591)** | **0** | **0.00%** | **(131,198)** | **(348)** | **0.00%** | **-72** |
| **CYFANSWM YR ALLDRO GAN GYNNWYS EFFAITH Y CYLLID** | **0** | **12,031** | **14,333** | **2,302** | **19.13%** | **2,660** | **2,660** | **2.03%** | **1,456** |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 TACHWEDD 2018** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2018/19** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES-OWEN / CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>02148 752663 / 751865<br>bhofi@ynysmon.gov.uk; clkfi@ynysmongov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2018, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2018/19 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £130.870m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.075m ar gyfer ei wario ar eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. O ganlyniad, gostyngwyd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor gan £0.045m. O'r herwydd, mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn £130.900m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2018/19 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.522m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso'r gyllideb, dyrannwyd swm ychwanegol o £0.707m i ddelio gyda'r pwysau ychwanegol ar y gyllideb.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 ac mae'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2018/19, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £2.660m. Mae hyn yn cyfateb i 2.03% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn i'w briodoli i bwysau ariannol tebyg i'r rhai a brofwyd yn 2017/18, yn arbennig felly cost y gwasanaethau statudol i blant.

**5.** Argymhellir y dylid:-

- **(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19;
- **(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
- **(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
- **(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2018/19 yn Atodiad D;
- **(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 yn Atodiadau DD ac E;
- **(vi)** Cymeradwyo defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer Tâl Cyfartal i gyllido'r diffyg mewn perthynas â diswyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19.

| | | |
|---|---|---|
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | d/b | |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydyw | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydyw | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Comments incorporated in the report |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Comments incorporated in the report |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2018/19
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Refeniw a ragamcenir ar gyfer 2018/19
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2018/19
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2018/19
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2018/19
- Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2018/19 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 19 Chwefror 2018 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2018).

**ATODIAD A**

**MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2018/19**

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor falans terfynol archwiliedig o £7.601m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £1.869m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2017/18 at falansau cyffredinol a oedd, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, yn £6.352m. Roedd balans terfynol archwiliedig y cronfeydd wrth gefn yn £6.899m ar ôl gwneud addasiadau yn dilyn yr archwiliad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu hariannu o’r Gronfa Gyffredinol yn 2018/19:-

| **Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith** | **Swm £ 000** | **Pwrpas** |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -6,899 | Y gronfa wrth gefn archwiliedig derfynol ar 31 Mawrth 2018. |
| 6 Tachwedd 2017 | 125 | Cyllido’r tîm Ynys Ynni. |
| 30 Ebrill 2018 | 42 | Cyllideb i gyllido’r costau o redeg Melin Llynnon yn 2018, i'w gyllido o'r Gronfa Gyffredinol. |
| 21 Mai 2018 | 268 | I’r cyllid hwn gael ei ryddhau o gronfa wrth gefn y Cyngor er mwyn cyllido gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol am 12 mis er mwyn cefnogi a mentora 7 o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. |
| Pwerau Dirprwyedig y Swyddog Adran 151 | 24 | Trosglwyddo arian i’r Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn ar gyfer Maes Parcio Mill Bank. |
| Pwerau Dirprwyedig y Swyddog Adran 151 | 131 | Diwygio’r modd y caiff cronfa wrth gefn y CRT ei drin ar gyfer Lwmp Swm Pensiynau. |
| **Cronfa Gyffredinol Ddiwygiedig y Cyngor** | **-6,309** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwiliad.** |

Amcangyfrifir y bydd yr alldro rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 yn orwariant o £2.660m. Os bydd y duedd hon yn parhau, bydd cronfa gyffredinol y Cyngor yn debygol o ostwng i £3.649m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ymhell islaw isafswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi'i osod ar £6.5m, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018.

## 2. Perfformiad Ariannol Rhagamcanedig fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £3.561m (3.13%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2019. Amcangyfrifir tanwariant o £553k ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o £348k mewn perthynas â chasglu’r Dreth Gyngor - mae £247k ohono i’w briodoli i warged ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £2.660m yn y gyllideb refeniw yn ei chyfanrwydd ar gyfer 2018/19, sef 2.03% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nid yw'r rhagolygon yn cymryd i ystyriaeth unrhyw bwysau ychwanegol a all godi os ceir tywydd garw yn ystod y gaeaf (costau cynnal a chadw priffyrdd dros y gaeaf, costau gofal cymdeithasol). Mae’r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol ar y Cyngor yn parhau i fod y gost o Riantu Corfforaethol. Disgwylir i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd orwario £2.032m. Gwasanaeth statudol a arweinir gan y galw yw hwn ac ychydig o reolaeth sydd gennym drosto.

| Crynodeb o'r amrywiaethau a ragwelir ar 31 Mawrth 2019<br>yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel ar 30 Medi 2018 | |
|---|---|
| | **(Gor) / Tanwariant £000** |
| Dysgu | 514 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 2,032 |
| Oedolion | 866 |
| Trawsnewid | 128 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (137) |
| Costau Afreolus – dyledion drwg, yswiriant a costau cyfalaf pensiynnau | 200 |
| Cyllid Corfforaethol | (553) |
| Y Dreth Gyngor, yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | (348) |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | (42) |
| **Cyfanswm Amrywiadau Gor/(tan)wariant** | **2,660** |

## 3. Esboniad o Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £307k (24.7%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd Chwarter 2. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £627k (14.71%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef cynnydd o £87k yn y gorwariant o £540k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1.

**3.1.1.2** Rhagwelir nifer o or a thanwariannau ar draws y Gwasanaeth. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw: Cludiant Ysgol – Tacsis ble rhagwelir gorwariant o £296k, sydd £27k yn llai na'r costau a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1 (£323k). Disgwylir gorwariant o £127k ar Gyd-Strategaeth AAA Ynys Môn a Gwynedd oherwydd methiant i gynhyrchu'r incwm gofynnol, costau rheolau prosiect ar gyfer cam 2 y strategaeth a chostau canolog ychwanegol i Wynedd am letya'r gwasanaeth ar y cyd. Rhagwelir o hyd y bydd gorwariant o £80k mewn perthynas â chostau integreiddiad uwchradd oherwydd galw uwch na'r disgwyl. Mae cyfanswm y gorwariant ar brydau ysgol wedi cynyddu o £19k yn Chwarter 1 i £78k yn Chwarter 2 am y flwyddyn. Mae costau All-sirol hefyd wedi cynyddu gyda'r rhagamcan yn codi o £4k i £49k.

**3.1.1.3** Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau bid buddsoddi i arbed ar gyfer y system 'One Management'. Disgwylir y bydd buddsoddi yn y system hon yn gostwng y gwariant ar dacsis yn y dyfodol. Disgwylir hefyd y bydd cydweithio â'r Gwasanaeth Caffael yn sicrhau arbedion yn erbyn y gyllideb tacsis. Disgwylir y bydd y system yn cael ei hail-dendro erbyn Ionawr 2019 ond effaith gyfyngedig yn unig gaiff hyn ar y sefyllfa gyllidebol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ni fyddir yn gweld budd llawn yr ymarfer ail-dendro tan 2019/20.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £61k (7.2%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £113k (8.66%). Mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £70k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r tanwariant, £65k, yn y Gwasanaeth Llyfrgell oherwydd swyddi gweigion. Rhagwelir tanwariant o £55k ar Amgueddfeydd ac Orielau oherwydd bod yr Oriel wedi perfformio'n well. Mae'r tanwariant uwch oherwydd arbedion staffio yn y gwasanaeth Orielau ac Amgueddfeydd oherwydd na chafodd swydd a oedd yn wag am gyfnod dros dro oherwydd absenoldeb mamolaeth ei llenwi a bu lleihad hefyd yn y defnydd o staff achlysurol. Rhagwelir yn awr y bydd tanwariant o £20k ar Talnet.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oeolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £820k (6.87%) yn y gwasanaeth am y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd yr alldro am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd yn orwariant o £866k (3.52%). Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £112k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer cleientiaid yn y Gwasanaethau i'r Henoed: Anableddau Corfforol ac Anableddau Dysgu. Mae colli cyllid allanol hefyd wedi golygu cynnydd o oddeutu £200k yn y ffigwr a ragwelwyd. Fodd bynnag, os bydd y gwasanaeth yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ynghylch cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol, efallai y bydd y gorwariant ar Oedolion yn gostwng yn sylweddol.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau i'r Henoed: gorwariant rhagamcanedig o £54k, cynnydd mawr o gymharu â thanwariant o £328k yn Chwarter 1;
- Anableddau Corfforol (AC): gorwariant rhagamcanedig o £426k, eto cynnydd mawr o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £296k yn Chwarter 1;
- Anableddau Dysgu (AD): gorwariant rhagamcanedig o £478k, eto cynnydd mawr o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £344k yn Chwarter 1;
- Iechyd Meddwl (IM): gorwariant rhagamcanedig o £144k;
- Uned Ddarparu: tanwariant rhagamcanedig o (£160k); a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: tanwariant rhagamcanedig o (£74k).

**3.2.3** Yr un modd â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yn y Gwasanaethau Anableddau Corfforol, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth a'r lleoliadau arbenigol cost uchel sydd eu hangen i gwrdd â chymhlethdod anghenion y defnyddwyr gwasanaeth hyn.

**3.2.4** Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i helpu i wrthbwyso'r gorwariant trwy leihau gwariant yn y meysydd hynny y mae ganddo fwy o reolaeth drostynt. Rhagwelir tanwariant o £160k yn yr uned ddarparu fewnol a thanwariant o £74k erbyn diwedd y flwyddyn mewn perthynas â Rheolaeth a Chefnogaeth.

**3.2.5** Mae tua 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan alw. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i geisio rhagamcan costau'r gyllideb hon a arweinir gan y galw am wasanaethau. Mae rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn a wneir ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar bob lleoliad i oedolion. Mae hyn yn golygu bod rhagamcan y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn gyfan yn hynod o anodd ac yn gallu amrywio'n fawr iawn o un cyfnod i'r llall.

**3.2.6** Mae alldro'r ail chwarter yn dangos cynnydd yn y galw o ran Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed, Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol. Bydd asesiad pellach o'r meysydd hyn yn cael ei gynnal er mwyn ystyried unrhyw gamau posibl i reoli gwariant dros y flwyddyn.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Cafwyd gorwariant o £1,217k (26.7%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £2,032k (24.43%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn gynnydd o £749k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig yn Chwarter 1. Mae hyn yn cynnwys gorwariant rhagamcanedig o £2,183k ar Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC). Mae'r cynnydd hwn oherwydd leoliadau All-sirol a lleoliadau Ansafonol ychwanegol. Roedd 160 o blant yn derbyn gofal ar 30 Medi 2018 o gymharu â 143 ar 1 Ebrill 2018. Darparwyd cyllid ychwanegol o £268k o Gronfa wrth gefn Gyffredinol y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth er mwyn ymestyn contractau gweithwyr cymdeithasol asiantaeth i gefnogi a mentora gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.

**3.3.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar:-

- rhagdybiaeth achos gwaethaf mewn perthynas â'r galw am / costau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar gostau'r gwasanaeth / y galw / y galw tebygol yn y dyfodol;
- rhagdybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau / datblygiadau mewn perthynas ag achosion. Mae'n anodd iawn rhagweld y rhain a gall amgylchiadau unigol newid, ac maent yn newid. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau / datblygiadau o ran achosion, gwnaethpwyd y rhagamcan gorau sy'n bosibl. Mae cost LAC, oherwydd natur y gwasanaeth, yn dibynnu ar y galw a gall amrywio rhwng £3k a £10k yr wythnos mewn darpariaeth arbenigol.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â chostau ymyriadau a gyfeirir gan y llys e.e. asesiadau o lety preswyl / llety â chymorth ar gyfer rhieni a phlant, cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill, sydd hefyd yn anodd i'w rhagweld ac yn cael eu harwain gan y galw. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cynnal cyn cynnal yr achosion, sydd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm.

**3.3.4** Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Plant yn mynd trwy broses ailstrwythuro lle bydd y ffocws ar Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys. Mae'r strwythur newydd yn canolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi plant i barhau i fyw gartref yn ddiogel. Bydd adnoddau ychwanegol a ddarperir ar gyfer y prosiect Trothwy Gofal yn cefnogi hyn ond bydd hyn yn cymryd amser. Y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yw'r prif reswm pam mae'r Gwasanaeth yn gorwario. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 72% (47/81) yn nifer y plant sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn dros y 3 blynedd ddiwethaf. Y gost flynyddol ar gyfartaledd ar gyfer lleoliad preswyl yw £220k.

**3.3.5** I liniaru'r gorwariant ar y lleoliadau hyn, mae'r Gwasanaeth wedi llunio cynllun gweithredu ar gyfer 2018/19 sy'n cynnwys: adolygu'r plant / y bobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ar hyn o bryd; anelu at gynyddu'r dewisiadau o leoliadau sydd ar gael ar yr Ynys; cefnogi plant i ddychwelyd adref pan fydd yn ddiogel gwneud hynny; ac adolygu'r modd y caiff cyllid ei gymeradwyo ar gyfer lleoliadau preswyl. Erbyn hyn, mae angen caniatâd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer pob lleoliad preswyl.

**3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**3.4.1** Roedd tanwariant o £88k (8.9%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd tanwariant o £15k (1.47%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant o £40k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £25k yn ystod Chwarter 1. Mae hyn oherwydd bod y pwysau cyllidebol o ddarparu llety Gwely a Brecwast ar gyfer y Digartref yn cael ei gyllido'n awr o'r Gronfa sydd wedi ei chlustnodi'n benodol ar gyfer Digartrefedd a'r gostyngiad mewn costau yn sgil swyddi gweigion.

**3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)**

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd gorwariant o £35k yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2 (2.9%). Rhagwelir i'r gwasanaeth danwario £50k (2.89%) erbyn 31 Mawrth 2019. Yn ystod Chwarter 1, rhagwelwyd y byddai gan y gwasanaeth gyllideb gytbwys.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tanwariant o ran staffio oherwydd swyddi gwag, fodd bynnag, mae costau sy'n gwrthbwyso o ran cyflenwadau a gwasanaethau.

**3.5.1.3** Disgwylir i'r adain Forwrol fod o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd ail-baentio Pier Biwmares, ble trosglwyddwyd £75k i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ddiwedd 2017/18 er mwyn cyllido'r gwaith. Yn ogystal, bydd y tanwariant rhagamcanedig o £30k a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â chostau'r gwaith ail-baentio a fydd yn cael ei wneud tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

**3.5.1.4** Rhagwelir hefyd y bydd gan yr adain Hamdden danwariant o £50k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragamcanwyd yn Chwarter 1. Mae incwm y canolfannau hamdden wedi newid oherwydd y newidiadau yn y modd y caiff TAW ar incwm ei drin. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gasglu incwm yn y canolfannau hamdden.

**3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £126k (14.96%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £45k (2.31%) ar gyfer y flwyddyn, sy'n gysylltiedig â'r Adain Gwarchod y Cyhoedd. Mae'r sefyllfa'n debyg i'r gorwariant a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 1.

**3.5.2.2** Mae'r Adain Gwarchod y Cyhoedd yn rhagweld gorwariant o £45k y gellir ei briodoli i nifer o feysydd. Disgwylir y gorwariant mwyaf sylweddol yn yr Adain Iechyd yr Amgylchedd (£40k) lle mae tangyflawni hanesyddol o ran incwm rheoli llygredd a gorwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Disgwylir gorwariant eto hefyd mewn perthynas â Safonau Masnach a Marchnadoedd oherwydd tangyflawni incwm. Fodd bynnag, mae Trwyddedu yn gwneud mwy o incwm na'r disgwyl a rhagwelir tanwariant o £26k erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.5.2.3** Rhagwelir y bydd yr Adain Gynllunio yn cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19. Disgwylir gorwariant o £17k o ran Rheoli Cynllunio erbyn diwedd y flwyddyn, fodd bynnag, bydd tanwariant o ran Gweinyddiaeth a Rheoli Cynllunio a Rheoli Adeiladu yn gwrthbwyso'r gorwariant hwn oherwydd bod y meysydd hyn yn gwneud mwy o incwm na'u targed.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £193k (5.35%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ond rhagamcenir y bydd tanwariant o £84k (1.33%) erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys effaith y gwaith cynnal a chadw y bydd angen ei wneud dros y gaeaf oherwydd mae'n rhy gynnar yn y flwyddyn i asesu hyn. Mae hyn yn welliant o £89k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £5k yn ystod Chwarter 1. Mae hyn oherwydd cynnydd sylweddol yn yr incwm mewn perthynas â Rheoli Gwaith Stryd.

**3.6.1.2** Mae yna nifer o or a thanwariannau sy'n gwrthbwyso a'r gorwariant mwyaf sylweddol yw'r swm o  £80k ar Ddylunio Gwaith Cynnal a Chadw a £50k ar y gyllideb waith. Mae'r tanwariant mwyaf i'w weld yn yr Adain Gwaith Stryd, ble rhagwelir tanwariant o £ 200k.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £30k (0.84%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y chwarter hwn a rhagwelir gorwariant o £3k (0.04%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant o £17k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £20k yn Chwarter 1. Nid yw hyn yn cynnwys effaith y Safle Cynhyrchu Trydan a allai newid y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.  Mae hyn oherwydd bod y Peiriant Cynhyrchu yn cael ei ddisodli gan ddau beiriant llai. Ni fydd effaith hyn yn hysbys hyd hanner olaf y flwyddyn.

**3.6.2.2** Rhagwelir tanwariant o £40k ar gyfer Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn. Mae hyn yn welliant o £30k o gymharu â'r tanwariant rhagamcanedig o £10k yn ystod Chwarter 1. Roedd hyn oherwydd incwm uwch a thanwariannau ar eiddo, cludiant a chostau cyflenwadau a gwasanaethau. Rhagwelir y bydd tanwariant o £40k yn yr adain Gwaredu Gwastraff oherwydd  y lefelau ailgylchu uchel ac mae deunydd y gellir ei ailgylchu yn rhatach i'w waredu. Ynys Môn sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru o ran ailgylchu. Disgwylir gorwariant o £40k mewn perthynas â Thoiledau Cyhoeddus a hynny oherwydd y risg na fydd y targed arbedion yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn uwch na'r £20k a ragamcanwyd ar gyfer Toiledau Cyheddus yn Chwarter 1. Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yn yr adain Casglu Gwastraff, a rhagwelir gorwariant o £60k am y flwyddyn. Gall y pwysau cynyddol ar y grant ailgylchu arwain at lai o gostau casglu gwastraff yn cael eu neilltuo yn erbyn y grant, a chaiff hynny effaith uniongyrchol ar y gyllideb casglu gwastraff. Disgwylir tanwariant o £17k ar Ran 2 Penhesgyn.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Roedd gorwariant o £171k yn y Gwasanaethau ar 30 Medi 2018, ond rhagwelir y bydd hyn yn gostwng i orwariant o £70k (7.72%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r gorwariant o £142k a ragamcanwyd ar gyfer Chwarter 1.

**3.6.3.2** Amcangyfrifir y bydd gorwariant o £63k ar drwsio a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor. Rhagwelir y bydd gorwariant o £25k yn y Gwasanaeth Glanhau a hynny mewn perthynas â glanhau ysgolion cynradd. Mae hyn yn welliant o £51k o gymharu â'r gorwariant o £76k  oherwydd mae'n tybio  y bydd rhywfaint o gyllid ychwanegol ar gael gan y Gwasanaeth Dysgu a chyllid corfforaethol ar gyfer costau pensiwn. Golyga hyn y bydd rhai o'r costau hyn yn cael eu symud i bennawd arall ac y byddant yn parhau i gael effaith ar y gyllideb.  Bydd y gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i nodi meysydd ble gellir gostwng gwariant er mwyn lleihau'r gorwariant.  Bydd y Gwasanaeth Eiddo yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu mewn perthynas â chyllidebau sy'n gysylltiedig â Chostau Glanhau Ysgolion.

**3.7 Trawsnewid**

**3.7.1** Roedd gorwariant o £168k (7.5%) yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd y cyfanswm y gorwariant yn Trawsnewid yn £128k (2.82%) oherwydd gorwariant yn yr Adain TGCh. Mae hyn yn welliant o £110k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £238k yn Chwarter 1.

**3.7.1.1** Amcangyfrifir y bydd gorwariant o £247k yn yr Adain TGCh. Mae'r holl gyllidebau ar gyfer meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio rhai'r ysgolion, wedi'u canoli ac yn cael eu rheoli bellach o fewn yr Adain TGCh. Credir nad yw'r cyllidebau meddalwedd yn ddigonol yn hanesyddol ond, unwaith y bydd y broses o'u canoli wedi ei sefydlu'n llawn, disgwylir gostyngiad yn y costau hyn. Rhagwelir gorwariant o £177k ar feddalwedd, sy'n llai na'r gorwariant rhagamcanedig o £257k yn Chwarter 1. Mae'r swyddogaeth yn parhau i ragamcan gorwariant o £70k ar Cysylltu Môn oherwydd bod llai o safleoedd yn defnyddio'r gwasanaeth gyda hynny'n cynhyrchu llai o incwm. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddadansoddi costau gwirioneddol caledwedd a meddalwedd ac a oes arian yn y gyllideb ar eu cyfer. Gall hyn arwain at gyllidebau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo o'r Gwasanaethau i TGCh neu gostau'n cael eu trosglwyddo'n ôl i'r gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn newid yr effaith gyffredinol ar y rhagamcan ar gyfer y Cyngor.

**3.7.1.2** Mae'r swyddogaeth AD yn rhagweld tanwariant o £8k ar gyfer y flwyddyn, yn bennaf ar gostau staffio.

**3.7.1.3** Rhagwelir y bydd yr adain Trawsnewid Corfforaethol â thanwariant o £111k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd tanwariant ar gyllidebau staffio. Mae hyn £22k yn uwch na'r tanwariant rhagamcanedig o £89k yn Chwarter 1. Mae swyddi gweigion yn yr adain ac mae wrthi'n adolygu ei strwythur ar hyn o bryd.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £85k (5.34%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £19k (0.67%) yn y swyddogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant o £48k o gymharu â'r gorwariant o £29k a ragamcanwyd yn Chwarter 1.

**3.8.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £75k yn y gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gorwariant o £53k a ragamcenir ar feddalwedd a chostau gweinyddol. Mae'r Adain Archwilio yn rhagamcan tanwariant o £28k oherwydd nifer o swyddi gwag sydd bellach wedi cael eu llenwi. Rhagwelir gorwariant o £9k yn yr Adain Gyfrifeg erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £31k o gymharu â'r £40k a ragamcanwyd yn Chwarter 1 oherwydd ad-daliad cerdyn credyd. Y gost fwyaf yn yr Adain Gyfrifeg yw taliadau banc a fydd, fe dybir, yn gorwario gan £25k. Mae costau ymgynghorwyr Civica hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb – rhagwelir gorwariant o £16k. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £75k yn yr adain Caffael, yn bennaf oherwydd arbedion o gyllidebau canolog.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £36k (4.83%) yn y swyddogaeth ar 30 Medi 2018 a disgwylir y bydd tanwariant o £6k (0.39%) ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £181k yn ystod 2017/18 ac yn welliant o £34k o gymharu â'r gorwariant rhagamcanedig o £28k yn ystod Chwarter 1.

**3.9.2** Gellir priodoli'r gorwariant mwyaf sylweddol ym Musnes y Cyngor i'r Gwasanaethau Cyfreithiol, ble rhagwelir gorwariant o £17k. Disgwylir gorwariant o £26k ar Wasanaethau Cyfreithiol ar gostau asiantaeth; bydd y costau hyn yn cael eu gwrthbwyso gan y gwarged o £26k mewn perthynas ag incwm pridiannau tir. Mae gorwariant o £8k ar y swydd Undeb Llafur nad oes cyllideb ar ei chyfer a gorwariant bychan ar Wybodaeth Gorfforaethol a Chwynion. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £23k yn y Gwasanaethau Democrataidd, sy'n welliant o £22k ers Chwarter 1. Mae hyn oherwydd incwm a gafwyd o'r setliad terfynol ar gyfer Etholiad 2017.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd tanwariant o £316k (17.38%) yn y swyddogaeth hon yn ystod y cyfnod. Rhagamcenir tanwariant o £137k (4%) ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagamcanwyd tanwariant o £144k yn ystod Chwarter 1.

**3.10.2** Y ddau brif beth sy'n rhoi pwysau ar gyllideb y swyddogaeth yw costau cwnsela staff y disgwylir gorwariant o £26k yn ei gylch a ffioedd crwner sy'n £33k. Fodd bynnag, mae tanwariant mewn nifer o feysydd. Mae tanwariant hanesyddol o £56k ar yr addasiad ar gyfer pensiynau. Mae tanwariant o £55k hefyd ar y cyfraniadau pensiwn i Wynedd. Rhagamcenir tanwariant o £67k hefyd oherwydd ad-dalu costau pensiwn i'r CRT.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd gorwariant o £7k (2.01%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y Chwarter hwn. Disgwylir gorwariant o £14k ar Reolaeth Gorfforaethol. Yn ystod Chwarter 1, rhagwelwyd cyllideb gytbwys.

**3.12 Amcangyfrif o effaith Costau Gwasanaeth sydd y tu allan i Reolaeth Penaethiaid Gwasanaeth**

**3.12.1** Bob blwyddyn, ceir costau sydd y tu hwnt i reolaeth Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r costau hyn yn dueddol o gynnwys: darpariaethau dyledwyr drwg o ran mân-ddyledwyr nad oes cyllideb ar eu cyfer, costau yswiriant a chostau cyfalaf pensiynau. Rhagamcenir gorwariant o £200k ar y costau hyn na ellir eu rheoli. Nid yw'r costau hyn wedi'u dangos yn erbyn y gwasanaethau unigol gan mai dim ond y costau sydd o fewn rheolaeth y Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cael eu hadrodd arnynt yn erbyn llinellau gwasanaeth unigol.

**4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Disgwylir i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, fod â thanwariant o £412k (2.37%) ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £84k mewn perthynas â Budd-daliadau a Roddwyd. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £92k ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gorwariant o £12k ar Daliadau Tai Dewisol. Mae gwarged oddeutu £4k ar Or-daliadau Budd-daliadau Tai. Rhagamcenir tanwariant o £331k hefyd ar gostau cyllido cyfalaf oherwydd arbedion a wneir yn sgil benthyca'n fewnol, gohirio ail-ariannu benthyciadau a dewis yr opsiynau benthyca isaf sy'n cydymffurfio â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19.

**4.2** Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol o ran cyllidebau wrth gefn ar ddiwedd y chwarter hwn. Cymeradwywyd cyllideb wrth gefn a oedd werth cyfanswm £1.789m fel rhan o gyllideb 2018/19. Mae £557k net wedi cael ei drosglwyddo i / o wasanaethau i gyllido prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae £1.267m wedi'i ymrwymo o'r arian wrth gefn ac mae £35k yn weddill. Mae pwysau cynyddol ar y gronfa wrth gefn ar gyfer tâl a graddfeydd oherwydd nifer y diswyddiadau, ac mae'r diffyg eisoes yn £276k. Gofynnir am i'r diffyg cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn tâl cyfartal ar gyfer hyn ynghyd ag unrhyw gostau diswyddo pellach ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2017. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor yn rhagori ar ei ffigwr targed gan £101k. Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £247k yn uwch na'r targed a osodwyd. Yn gyffredinol, felly, rhagwelir y bydd gwarged o £348k ar gasglu'r Dreth Gyngor, sef gwelliant o £50k o gymharu â'r gwarged rhagamcanedig o £298k yn ystod Chwarter 1.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2018/19

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.522m o gyllidebau'r gwasanaeth ar gyfer 2018/19. Rhagwelir y bydd gwerth £2.255m o arbedion wedi cael eu cyflawni, neu y byddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, efallai na fydd modd cyflawni £267k. Disgwylir y bydd y diffyg mwyaf o safbwynt arbedion i'w weld yn y Gwasanaeth Dysgu a fydd, fe ragwelir, £89k yn fyr o'r targed oherwydd ail-dendro contractau a'r clwb gofal bore a'r Gwasanaethau Oedolion a fydd £130k yn fyr oherwydd y galw ar y gwasanaeth. Gwelir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 ac fe neilltuwyd £983k i brosiectau unigol. Y balans agoriadol gweddilliol ar 1 Ebrill 2018 oedd £652k. Hyd yma, mae £155k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r dyraniad hwn yn ystod 2018/19. Gwnaed cynnydd amrywiol ar yr holl brosiectau ac mae rhai'n agosach at gael eu cwblhau nag eraill. Ceir manylion llawn am y gwariant a'r cynnydd ar bob prosiect yn Atodiad CH. Yn achos prosiectau nad ydynt wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2019/20 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Staff Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £506k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, cafodd y rhain eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio am eu bod yn gysylltiedig â swyddig gweigion, roedd £336k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant tra mae'r gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £109k ar asiantiaid safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn ar gael yn Atodiad DD.

**8.2** Yn ystod Chwarter 1, gwariwyd £674k ar ymgynghorwyr a chafodd £513k o'r swm hwn ei gyllido'n allanol drwy grantiau neu gyfraniadau. Mae nifer o resymau dros ddefnyddio ymgynghorwyr, felly, mae crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth a manylion ychwanegol am y gwariant ar gael yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Rhagwelir gorwariant o £2.660m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae £3.561m o’r gorwariant rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 i’w briodoli i gyllidebau’r gwasanaeth, sydd wedi eu gwneud i fyny o nifer o or a thanwariannau. Mae’r Gwasanaethau sy’n parhau i wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau’n debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae’r Gwasanaeth Oedolion hefyd dan pwysau oherwydd galw cynyddol. Mae’r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o’r problemau ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaidd erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £0.553m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a disgwylir i’r Dreth Gyngor, sy’n cynnwys y Premiwm Dreth Gyngor, gasglu gwarged o £0.348m. Bydd hynny’n gostwng cyfanswm y gorwariant i £2.660m. Mae lefel ragamcanedig y gorwariant yn 2.03% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol os bydd yn digwydd mewn gwirionedd.

**9.2** Er y gellir cyllido’r lefel hon o orwariant o’r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2018/19, bydd yn erydu’r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i lefel sydd ymhell islaw’r isafswm derbyniol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb am 2019/20, bydd angen cyllido’r gorwariant a chychwyn y broses o geisio rhoi arian yn ôl yn y balansau cyffredinol. Dyma ymagwedd ddarbodus sy’n angenrheidiol i warchod hyfywedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**9.3** Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Fodd bynnag, gyda chraffu rheolaidd yr UDA ac os bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau i unioni’r sefyllfa, bydd hynny o gymorth i wasanaethau rheoli’r cyllidebau hynny y mae ganddynt reolaeth drostynt.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagamcanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 – Chwarter 2

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch2 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2018/19 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Ch2 Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor / (Tan)wariant | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 | Gor/(tan)wariant drafft llynedd 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **DYSGU GYDOL OES** | | | | | | | | | |
| Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig | 43,129 | 22,377 | 22,377 | 0 | 0.00% | 43,129 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog | 4,263 | 1,241 | 1,547 | 307 | 24.07% | 4,890 | 627 | 14.71% | 893 |
| Diwylliant | 1,305 | 853 | 791 | (61) | -7.20% | 1,192 | (113) | -8.66% | (147) |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | 24,602 | 11,931 | 12,750 | 820 | 6.87% | 25,468 | 866 | 3.52% | 215 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | 8,317 | 4,555 | 5,772 | 1,217 | 26.71% | 10,349 | 2,032 | 24.43% | 1,778 |
| **TAI** | 1,021 | 994 | 905 | (88) | -8.90% | 1,006 | (15) | -1.47% | 7 |
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,302 | 3,613 | 3,806 | 193 | 5.35% | 6,218 | (84) | -1.33% | (100) |
| EIddo | 907 | 479 | 650 | 171 | 135.62% | 977 | 70 | 7.72% | 55 |
| Gwastraff | 7,490 | 3,537 | 3,507 | (30) | -0.84% | 7,493 | 3 | 0.04% | (63) |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,733 | 1,197 | 1,231 | 35 | 3.90% | 1,683 | (50) | -2.89% | (10) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,948 | 840 | 715 | (126) | -14.96% | 1,993 | 46 | 2.31% | 9 |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,235 | 685 | 685 | 0 | -0.05% | 1,227 | (8) | -0.65% | (61) |
| TGCh | 2,354 | 1,226 | 1,443 | 217 | 17.71% | 2,601 | 247 | 10.49% | 45 |
| Trawsnewidd Corfforaethol | 825 | 325 | 276 | (49) | -15.14% | 714 | (111) | -13.45% | (158) |
| **ADNODDAU** | 2,839 | 1,587 | 1,503 | (85) | -5.34% | 2,820 | (19) | -0.67% | (3) |
| **BUSNES Y CYNGOR** | 1,528 | 747 | 710 | (36) | -4.83% | 1,522 | (6) | -0.39% | 181 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch2 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 2018/19 Amrywiant | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Ch2 Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor / (Tan)wariant | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 | Gor/(tan)wariant drafft llynedd 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **COSTAU CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD** | 3,430 | 1,816 | 1,500 | (316) | -17.38% | 3,293 | (137) | -3.99% | (103) |
| **RHEOLAETH CORFFORAETHOL** | 657 | 328 | 335 | 7 | 2.01% | 671 | 14 | 2.13% | (81) |
| **AMCANGYFRIF O EFFAITH COSTAU NA ELLIR EU RHEOLI** | | | | | | 200 | 200 | | 159 |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU GWASANAETH** | **113,884** | **58,330** | **60,505** | **2,174** | **3.73%** | **117,445** | **3,561** | **3.13%** | **2,616** |
| Ardollau | 3,360 | 3,360 | 3,361 | 1 | 0.02% | 3,360 | 0 | 0.00% | (2) |
| Rhyddhad Dewisol Trethi | 60 | 0 | 0 | 0 | 0% | 63 | 3 | 5.00% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,511 | 0 | (23) | (23) | 0.00% | 7,050 | (461) | -6.14% | (494) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,232 | 1,232 | 1,267 | 35 | 2.88% | 1,232 | 0 | 0.00% | 106 |
| Cyfraniad gwasanaethau Cefnogol CRT | (693) | 0 | 0 | 0 | | (693) | 0 | 0.00% | **(82)** |
| Budd-daliadau a roddwyd | 5,546 | 700 | 815 | 115 | 16.44% | 5,451 | (95) | -1.71% | (849) |
| **CYFANSWM CYLLID CORFFORAETHOL** | **17,016** | **5,292** | **5,420** | **128** | **2.42%** | **16,463** | **(553)** | **-3.25%** | **(1,276)** |
| **CYFANSWM 2018/19** | **130,900** | **63,622** | **65,924** | **2,302** | **3.62%** | **133,908** | **3,008** | **2.30%** | **1,340** |
| **CYLLIDO** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (12,155) | (12,155) | 0 | 0.00% | (22,574) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (34,541) | (101) | 0.29% | 116 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (895) | (247) | 38.02% | 0 |
| Grant Cynnal Refeniw | (73,238) | (39,436) | (39,436) | 0 | 0.00% | (73,238) | 0 | 0.00% | 0 |
| **CYFANSWM CYLLID 2018/19** | **(130,900)** | **(51,591)** | **(51,591)** | **0** | **0.00%** | **(131,198)** | **(348)** | **0.00%** | **-72** |
| **CYFANSWM YR ALLDRO GAN GYNNWYS EFFAITH Y CYLLID** | **0** | **12,031** | **14,333** | **2,302** | **19.13%** | **2,660** | **2,660** | **2.03%** | **1,456** |

**Crynodeb o'r sefyllfa ariannol ar gyllidebau wrth gefn 2018/19 fel yn Chwarter 2**

| | Y Gyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Y Gyllideb Ddiwygiedig £ | Ymrwymiad hyd yma (31/09/18) £ | Cyfredol heb ei ymrwymo £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | 359,166 | 14,580 | 363,746 | 123,850 | 239,896 |
| Cyflog a Graddio | 300,000 | (442,650) | (142,650) | 132,720 | (275,370) |
| Trothwy Gofal | 240,000 | - | 240,000 | (240,000) | - |
| Cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi | 739,890 | (119,000) | 620,890 | (620,890) | - |
| Chwyddiant Cyflogau | 150,000 | - | 150,000 | (150,000) | - |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn (Cyffredinol ac Eraill)** | 1,789,056 | (557,070) | 1,231,986 | (1,267,460) | 35,474 |

**APPENDIX CH**

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwyir £ | Swm a ddyrannwyd (cyfanswm – nid Blwyddyn 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad ar gyfer 2018/19 £ | Gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb sy'n weddill 2018/19 £ | Diweddariad am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | System rheoli dogfennau electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Darparu datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 127,856 | 42,144 | 42,144 | 37,713 | 11,304 | Mae'r system wedi mynd yn fyw ers 1 Awst ar gyfer sganio ac adfer ynghyd â llif gwaith. Nid yw'r prosesau awtomatig yn gweithio'n iawn eto ac mae angen rhoi sylw i hyn. |
| **T.G.** | Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cwblhawyd y prosiect yn 2017/18. Roedd gorwariant o £4.5k ar y prosiect a gyllidwyd o refeniw. |
| **T.G. / Trawsnewid** | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 255,000 | 33,597 | 221,276 | 211,678 | 63,820 | 147,858 | Mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda ac mae'r dechnoleg graidd yn ei lle. |
| **T.G. / Adnoddau** | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn galluogi taliadau i gael eu derbyn drwy'r Ap | 27,000 | 27,000 | 6,000 | 21,000 | 21,000 | 5,225 | 15,775 | Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd yr holl gyllid wedi cael ei wario erbyn diwedd y Flwyddyn Ariannol, ar yr amod na fydd unrhyw lithriad yn y prosiect, yn arbennig yr elfen Rheoli Adeiladu a fydd yn cychwyn ar 26/11/2018. |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | Gwella Gwydnwch y Systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomataidd newydd | 118,000 | 118,000 | 40,464 | 77,536 | 77,536 | 17,408 | 60,128 | Bydd yr holl gyllid yn cael ei ddefnyddio yn 2018/19 i gyllido'r swydd. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwyir £ | Swm a ddyrannwyd (cyfanswm – nid Blwyddyn 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad ar gyfer 2018/19 £ | Gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb sy'n weddill 2018/19 £ | Diweddariad am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | Gwella systemau casglu incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu â'r ffrydiau incwm presennol ac sy'n caniatáu dulliau newydd o gasglu incwm | 150,000 | 150,000 | 59,078 | 90,922 | 90,922 | 13,745 | 77,177 | Mae gwaith yn parhau ar y cysoniad awtomatig gyda'r banc, dychweliadau electronig, taliadau amrywiol wedi eu cysylltu â'r porth taliadau a pheiriannau 'chip and pin' sy'n cydymffurfio'n llwyr â PSI DSS. |
| **Dysgu Gydol Oes** | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformio | Gweithredu modiwlau sydd heb eu defnyddio yn y system gwybodaeth ONE Management | 72,000 | 72,000 | 52,529 | 19,471 | 19,471 | 17,520 | 8,920 | Mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda a rhagwelir y bydd wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2019. Bydd unrhyw orwariant yn cael ei gyllido o gyllideb Buddsoddi i Arbed yr Oriel. |
| **Dysgu Gydol Oes** | Moderneiddio busnes | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | Mae'r gwaith wedi ei gysylltu i'r prosiect ehangach ar y wefan gorfforaethol. Disgwylir i ddefnydd llawn gael ei wneud ohoni yn 2018/19. |
| **T.G. / Trawsnewid** | Digidol yn gyntaf/digidol yn ddiofyn | Cyflogi Swyddog Arweiniol Digidol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 120,000 | 0 | 120,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | Dim gwariant hyd yma oherwydd mae'r broses o recriwtio Arweinydd Digidol wedi cael ei gohirio hyd oni fydd y System Rheoli Cynnwys y We yn weithredol er mwyn alinio'r holl Lwyfannau Digidol a chael y gorau o'r 2 flynedd o gyllid ar gyfer y swyddi dros dro. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwyir £ | Swm a ddyrannwyd (cyfanswm – nid Blwyddyn 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad ar gyfer 2018/19 £ | Gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb sy'n weddill 2018/19 £ | Diweddariad am y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | Cysylltedd digidol gwell o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system ar sail cwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan ac mae wedi'i gaffael drwy gyfrwng cytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 Cyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 mlynedd | 45,000 | 0 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Datgelwyd prawf meddal cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y Gwanwyn eleni na allai unrhyw un o'r darparwyr meddalwedd cyfredol gwrdd â'n manyleb defnyddwyr a darparu datrysiad newydd ar gyfer y swyddfa gefn ac/neu ddatrysiad symudol. Ymhellach, ni fyddai'r gronfa I2S yn cyllido costau cychwynnol y drwydded a'r ffi gynnal a chadw flynyddol. Gwnaed penderfyniad gan y Bwrdd Prosiect i gyflwyno Achos Busnes newydd a fyddai'n ymchwilio i fanteision tapio i mewn i'r system CRM Gorfforaethol a gwerthuso'r opsiynau i gaffael datrysiad symudol y gellid ei ychwanegu at y system honno. Bydd yr Achos Busnes yn amlinellu costau'r prosiect a'r nod yw defnyddio rhywfaint o'r gronfa I2S cyn diwedd y flwyddyn ariannol year. |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **334,785** | **652,349** | **205,393** | **155,431** | **49,962** | |

## Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2018/19

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19<br><br>£'000 | Cyraeddadwy 2018/19<br><br>£'000 | Posibilrwydd o beidio â bod yn gyraeddadwy 2018/19<br><br>£'000 | Ni chyflawnir hyn o gwbl<br><br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | 358 | 269 | 89 | 0 | Mae'n debyg y bydd y cynnig arbedion ar gyfer gostwng costau rheoli gwersi cerdd yn cyflawni £55k o'r arbediad arfaethedig o £79k, oherwydd disgwylir i'r arbediad gael ei wneud o fis Medi ymlaen. Ni fu modd i'r gwasanaeth ail-dendro'r contractau torri gwair ar gyfer ysgolion tan yn hwyrach na'r disgwyliad, gan arwain at ddisgwyliad y byddai diffyg yn yr arbedion. Mae'r contract allan i dendr ar hyn o bryd a'r dyddiad cau yw dechrau mis Tachwedd 2018. Casglwyd llawer llai o incwm na'r disgwyl mewn perthynas â'r clwb gofal bore yn 2017/18 ac, er bydd yr incwm a gesglir yn ystod chwarter cyntaf 2018/19 efallai'n uwch nag yr oedd yn chwarter cyntaf 2017/18, mae dal yn debygol o fod yn sylweddol is na'r gyllideb. Ysgolion sy'n gyfrifol am gasglu'r incwm hwn ac, yn 2017/18, trafododd y fforwm ysgolion y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb hon. Penderfynodd y fforwm beidio â dirprwyo'r cyllideb am y tro a rhoi i ysgolion gyfnod o flwyddyn i gynyddu'r incwm a gesglir. Oni bai bydd y sefyllfa hon yn gwella yn 2018/19, bydd y gwasanaeth unwaith eto'n trafod y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb fel anogaeth i ysgolion gasglu cymaint o incwm ag sy'n bosibl. |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | 125 | 120 | 5 | 0 | Ni fu modd i'r Awdurdod allanoli'r Caffi, felly, bydd yn symud tuag at wasanaeth peiriannau gwerthu yn unig. Mae'n annhebygol y bydd incwm net o £5k yn cael ei gasglu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd angen monitro'r incwm a gesglir yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf er mwyn gweld a fydd modd gwneud yr arbediad yn y blynyddoedd nesaf. |
| **Priffyrdd, Gwasraff ac Eiddo** | 366 | 336 | 30 | 0 | Mae gorwariant wedi codi yn y ganolfan gost ar gyfer Toiledau Cyhoeddus oherwydd ni fu modd i'r Gwasanaeth gyrraedd ei darged arbedion oherwydd ei fod yn disgwyl am benderfyniad pwyllgor ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol. Fel y cytuwnud, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn ceisio trosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg Toiledau Cyhoeddus i'r trydydd sector am y tair blynedd ddiwethaf ac, er trosglwyddwyd rhai, ychydig iawn o ddiddordeb a ddangoswyd yn y lleill ac mae rhai a oedd wedi cael eu trosglwyddo wedi cael eu dychwelyd yn ôl i ofal yr Awdurdod. Mae'r Adain Eiddo yn parhau i geisio hwyluso'r broses o allanoli'r Toiledau Cyhoeddus. |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19<br><br>£'000 | Cyraeddadwy 2018/19<br><br>£'000 | Posibilrwydd o beidio â bod yn gyraeddadwy 2018/19<br>£'000 | Ni chyflawnir hyn o gwbl<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Oedolion** | 350 | 220 | 130 | 0 | Mae'r model Gofal Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth a chyda ffocws mwy ar eu hasedau'n parhau i gael ei weithredu drwy'r timau gwaith cymdeithasol. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Ch2 yn nodi bod pwysau o ran y galw am y gwasanaeth yn golygu nad yw'r ymdrechion i ostwng y costau cyffredinol yn gwbl llwyddiannus. Felly, mae'n bosibl na fydd £130k yn cael ei gyflawni ac mae hynny'n cynnwys cynigion gwerth £92k, a fydd yn galluogi cleientiaid i gael cymorth yn eu cartrefi eu hunain neu mewn darpariaeth gofal ychwanegol yn hytrach na gorfod mynd i ofal preswyl, a £38k, drwy hyrwyddo mwy o rwydweithiau cymorth cymunedol a phersonol i alluogi pobl i aros yn annibynnol. Er gwaethaf oedi gydag agor Hafan Cefni, sydd bellach wedi bod ar agor ers dechrau mis Hydref, mae'r ffocws a roddwyd ar sicrhau mai'r bobl hynny a fyddai fel arall fod wedi bod angen lleoliad neu ofal sy'n cael eu derbyn ar gyfer y fflatiau, yn golygu bod y gwasanaeth yn parhau i gredu y bydd modd gwneud yr arbedion. Ar hyn o bryd, mae 19 o fflatiau gwag yno ond rydym yn gweithio i sicrhau bod unigolion priodol yn symud i mewn iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl. |
| **Tai** | 23 | 19 | 4 | 0 | Mae'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y gwaith mewn perthynas â chynyddu'r ffi ar gyfer gwaith EPC wedi cyflwyno cais am ddiswyddiad gwirfoddol, felly, mae'n anodd iawn cadarnhau a fydd modd sicrhau'r arbediad hwn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi lliniaru'r diffyg hwn drwy sicrhau mwy o arbedion na'r disgwyl o safbwynt codi ffioedd rheoli ynghylch grantiau gyda gweithgareddau statudol. |
| **Trawsnewid** | 40 | 31 | 9 | 0 | Yn dilyn Sioe Môn, mae gorwariant yn awr o £3k, sy'n golygu ei bod yn annebygol y bydd yr arbediad o £2k mewn perthynas â phresenoldeb yn y sioe yn debygol o gael ei wireddu. Nid oes unrhyw incwm wedi cael ei greu hyd yma drwy werthu gofod hysbysebu ar wefan y Cyngor ac ymddengys ei fod yn annhebygol o ddigwydd eleni. Nid oes unrhyw incwm ychwaith wedi cael ei gynhyrchu drwy waith ymgynghoriaeth allanol ac mae'n annhebygol y bydd yn digwydd eleni. Bydd angen chwilio am arbedion mewn rhannau eraill o gyllideb y gwasanaeth. |
| **Busnes y Cyngor** | 1,236 | 1,236 | 0 | 0 | Mae cyllidebau perthnasol wedi cael eu dileu ac mae gwariant ar hyn o bryd o fewn y gyllideb ac mae'r gwasanaeth ar darged i sicrhau'r arbedion. Mae'r arbedion y bwriedir eu sicrhau o ganlyniad i'r adolygiad o'r polisi MRP yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl ymgynghorwyr. |
| **Adnoddau** | 24 | 24 | 0 | 0 | Mae cyllideb wedi cael ei ddileu ac, yn gyffredinol, mae cyllidebau'n tanwario. |
| **Cyfanswm** | **2,522** | **2,255** | **267** | **0** | |

**ATODIAD DD**

**COSTAU ASIANTAETH – EBRILL I MEDI 2018**

| Gwasanaeth | £ | Cyllidwyd o | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| **Gwastraff** | 5,966.62 | Cyllideb graidd benodol | Swyddi gwag staff - wedi dod i ben |
| | 350.75 | Cyllideb graidd benodol | Swyddi gwag staff - wedi dod i ben |
| | 2,334.62 | Cyllideb graidd benodol | Staff Vacancy - Employment Ceased |
| | 662.12 | Cyllideb graidd benodol | Gwaith Penodol – unwaith ac am byth |
| | 18,343.75 | Cyllideb graidd benodol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r matrics adnoddau dynol |
| | 19,635.87 | Cyllideb Graidd Benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r matrics adnoddau dynol |
| | 7,214.46 | Cyllideb Graidd Benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r matrics adnoddau dynol |
| | 54,644.82 | Cyllideb Graidd Benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r matrics adnoddau dynol |
| | **109,153.01** | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 27,080.61 | Cyllideb graidd, cyllideb staff nas defnyddir a chronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |
| | 93,853.19 | Cyllideb graidd, cyllideb staff nas defnyddir a chronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |

| Gwasanaeth | £ | Cyllidwyd o | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| | 3,375.00 | Cyllideb graidd, cyllideb staff nas defnyddir a chronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |
| | 23,620.85 | Cyllideb graidd, cyllideb staff nas defnyddir a chronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |
| | 1,020.00 | Cyllideb graidd, cyllideb staff nas defnyddir a chronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |
| | 186,859.94 | Cyllideb graidd, cyllideb staff nas defnyddir a chronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |
| | **335,809.59** | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 20,008.68 | Cyllideb Graidd | Talu am swyddi gwag |
| | 31,473.00 | Cyllideb Graidd | Talu am swyddi gwag |
| | 750.00 | Cyllidwyd a Grant | Gweithio ar brosiect penodol |
| | 2,762.50 | Cyllidwyd a Grant | Gweithio ar brosiect penodol |
| | **57,994.18** | | |
| **Trawsnewid** | 761.10 | Cyllideb Staff | Dim modd llenwi swydd wag |
| | **761.10** | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | **2,227.78** | Cyllideb Graidd (tanwariant blaenorol) | Cyflawni gofynion arolygu hylendid bwyd |
| | **2,227.78** | | |
| **Cyfanswm** | **505,945.66** | | |

**ATODIAD E**

| CRYNODEB O WARIANT YMGYNGHORI FESUL ADRAN | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ch 1** | **Ch 2** | **Cyfanswm** |
| Addysg Canolog | 8,133 | 16,111 | 24,244 |
| Ysgolion | 0 | 490 | 490 |
| Diwylliant | 6,070 | 2,686 | 8,756 |
| Economaidd ac Adfywio | 286,501 | 534,864 | 821,365 |
| Eiddo | 640 | 0 | 640 |
| Priffyrdd | 20,289 | 6,263 | 26,552 |
| Gwastraff | 7,911 | 23,819 | 31,730 |
| Tai | 0 | 14,303 | 14,303 |
| CRT | 9,215 | 7,440 | 16,655 |
| Gwasananethau Oedolion | 3,400 | 2,450 | 5,850 |
| Gwasananethau Plant | 0 | 19,032 | 19,032 |
| Trawsnewid | 2,136 | 18,360 | 20,496 |
| Busnes y Cyngor | 10,711 | 19,129 | 29,840 |
| Adnoddau | 45,911 | 9,459 | 55,370 |
| **CYFANSWM** | **400,917** | **674,406** | **1,075,323** |

Rhoddir dadansoddiad manylach o hyn isod.

**Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 2 2018/19**

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| Addysg Canolog | 2,339 | | | ✓ | Grant | Cyfran y Costau Rhanbarthol |
| | 11,900 | ✓ | | ✓ | Craidd | Ffioedd Proffesiynol fel Swyddog Addysg |
| | 910 | | | ✓ | Craidd | Cefnogaeth ar gyfer drafftio adroddiadau cau ysgolion |
| | 963 | | | ✓ | Grant | Gwaith Addysgol yn ystod tymor yr haf |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **16,111** | | | | | |
| Diwylliant | 1,050 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn Canolog | Adolygu dogfennau ynglŷn ag hawliad am gostau adfeiliad Ynys Lawd |
| | 352 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau arlunio byw |
| | 80 | ✓ | | | Craidd | Cynorthwyydd Criw Celf |
| | 750 | ✓ | | | Craidd | Gweithdy Criw Cefl |
| | 454 | ✓ | | | Craidd | Dadansoddiad ac adolygiad demograffig |
| **Cyfanswm Diwylliant** | **2,686** | | | | | |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | 9,625 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Galw am sgiliau a’r cyflenwad o lafur lleol |
| | 18,768 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol – Prosiect Wylfa Newydd |
| | 2,454 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategol – cymorth tirwedd TCPA |
| | 15,378 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategol – gorchymyn caniatâd datblygu cymorth tirwedd |
| | 44,653 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Asesiadau effaith gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 80,507 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol - gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 1,455 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth QGIS GIS CSYM |
| | 15,866 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Gwaith Monitro curadurol |
| | 2,260 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Gwaith brys economaidd-cymdeithasol |
| | 53,140 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | SPC prosiect Wylfa Newydd a TCPAS A5025 |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 3,682 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth ecolegol CSYM – cyfarfodydd CRT |
| | 11,823 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Partneriaeth Gogledd Môn |
| | 16,301 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Asesiad effaith iaith Gymraeg a diwyllliant – Wylfa Newydd |
| | 7,200 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Arolwg Llety CSYM – datblygiadau mawr |
| | 321 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Dogfennau cais cynllunio SP & C o safbwynt economaidd-cymdeithasol |
| | 7,040 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Asesiad effaith cyflogaeth a sgiliau – Wylfa Newydd |
| | 7,196 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth gorchymyn caniatâd datblygu – SPC CRT |
| | 1,586 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth gorchymyn caniatâd datblygu – adolygiad pensaernïol CWA |
| | 615 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth gorchymyn caniatâd datblygu – adroddiad ynni carbon |
| | 945 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategol – cymorth SPC TCPA |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 3,170 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Arolwg Traffig Llanddeusant |
| | 8,117 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | SPG JR |
| | 6,388 | | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth gorchymyn caniatâd datblygu Môn – cymorth gorchymyn caniatâd datblygu Pren |
| | 9,441 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategaeth – adroddiad lles drafft |
| | 1,117 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Effaith a lliniaradau economaidd-cymdeithasol ar gyfer A5025 |
| | 9,763 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Pecyn gwaith 1 |
| | 2,412 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ymgynghoriaeth – Prosiect Cysylltiad â’r Grid Cenedlaethol |
| | 34,338 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol – prosiect cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 60,870 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru CSYM |
| | 576 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Gwaith archeolegol Wylfa i Bentir |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 1,800 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Arolwg llety Môn – datblygiadau mawr |
| | 5,266 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cynllun lle Gogledd Môn |
| | 8,436 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru CSYM |
| | 1,815 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Gwasanaethau mewn perthynas ag Asesiad Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol |
| | 2,859 | ✓ | | | Arian Wrth Gefn | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 2,020 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Cyngor ar ganiatâd Penrhos ac Adran 106 |
| | 2,475 | | | ✓ | Allanol (HLF) | Partneriaeth tirlun Ynys Cybi |
| | 900 | | | ✓ | Allanol (HLF) | Ynys Cybi: Datganiad hanesyddol o arwyddocad |
| | 9,750 | | | ✓ | Allanol (HLF) | Arolwg tirlun treftadaeth a chynefin Ynys Cybi |
| | 44,785 | | | ✓ | Grant Allanol (ERDF) | Unedau 5,6 a 7 Pen yr Orsedd – Rheoli a Chynllunio |
| | 4,764 | | | ✓ | Craidd | Ymgynghoriaeth TG a rheoli prosiect |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 5,052 | | ✓ | | Craidd | Arolygiadau hylendid bwyd |
| | 833 | | | ✓ | Craidd | Casglu pysgod cregyn o'r Fenai |
| | 202 | ✓ | | | Craidd | Dadansoddiad cyflenwadu dŵr preifat |
| | 100 | | | ✓ | Craidd | Dadansoddiad o ddŵr daear / olew / pridd halogedig |
| | 1,500 | | | ✓ | Craidd | Gwaith gwerthuso'n cynorthwyo â'r opsiynau adferiad yn safle Craig y Don yn Amlwch |
| | 228 | ✓ | | | Craidd | Tiwbiau tryledfiad Chwefror 2018 – Mawrth 2019. |
| | 30 | ✓ | | | Craidd | Experian – tâl defnydd lleiaf |
| | 25 | | | ✓ | Craidd | Torri gwair stondin yn Sioe Môn |
| | 2,503 | | | ✓ | Craidd | Proses tendro yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur |
| | 600 | | | ✓ | Grant | Mentora arolygiadau chwaraeon ysgolion a gweithgareddau'r haf |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 1,000 | | | ✓ | Grant | Play Maker Award ar gyfer ysgolion Cynradd Môn |
| | 140 | | | ✓ | Grant | Hyfforddiant arweinyddiaeth chwaraeon |
| | 723 | | | ✓ | Grant | Gwasanaethau Beic Mynydd |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **534,864** | | | | | |
| Priffyrdd | 399 | | | ✓ | Craidd | Ffi PCN |
| | 5,364 | | | ✓ | Craidd | Ffioedd ynglŷn â PCNs a roddwyd |
| | 500 | | | ✓ | Grant | Hawddfraint – draen ffiltro yn Nant Heilyn, Llangoed |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **6,263** | | | | | |
| **Ysgolion** | 125 | | | ✓ | | Darparu ac archwilio cyfrifon 2016/17 |
| | 365 | | | ✓ | | Ymgynghorydd technegydd gwyddoniaeth |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **490** | | | | | |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| **Gwastraff** | 2,256 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Rheoli hysbysiad cosb benodedig ynglŷn â’r Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd |
| | 70 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Derbyniad Duos yn unig |
| | 172 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Ffi mesur ac anheddu |
| | 550 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Monitro nwyon perimedr ym Mhenhesgn – adolygu ac asesu risg |
| | 2,360 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Cymorth technegol nwy tirlenwi |
| | 2,701 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Peiriant nwy Penhesgyn – gwaith paratoi tendr |
| | 2,499 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Peiriant nwy Penhesgyn – cymorth technegol |
| | 1,039 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Prif waith tan-ddaear foltedd isel |
| | 2,150 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Cymorth technegol nwy tirlenwi |
| | 7,565 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Gwaith adfer sêl tirlenwi – Cynllun CQA a gwaith dylunio |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 600 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol / Cyfraniad Allanol Grant | Gwaith a wnaed yn IVC Penhesgyn |
| | 1,856 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol / Cyfraniad Allanol Grant | Monitro bioaerosol |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **23,819** | | | | | |
| **Tai** | 14,303 | | | ✓ | Craidd | Prosiect adolygu digartrefedd |
| **Cyfanswm Tai** | **14,303** | | | | | |
| **CRT** | 2,950 | | | ✓ | Craidd | Orchard Tai – gweithredu negeseuon a rheoli prosiect |
| | 3,495 | | | ✓ | Craidd | Hyfforddiant Rheoli Asedau Keystone |
| | 995 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaethau proffesiynol mewn cysylltiad â Craig y Don, Amlwch |
| **Cyfanswm CRT** | **7,440** | | | | | |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol** | **Maint y gwaith** | **Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth** | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 2,450 | | | ✓ | Craidd | Astudiaeth dichonoldeb arlwyo |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **2,450** | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 6,729 | | | ✓ | Craidd | Ymchwilio a datblygu cartrefi grŵp bychan |
| | 219 | | | ✓ | Craidd | Gwaith fel aelod panel |
| | 8,138 | | | ✓ | Craidd | Darparu a chyflwyno adroddiad IST |
| | 3,947 | | | ✓ | Craidd | Archwilio achosion yng ngwasanaethau plant |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **19,032** | | | | | |
| **Trawsnewid** | 651 | | | ✓ | Craidd | Cymorth pont (Mobile Iron) |
| | 11,400 | | | ✓ | Craidd | Diwrnod ymgynghori iau ar seibrsefydlu |
| | 500 | | | ✓ | Craidd | Treuliau Rheoli Prosiect – prosiect asesu gweithle fodern |
| | 3,175 | | | ✓ | Craidd | Atgyweirio a gosod cysylltiadau radio a HD |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 2,634 | ✓ | | | Grant | Asesiad gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **18,360** | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 10,224 | | ✓ | | Craidd | Gwasanaethau Proffesiynol – yn lle cofnodau mamolaeth a gwyliau |
| | 5,404 | | ✓ | ✓ | Craidd | Yn lle cofnodau salwch a gwaith ar GDPR |
| | 3,500 | | | ✓ | Craidd | Adolygu dogfennau Sgriwtini a newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **19,129** | | | | | |
| **Adnoddau** | 1,500 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaeth ymgynghori TAW |
| | 1,075 | | | ✓ | Craidd | Civica - dyddiau ymgynghori |
| | 400 | | | ✓ | Craidd | Ymgynghorydd Civica – teithio a threuliau |
| | 350 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Hyfforddiant ar Northgate AD |

| | Swm Ch 2 (£) | Categori – rheswm penodwyd | | | Ffynhonnell Cyllid (Cyllideb Craidd Penodol/Cyllideb Staffio nas defnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wneir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i dalu am set sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith penodol/ prosiect unwaith ac am byth | | |
| | 60 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Prosiect Northgate AD |
| | 5,534 | | | ✓ | Arian Wrth Gefn | Costau rheoli prosiect |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **9,459** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 – Gorffennaf i Medi** | **674,406** | | | | | |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **26 TACHWEDD 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – AIL CHWARTER 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2018/19 yn chwarter 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| | **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro’r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2018/19
Atodiad B – Crynodeb o’r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant Rhagamcanedig ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2018/19 fel y’i hargymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018;
- Adroddiad Monitro’r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2018/19 a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 17 Medi 2018;
- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 fel y’i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018,
- Adroddiad ar Alldro 2017/18 a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 18 Mehefin 2018; ac
- Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2019/20, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn ar 12 Tachwedd 2018.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad ar fonitro'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2018, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £37.017m am 2018/19 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £12.417m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol at hyn, ym mis Mehefin 2018, caniataodd y Cyngor i Lithriad Cyfalaf o £9.348m gael ei ddwyn ymlaen o 2017/18. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac yn werth £3.066m i gyd ac fe adolygwyd rhai cyllidebau hynny hynny'n arwain at ostyngiad o £0.959m. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 i £60.889m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2018/19

**2.1** Isod, mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant cyfalaf hyd at 30 Medi 2018, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2018 a'r modd y bwriedir cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn 2018/19.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffilwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant Wedi Ymrwymo | Cyfanswm Gwariant £'000 | % Cyllideb a Broffilwyd | % Cyllideb Flynyddol a Wariwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Dai Gyffredinol | 3,188 | 680 | 212 | 2 | 214 | 32 | 7 |
| CRT Tai | 15,998 | 4,743 | 3,025 | 79 | 3,103 | 65 | 19 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,177 | 1,718 | 3,042 | 32 | 3,074 | 179 | 25 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,604 | 2,339 | 1,780 | 219 | 1,999 | 85 | 30 |
| Priffyrdd | 17,533 | 3,153 | 1,170 | 162 | 1,872 | 59 | 11 |
| Rheoli Gwastraff | 31 | 29 | 29 | - | 29 | 100 | 95 |
| Eiddo | 843 | 143 | 74 | 2 | 76 | - | 9 |
| Trawsnewid | 535 | 276 | 193 | 20 | 213 | - | 40 |
| Cynllunio | 2,225 | 425 | 678 | - | 678 | 159 | 30 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,755 | 13 | 13 | 0 | 13 | 98 | 1 |
| **Cyfanswm** | **60,889** | **13,518** | **10,756** | **516** | **11,272** | **83** | **19** |
| Grant Cyfalaf | 33,411 | | | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,228 | | | | | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,064 | | | | | | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 5,999 | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 13,329 | | | | | | |
| Arian Wrth Gefn | 474 | | | | | | |
| Benthyciad | 374 | | | | | | |
| Heb ei wario o 2017/18 | 1,010 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **60,889** | | | | | | |

**2.2** Roedd 93% o'r gyllideb a broffiliwyd wedi ei wario hyd at ddiwedd yr ail chwarter, fodd bynnag, dim ond 18% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol neu bod nifer ohonynt yn awr am lithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn ers tro gyda'r mwyafrif o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi cael ei gwario, cynlluniau megis Seilwaith Strategol Llangefni, prynu pont bwyso newydd, atgyweirio adeiladau Addysg a'r Maes 3G ym Mhlas Arthur. Mae rhai Cynlluniau Cyfalaf eto i gychwyn, ond mae cyllidebau'r rheini wedi'u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys prynu tai drwy orfodaeth, Unedau Diwydiannol Caergybi a'r system CRM. Rhagwelir y bydd rhai o'r cynlluniau'n llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf heb unrhyw wariant wedi'i ragamcan ar gyfer eleni. Bydd y cyllid ar eu cyfer hefyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf – mae'r Priffyrdd Newydd at Wylfa Newydd yn enghraifft o hyn. Gweler y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2018/19 a cheir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae 65% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei wario, a dim ond 19% o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd 65% o'r gyllideb flynyddol wedi cael ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn arianno ac y bydd tanwariant sylweddol o ran prynu eiddo cyfredol a datblygu eiddo newydd. Fodd bynnag, bydd y cynllun hwn a'r cyllid ar ei gyfer yn llithro i 2019/20. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn Ch2 wedi bod yn gysylltiedig â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2017/18, h.y. ymrwymiad a oedd yn cario drosodd. Rhagwelir y bydd contractau cynnal a chadw cynlluniedig newydd a gaffaelir yn ystod Ch2 ac Ch3 yn golygu y bydd y gyllideb ar gyfer 2018/19 wedi'i hymrwymo'n llawn.

**2.4** Cafodd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, a ariennir yn benodol o'r derbyniadau cyfalaf a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti ei chwblhau yn ystod 2016/17. Fodd bynnag, roedd gwaith ar ôl i'w wneud yn 2017/18. Ar ddiwedd 2017/18, roedd diffyg o £0.078m ar y rhaglen, i'w gyllido drwy werthu un mân-ddaliad arall. Ym mis Ebrill 2018, gwerthwyd y mân-ddaliad hwnnw am £0.264m, gan olygu fod gwarged o £0.186m ar y rhaglen. Bydd gwaith cyfalaf pellach gwerth £0.186m yn cael ei wneud yn 2018/19 ac yn cael ei gyllido o'r gwarged hwn. Ar ddiwedd 2018/19, disgwylir y bydd gan y rhaglen gyllideb gytbwys. Daw hyn â'r rhaglen atgyweirio sylweddol i ben a bydd unrhyw waith dilynol yn cael ei gyllido o'r arian refeniw a fydd ar gael.

## 3. <u>CYLLIDO</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt ac isod, ceir diweddariad byr ar y cynlluniau:-

- Ffordd Gyswllt Llangefni – Parhaodd y gwaith ar Ran 3 y cynllun yn ystod chwarter 2, 2018/19. Mae cyrbinau wedi cael eu gosod a gwaith ar y rhan ganol wedi cael ei gwblhau hyd at lefel tarmac. Bwriedir cwblhau'r gwaith erbyn Ionawr 2019.

- Seilwaith Strategol Llangefni – Mae'r cynllun yn un i godi 5 (pump) o unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac ehangu'r swyddfeydd yn y Ganolfan Fusnes ar gyfer eu gosod i'r sector preifat. Cychwynnodd gwaith ar y ddau safle yn ystod rhan olaf 2017/18, parhawyd gyda'r gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y ddau safle. Gwariwyd £1.668m hyd at ddiwedd ail chwarter 2018/19, a bydd yn cael ei gyllido drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Rhagwelir y bydd yr unedau diwydiannol newydd wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2018 ac y bydd yr estyniad newydd i'r swyddfeydd yn y Ganolfan Fusnes wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2018. Mae'r cyfan o'r unedau diwydiannol, y 5 ohonynt, wedi cael eu gosod.

- Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain – Mae'r cyllid ar gyfer Ysgol Cybi a Ysgol Rhyd y Llan wedi cael ei dynnu'n llwyr o'r rhaglen ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif a bydd unrhyw waith ychwanegol ar yr ysgolion hyn, gan gynnwys talu unrhyw symiau cadw sy'n weddill, yn cael eu gyllido drwy fenthyca ac o adnoddau'r Cyngor fel rhan o gyfraniad 50% y Cyngor tuag at y prosiect. Mae gwaith wedi parhau ar yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen yn ystod y chwarter ac roedd y grant wedi cael ei dynnu'n llwyr erbyn diwedd y chwarter. Bydd unrhyw wariant ychwanegol yn cael ei ariannu gan y Cyngor fel rhan o'i gyllid cyfatebol. Bwriedir cwblhau'r gwaith ar Ysgol Brynsiencyn yn ystod chwarter 3. Roedd y rhaglen ar gyfer Band A i fod i gael ei chwblhau yn 2020, fodd bynnag, bydd yr Ysgol Newydd ar gyfer Llangefni y bwriedir ei chwblhau yn 2022 yn cael ei chadw fel rhan o raglen Band A.

- Neuadd y Farchnad - Yn dilyn cychwyn gwaith ar Ran II y contract ar y safle ar 4 Mehefin, mae'r prosiect bellach 12 mis i mewn i'r contract. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda a chynnydd sylweddol wedi cael ei wneud y tu mewn i'r adeilad. Mae'r ceisiadau am daliad wedi bod ychydig yn is nag yr oedd rhagolygon llif arian gwreiddiol y contractwr yn eu nodi ond maent yn cyflymu bob mis. Mae problem wedi codi gyda'r lifft a luniwyd yn arbennig ac mae'n bosib y bydd ei ddyluniad a'i berthynas gyda'r strwythur mesanîn newydd yn arwain at rywfaint o oedi gyda'r prosiect ac rydym yn monitro hyn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael cyn lleied o effaith â phosib. Drwy reoli'r symiau dros dro a'r arian wrth gefn ar gyfer y prosiect yn ofalus, rydym yn hyderus y gellir cwblhau'r gwaith o fewn y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y prosiect.

**3.1.2** Mae cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto neu'n sy'n disgwyl i gael eu cymeradwyo gan y cyrff cyllido. Ceir isod ddiweddariad byr ar y cynllunia hyn:-

- Lliniaru Llifogydd ym Miwmares – mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares yn eu rhaglen am flwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, mae'r cynnig ffurfiol yn amodol ar gyflwyno cais gan yr Awdurdod unwaith y bydd yr holl ganiatadau a phrisiau tendr wedi eu derbyn i gychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain ar gael erbyn canol mis Tachweddi ac os caiff y cyllid ei gymeradwyo, gobeithir y bydd modd cychwyn ar y gwaith ddiwedd mis Tachwedd. Bydd hyn yn rhedeg i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Mai/Mehefin 2019.

- Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth – mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth yn eu rhaglen am flwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, mae'r cynnig ffurfiol yn amodol ar gyflwyno cais gan yr Awdurdod unwaith y bydd yr holl ganiatadau a phrisiau tendr wedi eu derbyn i gychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain ar gael erbyn diwedd mis Rhagfyr ac os caiff y cyllid ei gymeradwyo, gobeithir y bydd modd cychwyn ar y gwaith ddiwedd mis Ionawr. Bydd hyn yn rhedeg i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2019.

- Seilwaith Strategol Caergybi – Cynllun yw hwn i godi 10 (deg) o unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi, gyda golwg ar gychwyn gwaith ar y safle yn ystod 2018/19 a'i gwblhau erbyn diwedd 2019. Sicrhawyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

- Porth Ymwelwyr – Mae Prosiect Cyrchfan Denu Twristiaid (TAD) Porth Ymwelwyr Ynys Gybi yn becyn o brosiectau a ariennir yn bennaf o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri ac a fydd yn mynd rhagddynt dros nifer o flynyddoedd. Mae'n cynnwys gosod deunydd hyrwyddo mewn perthynas â chyrchfannau eiconig yng Ngogledd Cymru yn y porthladd a'r orsaf, gwella'r profiad i ymwelwyr yng Nghaer Rufeinig Sant Cybi, Chwarel y Morglawdd a Mynydd Twr. Parheir i ddisgwyl i'r prosiect hwn gael ei gymeradwyo'n derfynol.

- Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd – Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwneud gwaith cyfalaf ar yr A5025 rhwng Porthaethwy ac Amlwch. Mae gwaith wedi cychwyn ar y cynllun a hyd y mae, mae £0.176m wedi cael ei wario yn erbyn cyllideb o £0.220m.

- Cynllun Buddsoddi mewn Mwynderau i Dwristiaid (TAIS) – Gwariwyd swm bychan o arian hyd at ddiwedd chwarter 2. Caniatawyd estyniad i'r cyllid hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2018 a disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Tachwedd. Disgwylir y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Priffordd Newydd i Wylfa Newydd – Nid oes disgwyl i unrhyw waith gael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y gwaith ar-lein yn parhau i fynd rhagddo ond nid yw'n debygol o gychwyn tan chwarter 2, 2019/20.

- Mae cyllid wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu (TRIP). Pwrpas yr arian yw dod ag 108 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd drwy bedwar cynllun sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwasg, Ymyrraeth Uniongyrchol o ran Cartrefi Gwag, a Byw yng Nghanol y Trefi. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn fel yr awdurdod arweiniol a Chyngor Sir Gwynedd fel eu partner cyflawni ar y cyd. Cyfanswm y cyllid fydd £3.250m a bydd cyfan Ynys Môn yn £1.800m dros dair blynedd. Mae'r gyllideb ar gyfer 2018/19 yn £0.295m.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | **Cyllideb 2018/19 £'000** | **Derbyniwyd at 30 Medi 2018 £'000** | **Amcan i 31 Mawrth 2019 £'000** | **Rhagolwg Llithriad i 2019/20 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | | | | |
| Mân-ddaliadau | 264 | 264 | 297 | 0 |
| Cyffredinol | 1,431 | 510 | 568 | 1,215 |
| Diwydiannol | 105 | 20 | 105 | 0 |
| Ysgolion | 1,246 | 246 | 376 | 870 |
| **Cyfanswm** | **3,046** | **1,040** | **1,346** | **2,085** |

**3.2.2** Rhagwelir y bydd £3.146m o Dderbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 yn erbyn cyllideb o £3.046m. Mae hyn oherwydd y 5 eiddo a fydd yn cael eu gwerthu yn ystod 2019/20. Hyd at ddiwedd chwarter 2, roedd £1.040m wedi dod i law, sy'n cyfateb i 33% o'r gyllideb. Daeth yr arian hwn yn bennaf o werthu mân-ddaliad (£0.264m), cynhyrchydd (£0.140m) a dau o safleoedd hen ysgolion (£0.246m).

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGAMCENIR AR GYFER 2018/19 A CHYLLIDO

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2019, a'r cyllid diwygiedig:-

| **Gwasanaeth** | **Cyllideb Flynyddol** | **Gwariant a Ragwelir** | **Tros/Tan Wariant a Ragwelir £'000** | **% Amrywiant** |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | 3,188 | 1,450 | 1,738 | 55 |
| **CRT Tai** | 15,998 | 10,372 | 5,626 | 35 |
| **Addysg Gydol Oes** | 12,177 | 7,856 | 4,321 | 35 |
| **Economaidd ac Adfywio** | 6,604 | 4,470 | 2,134 | 32 |
| **Priffyrdd** | 17,533 | 5,529 | 12,004 | 68 |
| **Rheoli Gwastraff** | 31 | 29 | 2 | 5 |
| **Eiddo** | 843 | 836 | 7 | 1 |
| **Trawsnewid** | 535 | 535 | - | - |
| **Cynllunio** | 2,225 | 2,225 | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 1,755 | 755 | 1,000 | 57 |
| Cyfanswm | **60,889** | **34,057** | **26,832** | **44** |

| Cyllidwyd gan : | Annual Budget £'000 | Projected Funding £'000 | Variance | % Variance |
|---|---|---|---|---|
| **Grant Cyfalaf** | 33,411 | 15,628 | 17,783 | 53 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | 1,228 | 1,346 | 117 | 10 |
| **Benthyca â Chefnogaeth** | 5,064 | 3,853 | 1,210 | 24 |
| **Benthyca Di-gefnogaeth** | 5,999 | 4,181 | 1,818 | 30 |
| **Cyfraniad Refeniw** | 13,329 | 7,703 | 5,626 | 42 |
| **Cronfeydd wrth Gefn** | 474 | 972 | 498 | 105 |
| **Benthyciad** | 374 | 374 | 0 | 0 |
| **Tanwariant o 2017/18** | 1,010 | - | 1,010 | 100 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **60,889** | **34,057** | **26,832** | **44** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod) rhagwelir y bydd tanwariant o £ 26.832m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 ac mae'n bosibl mai llithriad i Raglen Gyfalaf 2018/19 fydd yn gyfrifol am hyn. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2019/20, a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20. Y prif brosiectau ble rhagwelir tanwariant yw:-

- Y Brifford Newydd i Wylfa Newydd. Caiff y prosiect hwn ei gyllido'n gyfan gwbl o gyllid allanol (fe'i dangosir fel Grantiau Cyfalaf yn Nhabl 4.1). Bydd y cyfan o'r prosiect hwn yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae cychwyn y prosiect hwn yn ddibynnol ar dderbyn y caniatâd cynllunio angenrheidiol. Unwaith y bydd hwn wedi'i sicrhau, bydd adroddiad pellach mwy manwl ar y costau a'r modd y bwriedir darparu'r cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd gwariant cyfalaf sylweddol yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Os bydd modd sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu safle preswyl, bydd cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gymorth grant i gynorthwyo gyda'r costau datblygu.
- Prynu eiddo cyfredol (CRT) a datblygu eiddo newydd. Caiff y prosiectau hyn eu cyllido o gronfeydd wrth gefn yr CRT (a ddangosir fel Cyfraniad Refeniw yn Nhabl 4.1) a thrwy fenthyciadau. Mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu eiddo newydd, ond ni ragwelir y bydd digon o brosiectau wedi cael eu datblygu i wario'r gyllideb sydd ar gael. Bydd unrhyw arian nad yw'n cael ei wario yn cael ei gario drosodd i 2019/20.
- Adeiladu Ysgol Newydd yr 21ain Ganrif yn Llangefni – bydd y prosiect hwn yn cael ei ariannu drwy Raglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru – Band A - 50% o grantiau allanol a benthyca â chymorth a 50% o dderbyniadau cyfalaf a benthyca di-gefnogaeth. Er mwyn diogelu'r cyllid, rhaid i'r cynllun busnes terfynol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n bosibl, gorau oll erbyn 31 Mawrth 2019. Gall unrhyw oedi gyda symud y prosiect hwn yn ei flaen golygu colli cyllid Band A.
- Gofal Ychwanegol Seiriol – bydd y prosiect hwn yn cychwyn yn awr yn 2020 a bydd yn cael ei gyllido'n llawn drwy'r CRT. Gwnaed cais yn Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i ryddhau cyllid y Cyngor ar gyfer y prosiect hwn yn ôl i'r gronfa gyfalaf gyffredinol.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 yn £142.032m, sef angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca fel y gall ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn benthyca £111.422m yn allanol, sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod angen i'r awdurdod fenthyca £30.611m i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2018/19 (Atodiad 11).

## 5. Y DYFODOL

**5.1** Ar 30 Hydref 2017, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Strategaeth Gyfalaf am 2018/19 ac argymhellwyd y bydd cyllid Rhaglen Gyfalaf 2018/19 yn cael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir arnynt gan Lywodraeth Cymru) a gwerth rhagdybiedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2019/20 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i adnewyddu Cerbydau, Buddsoddi mewn TGCh, atgyweirio asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chostau'r Grantiau Statudol ar gyfer darparu Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ogystal, bydd arian ar gael ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol a chaiff y rhain eu hasesu fesul achos.

Fel y soniwyd ym mharagraff 4.2, gofynnwyd am gael rhyddhau cyllid y cyngor ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol yn ôl i'r gronfa gyfalaf gyffredinol. Os caiff hynny ei gymeradwyo, bydd arian ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd yn 2019/20, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoddi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y cânt eu nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2017 – 2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol. Yn 2019/20, derbyniwyd 10 o fidiau ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd ynghyd â 2 fid Buddsoddi i Arbed. Ystyriwyd y bidiau hyn gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2018.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau a'r ddiwedd chwarter 2 a'r gwariant rhagdybiedig cysylltiedig ar brosiectau, bod y rhan fwyaf o'r prosiectau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn eu cyllidebau ond disgwylir i 3 o brosiectau mawr (Safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Gwelliannau i'r A5025 i Wylfa, Ysgol yr 21ain Ganrif yn Llangefni) danwario'n sylweddol yn 2018/19. Fodd bynnag, bydd yr arian hwn yn cael ei gario drosodd i 2019/20 ac nid yw'n cael ei ragweld ar hyn o bryd y bydd unrhyw arian yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant Rhagamcanedig ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,006,790 | 503,400 | 188,329 | 0 | 188,329 | -315,071 | 37 | 19 | 1,006,790 | 0 | 0 |
| Safle Presw yl ar gyfer Sipsiw n a Theithw yr | 1,858,000 | 40,000 | 9,553 | 2,394 | 11,947 | -28,053 | 30 | 1 | 120,000 | -1,738,000 | -94 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 199,100 | 90,000 | 0 | 0 | 0 | -90,000 | 0 | 0 | 199,100 | 0 | 0 |
| Grant Enable | 93,200 | 46,602 | 13,744 | 0 | 13,744 | -32,858 | 29 | 15 | 93,200 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadw y | 30,650 | 0 | 477 | 0 | 477 | 477 | 0 | 2 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3,187,740** | **680,002** | **212,103** | **2,394** | **214,496** | **-465,506** | **32** | **7** | **1,449,740** | **-1,738,000** | **-55** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gw res Canolog | 500,000 | 70,000 | 38,003 | 15,250 | 53,253 | -16,747 | 76 | 11 | 500,000 | 0 | 0 |
| Contract Gw aith Cynnal a Chadw a Gynlluniw yd | 3,983,500 | 1,573,149 | 1,840,780 | 2,371 | 1,843,152 | 270,002 | 117 | 46 | 3,983,149 | -351 | 0 |
| Gw ella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 200,000 | 0 | 0 | 0 | -200,000 | 0 | 0 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Gw aith Amgylcheddol | 500,000 | 0 | 10,435 | 4,180 | 14,615 | 14,615 | 0 | 3 | 500,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 7,964,780 | 2,254,665 | 353,290 | 0 | 353,290 | -1,901,375 | 16 | 4 | 2,339,000 | -5,625,780 | -71 |
| Ailfodelu Llaw r Y Dref | 500,000 | 250,000 | 273,761 | 669 | 274,430 | 24,430 | 110 | 55 | 500,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 175,000 | 165,966 | 20,095 | 186,061 | 11,061 | 106 | 53 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 50,000 | 18,366 | 0 | 18,366 | -31,634 | 37 | 9 | 200,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,000,000 | 170,000 | 323,916 | 36,400 | 360,316 | 190,316 | 212 | 36 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **15,998,280** | **4,742,814** | **3,024,516** | **78,965** | **3,103,482** | **-1,639,333** | **65** | **19** | **10,372,149** | **-5,626,131** | **-35** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mew n Adeiladau Addysgol | 397,330 | 50,000 | 84,703 | 0 | 84,703 | 34,703 | 169 | 21 | 400,000 | 2,670 | 1 |
| Adnew yddu Adeiliadau Addysg | 543,950 | 350,000 | 454,880 | 0 | 454,880 | 104,880 | 130 | 84 | 550,000 | 6,050 | 1 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi | 132,000 | 10,000 | 8,087 | 3,521 | 11,607 | 1,607 | 116 | 9 | 132,086 | 86 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau | 178,000 | 70,000 | 69,158 | 3,750 | 72,908 | 2,908 | 104 | 41 | 178,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 7,000 | 0 | 1,222 | 850 | 2,072 | 2,072 | 0 | 30 | 16,222 | 9,222 | 132 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw | 5,082,748 | 890,000 | 2,402,727 | 7,109 | 2,409,836 | 1,519,836 | 271 | 47 | 5,082,748 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 203,000 | 256,496 | 0 | 0 | 0 | -256,496 | 0 | 0 | 303,991 | 100,991 | 50 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Esgeifiog | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -50,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Estyniad Ysgol Y Graig | 350,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 350,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad New ydd Llangefni | 5,233,000 | 91,379 | 20,860 | 17,252 | 38,112 | -53,267 | 42 | 1 | 842,588 | -4,390,412 | -84 |
| **Cyfanswm** | **12,177,028** | **1,717,875** | **3,041,636** | **32,482** | **3,074,118** | **1,356,243** | **179** | **25** | **7,855,635** | **-4,321,393** | **-35** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Tw ristiaeth | 1,397,980 | 0 | 1,738 | 0 | 1,738 | 1,738 | 0 | 0 | 400,000 | -997,980 | -71 |
| Seilw aith Strategol Caergybi | 1,370,000 | 0 | 2,495 | 0 | 2,495 | 2,495 | 0 | 0 | 400,000 | -970,000 | -71 |
| Seilw aith Strategol Llangefni | 3,357,000 | 2,050,000 | 1,668,125 | 371 | 1,668,496 | -381,504 | 81 | 50 | 3,191,000 | -166,000 | -5 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 69,350 | 4,019 | 4,019 | 850 | 4,869 | 850 | 121 | 7 | 69,346 | -4 | 0 |
| Salix Goleuadau LED Canolfan Hamdden - Cadw | 5,000 | 5,000 | 5,194 | 0 | 5,194 | 194 | 104 | 104 | 5,194 | 194 | 4 |
| Cw rs Golff Llangefni - Peiriant torri gw air | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 0 | 4,500 | 0 | 100 | 100 | 4,500 | 0 | 0 |
| Cae Pel Droed 3G Llangefni | 200,000 | 150,000 | 93,983 | 31,578 | 125,560 | -24,440 | 84 | 63 | 200,000 | 0 | 0 |
| Offer Ffitrw ydd Caergybi | 200,000 | 125,000 | 247 | 185,866 | 186,113 | 61,113 | 149 | 93 | 200,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6,603,830** | **2,338,519** | **1,780,300** | **218,665** | **1,998,965** | **-339,554** | **85** | **30** | **4,470,040** | **-2,133,790** | **-32** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 6,000 | 5,990 | 0 | 5,990 | -10 | 100 | 46 | 12,920 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 150,000 | 150,000 | 0 | 114,650 | 114,650 | -35,350 | 76 | 76 | 150,000 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 1,532,800 | 1,532,800 | 697,744 | 0 | 697,744 | -835,056 | 46 | 46 | 1,532,800 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 954,290 | 0 | 60,640 | 20,429 | 81,068 | 81,068 | 0 | 8 | 950,000 | -4,290 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC) | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Priffyrdd Newydd Wylfa Newydd | 12,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -12,000,000 | -100 |
| Teithio Actif | 175,000 | 3,000 | 1,520 | 1,600 | 3,120 | 120 | 104 | 2 | 175,000 | 0 | 0 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 1,671,000 | 854,000 | 331,613 | 8,752 | 340,365 | -513,635 | 40 | 20 | 1,671,000 | 0 | 0 |
| Grant Tais Oriel Mon, Lon Las a Dingle | 128,000 | 32,000 | 21,702 | 0 | 21,702 | -10,298 | 68 | 17 | 128,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmaris | 120,000 | 120,000 | 104,091 | 16,076 | 120,166 | 166 | 100 | 100 | 120,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Lon | 220,000 | 165,000 | 176,494 | 0 | 176,494 | 11,494 | 107 | 80 | 220,000 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 2 - Goleuadau Stryd | 105,130 | 105,130 | 104,881 | 0 | 104,881 | -249 | 100 | 100 | 105,130 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 264,000 | 184,800 | 205,328 | 0 | 205,328 | 20,528 | 111 | 78 | 264,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17,533,140** | **3,152,730** | **1,710,001** | **161,506** | **1,871,508** | **-1,281,222** | **59** | **11** | **5,528,850** | **-12,004,290** | **-68** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Pont Pwyso | 30,590 | 28,995 | 28,995 | 0 | 28,995 | 0 | 100 | 95 | 28,995 | -1,595 | -5 |
| **Cyfanswm** | **30,590** | **28,995** | **28,995** | **0** | **28,995** | **0** | **100** | **95** | **28,995** | **-1,595** | **-5** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 406,930 | 50,000 | 3,244 | 0 | 30,728 | -46,756 | 6 | 1 | 400,000 | -6,930 | -2 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 37,030 | 0 | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| Mân-ddaliadau | 186,000 | 93,000 | 71,059 | 2,100 | 39,321 | -19,841 | 79 | 39 | 186,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **842,930** | **143,000** | **74,303** | **2,100** | **107,078** | **-66,597** | **0** | **13** | **836,000** | **-6,930** | **-1** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Seilwaith Craidd | 182,700 | 100,000 | 11,534 | 19,194 | 30,728 | -69,272 | 31 | 17 | 182,700 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 50,000 | 36,501 | 529 | 37,030 | -12,970 | 74 | 31 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 20,000 | 39,321 | 0 | 39,321 | 19,321 | 197 | 197 | 20,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trwydded MS | 106,000 | 106,000 | 106,130 | 0 | 106,130 | 130 | 100 | 100 | 106,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,640 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,640 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **535,340** | **276,000** | **193,486** | **19,723** | **213,209** | **-62,791** | **0** | **40** | **535,340** | **0** | **0** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 2,225,000 | 425,000 | 677,855 | 0 | 677,855 | 252,855 | 159 | 30 | 2,225,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,225,000** | **425,000** | **677,855** | **0** | **677,855** | **252,855** | **159** | **30** | **2,225,000** | **0** | **0** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 731,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 731,000 | 0 | 0 |
| Wifi Canolfan Byron - Buddsoddi i Arbed | 8,750 | 3,000 | 2,708 | 0 | 2,708 | -292 | 90 | 31 | 8,750 | 0 | 0 |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,000,000 | -100 |
| Garreglwyd | 15,420 | 10,000 | 10,075 | 6 | 10,081 | 81 | 101 | 65 | 15,420 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,755,170** | **13,000** | **12,783** | **6** | **12,789** | **-211** | **98** | **1** | **755,170** | **-1,000,000** | **-57** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60,889,048** | **13,517,936** | **10,755,978** | **515,841** | **11,302,495** | **-2,246,116** | **779** | **271** | **34,056,920** | **-26,832,128** | **-289** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 TACHWEDD 2018** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CRT, CHWARTER 2 2018/19** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r isod:-

**(i)** Y sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2018/19.

**(ii)** Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2018/19.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.3m.

**(ii)** Roedd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 yn £12.4m, ond dylid nodi nad oedd £3.6m o wariant a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi ei gwblhau a'i fod wedi llithro, i raglen gyfalaf 2018/19. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm y gyllideb gyfalaf yn £16.0m.

**(iii)** Rhoes y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu, ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £6.0m a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i 'glustnodi' ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2018.

**4. Trosolwg**

**(i)** Roedd y sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Ch2 yn dangos gorwariant o £322k. Erbyn hyn, mae'r rhagolygon o ran incwm £25k yn llai na'r gyllideb wreiddiol gyda'r gwariant a ragwelir £100k yn uwch na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant cyfalaf £1.6m yn llai na'r swm a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £5.6m yn is na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £5,501k yn llai na'r gyllideb, sydd i'w briodoli'n bennaf i wariant cyfalaf is na'r disgwyl.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £24k yn llai na’r gyllideb a broffiliwyd.

**(ii)** Roedd incwm rhent tenantiaid £70k yn is na’r gyllideb. Roedd y gyllideb yn rhagdybio y byddai nifer o eiddo newydd yn cael eu gosod yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ond mae'r niferoedd wedi bod yn is na'r ffigwr sydd wedi ei gynnwys yn y gyllideb. Disgwylir i'r diffyg a ragwelir leihau yn ystod ail hanner y flwyddyn a'r diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £90k.

**(iii)** Roedd rhagdybiaeth yn y gyllideb y byddai’r broses o ailfodelu’r stoc garejys wedi’i chwblhau gyda llai o garajys ar gael i’w gosod. Fel y digwyddodd, roedd y broses ailfodelu yn arafach na’r disgwyl gyda nifer uwch o garejys na gynlluniwyd. Hyd yma, mae incwm o’r ffynhonnell hon £15k yn uwch na’r gyllideb a bydd yn parhau yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae’r rhagamcan wedi cael ei addasu’n uwch gan £5k ers Ch1 i roi rhagolwg diwygiedig o £25k yn uwch na’r gyllideb.

**(iv)** Mae adolygiad o Ffioedd Gwasanaeth, sy’n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, wedi dangos y bydd yr amrywiad o £24k uwchlaw’r gyllideb ar ddiwedd chwarter 2 yn parhau drwy gydol y flwyddyn. Mae’r rhagamcan wedi cael ei addasu gan £40k er mwyn adlewyrchu hynny.

**(v)** Roedd incwm arall £7k yn well na’r gyllideb ond disgwylir iddo ddod yn ôl i ffigwr y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**(vi)** Felly, y rhagolwg cyffredinol ar gyfer incwm yw y bydd £25k yn is na’r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, o'i gymharu â diffyg a ragwelwyd o £70k ar ddiwedd y chwarter cyntaf.

**6. Gwariant nad oedd yn ymwneud â Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd gwariant nad oedd yn ymwneud ag atgyweirio a chynnal a chadw yn £40k yn uwch na'r gyllideb a broffilwyd. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i daliadau cynnal a chadw blynyddol a dderbyniwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, wedi'u gwrthbwyso gan rai arbedion staff. Ar hyn o bryd, disgwylir mai'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fydd y bydd y gwariant yn cyd-fynd â'r gyllideb flynyddol.

**7. Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae’r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) yn dangos gorwariant o £215k (£171k ar ddiwedd Ch1). Mae hyn rhannol oherwydd y defnydd o is-gontractwyr yn uwch na disgwylir ar adegau pan oedd swyddi’n wag ac absenenoldebau salwch yn ystod rhan gynharach y flwyddyn (oddeutu £100k yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd). Mae costau atgyweirio a chynnal a chadw yn amrywio yn dibynu ar y nifer a mathau o waith atgyweirio sy’n cael ei wneud yn ystod y cyfnod. Mae’n bosib rheoli gorwariant drwy reoli y gwaith sy’n cael ei wneud ar unrhyw adeg. Fodd bynnag wrth ystyried gwerth y gorwariant yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ni ragwelir y gellir ad-ennill y sefyllfa o orwario yn llwyr ac mae'r rhagolwg wedi'i ddiwygio i ddangos gorwariant rhagamcanol ar waith atgyweirio a chynnal a chadw o £100k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn dilyn trefniant newydd mewn perthynas a storfeydd yr HMU o fis Tachwedd 2018 mae’n debyg y byddwn yn gweld arbedion hyd at diwedd y flwyddyn ond ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i hyn yn y rhagolwg ar hyn o bryd. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus yn ystod ail hanner y flwyddyn i bennu'r arbedion sydd wedi'u cyflawni.

**(ii)** Mae'r gwariant ar staff cynnal a chadw sydd ddim yn rhan o'r HMU £58k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd a hynny oherwydd swyddi gweigion. Ar sail lefelau staffio cyfredol, rhagamcanir ni fydd yr un lefel o danwariant yn ystod ail hanner y flwyddyn a rhagwelir y bydd £50k o danwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**(iii)** Mae gorwariant o £125k ar waith Atgyweirio a Chynnal a Chadw arall o'i gymharu â'r gyllideb a broffilwyd oherwydd gwaith ychwanegol ynglyn â diogelu rhag tân a cynnal a chadw tai. Bydd y lefel o wariant ar y mathau yma o waith yn gostwng yn ail hanner y flwyddyn a disgwylir l'r lefel gorwariant ostwng. Rhagwelir gorwariant o £50k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018, yn werth cyfanswm o £12,417k a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr £2,665k a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT £9,752k. Cafodd gwariant cyfalaf cynlluniedig o £3,581k ei ddwyn ymlaen fel llithriant o 2017/18, i roi rhaglen gyfalaf ddiwygiedig o £15,998k. Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, rhagwelir bydd y gwariant gwirioneddol yn £10,372k, sydd £5,626k yn is na'r gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb gwariant cyfalaf yn ymwneud â chaffael hen dai Cyngor a datblygu eiddo newydd, gyda £7,964k yn cael ei ddyrannu. Roedd y gyllideb yn caniatáu prynu 15 o eiddo hawl i brynu blaenorol a datblygu 25 eiddo newydd. Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd y gwariant yn £353k a chyllidwyd pris prynu 5 eiddo hawl i brynu blaenorol. Cytunwyd i brynu 5 eiddo ychwanegol a bydd hyn yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda 4 eiddo arall yn cael eu nodi a rhagwelir y bydd prynu'r eiddo hyn hefyd yn cael ei gwblhau, gan gymryd cyfanswm nifer y eiddo a brynwyd i 14. Nodwyd 24 safle ar gyfer datblygiadau adeiladu o'r newydd ac maent yn y broses gynllunio ar hyn o bryd; mae'r rhain yn cynnwys 6 tŷ yng Nghaergeiliog, 3 byngalo ym Moelfre, 3 byngalo ym Modedern gyda gweddill y safleoedd yng Nghaergybi. Oherwydd yr oedi o ran cychwyn ein prosiectau adeiladu o'r newydd, rhagwelir tanwariant o £5.6m hyd at ddiwedd y flwyddyn o fewn y rhaglen yma. Bydd y cyllid yn cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

## 10. Balans y CRT

**(i)** Roedd balans agoriadol Cronfa Wrth Gefn y CRT yn £7,407k. Roedd y gyllideb yn caniatáu defnyddio £6,050k o'r balans hwn, fodd bynnag, bydd y tanwariant a ragwelir ar y gyllideb cyfalaf ynghyd â'r gorwariant a ragwelir ar y gyllideb refeniw yn arwain at ddefnyddio ond £549k o'r gronfa wrth gefn. Bydd hyn yn rhoi balans wrth gefn o £6,858k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi, felly, mae ar gael i gyllido gwariant CRT yn unig yn y dyfodol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae hwn yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Gwariant a rhagamcanion refeniw hyd ddiwedd Chwarter 2.<br>Atodiad B – Gwariant a rhagamcanion cyfalaf hyd ddiwedd Chwarter 2. | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cyllideb CRT 2018/19 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2018).<br>• Cynllun Busnes 30 Blynedd y CRT 2018/48 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2018). | | |

**ATODIAD A**

| ***CYFRIF CRT 2018/19*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2018/19** | **Cyllideb a Broffilwyd i Mis 6** | **Gwirioneddol i Mis 6** | **Amrywiant i Mis 6** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiad Diwedd Blwyddyn** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Aneddau | (17,339,000) | (8,669,500) | (8,599,709) | 69,791 | (17,249,000) | 90,000 |
| Garejys | (190,000) | (95,000) | (110,076) | (15,076) | (215,000) | (25,000) |
| Tâl am Wasanaeth | (99,000) | (49,500) | (73,304) | (23,804) | (139,000) | (40,000) |
| Arall | (311,000) | (133,000) | (140,421) | (7,421) | (311,000) | 0 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 219,000 | 0 | 0 | 0 | 219,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(17,720,000)** | **(8,947,000)** | **(8,923,510)** | **23,490** | **(17,695,000)** | **25,000** |
| **Gwariant nad yw'n atgyweiriadau a chynnal a chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 115,820 | 57,883 | 43,228 | (14,655) | 115,820 | 0 |
| Gweinyddu Rhenti | 135,360 | 67,481 | 66,892 | (589) | 135,360 | 0 |
| Rheoli Ystadau | 369,560 | 183,964 | 183,872 | (92) | 369,560 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,167,040 | 544,483 | 599,795 | 55,312 | 1,167,040 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n atgyweiriadau a chynnal a chadw** | **1,787,780** | **853,811** | **893,787** | **39,976** | **1,787,780** | **0** |
| **Gwaith Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,016,840 | 1,508,519 | 1,723,355 | 214,836 | 3,016,840 | 0 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim HMU) | 852,560 | 425,252 | 367,352 | (57,900) | 852,560 | 0 |
| Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Arall | 463,730 | 231,892 | 356,858 | 124,966 | 463,730 | 0 |
| **Cyfanswm Gwaith Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | **4,333,130** | **2,165,663** | **2,447,565** | **281,902** | **4,333,130** | **0** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 2,987,000 | 0 | 0 | 0 | 2,987,000 | 0 |
| Ad-daliad o Wasanaethau Tai | 635,120 | 0 | 0 | 0 | 635,120 | 0 |
| Ad-daliad o Wasanaethau Canolog | 693,360 | 0 | 0 | 0 | 693,360 | 0 |
| **Cyfanswm addasiadau diwedd blwyddyn** | **4,315,480** | **0** | **0** | **0** | **4,315,480** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,436,390** | **3,019,474** | **3,341,352** | **321,878** | **10,436,390** | **0** |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG REFENIW** | **(7,283,610)** | **(5,927,526)** | **(5,582,158)** | **345,368** | **(7,258,610)** | **25,000** |

| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant 2018/19 | 15,998,280 | 4,742,814 | 3,103,482 | (1,639,333) | 10,372,149 | (5,626,131) |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,665,000) | 0 | 0 | 0 | (2,665,000) | 0 |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF** | **13,333,280** | **4,782,814** | **3,103,482** | **(1,639,333)** | **7,707,149** | **(5,626,131)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,049,670** | **(1,144,712)** | **(2,478,676)** | **(1,293,965)** | **448,539** | **(5,601,131)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol CRT** | (7,406,916) | | | | (7,406,916) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng nghronfa wrth gefn y CRT** | 6,049,670 | | | | 448,539 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau CRT** | **(1,357,246)** | | | | **(6,958,377)** | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant i'r Proffil (£) | Gwariant a Rhagamcenir (£) | Rhagamcan Dan/Dros (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwresogi Canolog | 500,000 | 70,000 | 53,253 | (16,747) | 500,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw Cynlluniedig | 3,983,500 | 1,573,149 | 1,843,150 | 270,001 | 3,983,149 | (351) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 200,000 | 0 | (200,000) | 1,000,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 0 | 14,615 | 14,615 | 500,000 | 0 |
| Caffael Eiddo Presennol / Datblygu Eiddo Newydd | 7,964,780 | 2,254,665 | 353,290 | (1,901,375) | 2,339,000 | (5,625,780) |
| Ailfodelu Eiddo y Stoc Bresennol | 500,000 | 250,000 | 274,430 | 24,430 | 190,000 | 0 |
| Addasiadau'r Sector Gyhoeddus | 350,000 | 175,000 | 186,061 | 11,061 | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 50,000 | 18,366 | (31,634) | 200,000 | 0 |
| SATC | 1,000,000 | 170,000 | 360,316 | 190,316 | 1,000,000 | 0 |
| **Cyfanswm ar gyfer CRT Tai** | **15,998,280** | **4,742,814** | **3,103,481** | **(1,639,333)** | **10,372,149** | **(5,626,131)** |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **26 TACHWEDD 2018** |
| **PWNC:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2019/2020** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN: E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651 ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

## A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

**1.** Nodi cyfrifiad sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2019/20, sef 30,876.09 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth at y diben yma - Rhan E6).

**2.** Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni dros y flwyddyn 2019/20 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

**3.** Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2019/20 sef 31,571.46 ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,506.32 |
| Biwmares | 1,095.94 |
| Caergybi | 3,927.52 |
| Llangefni | 1,965.35 |
| Porthaethwy | 1,443.42 |
| Llanddanielfab | 379.48 |
| Llanddona | 400.39 |
| Cwm Cadnant | 1,171.95 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,323.32 |
| Llanfihangel Esceifiog | 693.04 |
| Bodorgan | 459.96 |
| Llangoed | 663.77 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 632.10 |
| Llanidan | 421.79 |
| Rhosyr | 1,027.19 |
| Penmynydd | 246.31 |
| Pentraeth | 571.10 |
| Moelfre | 631.10 |
| Llanbadrig | 696.84 |
| Llanddyfnan | 508.21 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 579.31 |
| Llannerchymedd | 532.02 |
| Llaneugrad | 185.47 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,871.09 |
| Cylch y Garn | 403.68 |
| Mechell | 565.96 |
| Rhosybol | 484.57 |
| Aberffraw | 302.95 |
| Bodedern | 430.87 |
| Bodffordd | 414.40 |
| Trearddur | 1,303.70 |
| Tref Alaw | 266.72 |
| Llanfachraeth | 231.49 |
| Llanfaelog | 1,298.09 |
| Llanfaethlu | 293.54 |
| Llanfair-yn-neubwll | 565.06 |
| Y Fali | 993.83 |
| Bryngwran | 365.99 |
| Rhoscolyn | 360.99 |
| Trewalchmai | 356.63 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2019/20 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2018 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Rhan 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, fel yr ychwanegwyd gan Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2019/20.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi trethi a phraeseptau erbyn 31 Rhagfyr 2018. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cymorth Refeniw erbyn 23 Tachwedd 2018 ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 4 Ionawr 2019.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 35% ar ail dai ar gyfer 2019/20 gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019.

Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn gadarnhau, yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr, 2018 y bydd y Cynllun lleol cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau fel y mae ar gyfer 2019/20. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU ond bydd costau oherwydd baich achosion ac/neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2019/20. **OND**, bydd y cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw, **yn eithrio'r addasiadau am bremiymau.** Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,876.09 (i'w gymharu efo 30,663.09 am 2018/19). Mae hyn yn gynnydd o 0.69%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,571.46. **Nodir, felly, bod y ffigurau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.**

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2019/20 at ddiben pennu'r dreth yw 31,571.46. Mae hyn yn cymharu efo 30,773.31 am 2018/19 ac yn gynnydd o 2.59%.

Cafwyd newidiadau sylweddol i'r sylfaen y dreth, at pwrpas pennu'r dreth, am 2019/20, mewn perthynas ac eiddo lle codir premiymau arnynt wrth gymharu hefo 2018/19. Am eiddo lle mae'r premiymau yn berthnasol, mae'r symudiadau yma i'w gweld –

Mae yna gynnydd mewn nifer eiddo gwag hirdymor lle mae'r premiwm yn berthnasol – 449 am 2018/19, i fyny at 474 am 2019/20 (cyfwerth Band D o 104.72 i fyny at 448.67). Rhaid cofio bod premiwm y tai gwag am 2019/20 wedi codi o 25% i 100% wrth gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor am 2019/20;

Mae yna gynnydd mewn nifer eiddo ail dai lle mae'r premiwm yn berthnasol – 1,754 am 2018/19, i fyny at 1,956 am 2019/20 (cyfwerth Band D o 472.28 i fyny at 725.63). Rhaid cofio bod premiwm eiddo ail dai am 2019/20 wedi codi o 25% i 35% wrth gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor am 2019/20.

Mae hyn yn gynnydd o 103.50% yn yr elfen premiwm o sylfaen y dreth, at pwrpas pennu'r dreth.

Amcangyfrifir bydd y premiwm o 100% ar eiddo tai gwag hirdymor adeg 2019/20 yn codi incwm ychwanegol o bron i £440k i Gyngor Sir Ynys Môn am 2019/20 (ar ôl cymryd ystyriaeth o gynnydd yn y Dreth Gyngor o 5%). Yn ychwanegol i hyn, bydd premiwm o 35% ar eiddo ail dai adeg 2019/20 yn codi incwm ychwanegol o bron i £319k (ar ôl cymryd ystyriaeth o gynnydd yn y Dreth Gyngor o 5%). Cyfanswm mewn cynnydd o bron i £759k.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i'r dosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag tymor hir) a hynny am y tro cyntaf ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn â gwrthodwyd yr opsiwn.

Mae'r Pwyllgor Gwaith, ar 12 Tachwedd 2018 wedi argymell bod y Cyngor yn ymgynghori ar y gyllideb am 2019/20 ar y sail bod premiwm o 100% yn cael ei godi ar eiddo gwag hirdymor efo premiwm o 35% ar ail dai. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad a'r argymell yma.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau ( a phremiymau yn y dyfodol) a phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r modd y cafodd y sylfaen ar gyfer y dreth ei gweithio allan yn cymryd i ystyriaeth yn llawn y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgownt i ddosbarthiadau penodedig A, B a C ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.

Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, yn pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor a premiwm o 35% ar ail dai o 1 Ebrill 2019.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2019/20

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim Sylw |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Efallai na fydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn ddigon cywir h.y. eithriadau a disgowntiau wedi cael eu gweithio allan yn anghywir, amcangyfrif anheddau sy'n gymwys i godi premiymau arnynt yn anghywir, y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn 2019/20 yn anghywir, megis tanamcangyfrif erydiad yn sylfaen y dreth dros y blynyddoedd, e.e. gostyngiadau bandio a chyfraddau casglu sy'n rhy optimistaidd. Y risg i'r Cyngor fyddai diffyg o ran faint o'r Dreth Gyngor y byddai'n ei chasglu yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ceisir lliniaru hyn drwy gymryd ymagwedd geidwadol wrth amcangyfrif nifer yr anheddau newydd a'r rhai lle gellir codir premiwm arnynt, a thrwy wneud lwfans ar gyfer erydiad yn sylfaen y dreth a'r gyfradd gasglu. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A: Cyfrifiad ar gyfer Sylfaen y Dreth Leol 2019/20

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1) 2019/20

**ATODIAD A**

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2019/20

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,639 | 6,606 | 6,507 | 7,074 | 5,319 | 2,584 | 1,018 | 158 | 49 | 33,954 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | | 16 | 46 | 47 | 90 | 72 | 45 | 15 | 10 | 6 | 347 |
| **A.3** | Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu | 16 | 4,669 | 6,607 | 6,550 | 7,056 | 5,292 | 2,554 | 1,013 | 154 | 43 | 33,954 |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 9 | 1,817 | 3,624 | 3,795 | 4,377 | 3,652 | 1,860 | 731 | 99 | 28 | 19,992 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ag eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt) | 7 | 2,554 | 2,672 | 2,263 | 2,074 | 1,218 | 465 | 160 | 24 | 3 | 11,440 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ag eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt) | 0 | 11 | 12 | 21 | 12 | 14 | 7 | 11 | 4 | 0 | 92 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ag eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag neu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag neu ail gartref | 0 | 287 | 299 | 471 | 593 | 408 | 222 | 111 | 27 | 12 | 2,430 |
| **B.4** | Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy | 16 | 4,669 | 6,607 | 6,550 | 7,056 | 5,292 | 2,554 | 1,013 | 154 | 43 | 33,954 |

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2017/18

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU SY'N DALADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 14 | 4,194 | 6,098 | 6,195 | 6,793 | 5,158 | 2,533 | 1,018 | 157 | 46 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 1 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'i talgrynnu i ddau le degol) | 7.92 | 2,796.23 | 4,742.97 | 5,506.22 | 6,793.00 | 6,304.71 | 3,658.42 | 1,696.75 | 313.50 | 108.38 | 31,928.10 |
| **C.5** | Cyfanswm yr anheddau disgowntedig ag eithrio addasiad premiwm | 14 | 4,025 | 5,933 | 5,974 | 6,532 | 4,981 | 2,434 | 968 | 146 | 42 | |
| **C.6** | Cyfwerthoedd Band D ag eithrio addasiad premiwm | 7.92 | 2,683.33 | 4,614.58 | 5,310.00 | 6,531.50 | 6,087.28 | 3,516.14 | 1,612.50 | 292.00 | 98.58 | 30,753.81 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO'R SYLFAEN DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D | | | | | | | | | | | 31,928.10 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 31,449.18 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amffiddyn) | | | | | | | | | | | 122.28 |
| **E.5** | Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth | | | | | | | | | | | 31,571.46 |
| **E.5a** | Anheddau disgowntiedig sydd yn daladwy ag eithrio addasiad premiwm | | | | | | | | | | | 30,753.81 |
| **E.6** | 100% o sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r grant cynnal | | | | | | | | | | | 30,876.09 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **26 TACHWEDD 2018** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS (DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651<br>ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (Cyngor llawn) yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau trefniadol angenrheidiol i'r cynllun a fydd eu hangen yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018.

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad A**

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad A**

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae Rheoliadau yn nodi bod hyn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

## CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2019/20 y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo yn gyson â'r cynlluniau a gymeradwywyd yn flynyddol gan y Cyngor llawn yng nghyswllt y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac sydd mewn grym ers y flwyddyn ariannol 2014/15 – heblaw am y newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio neu adolygiadau technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau diwygio.

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|

Mae'r Setliad Drafft Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2019/20 wedi ein cyrraedd ar 9 Hydref 2018 ac mae'r Setliad Drafft yn dyfarnu Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Lleol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2019/20 o £5,131,000 (i'w gymharu hefo £5,187,000 am 2018/19). Mae'r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y grant o dan y Setliad Drafft am 2019/20.

Y gwariant cyfredol rhagamcanedig am 2018/19 (diwedd Hydref 2018), yw £5,289,851 yn erbyn cyllideb o £5,524,000 ar gyfer 2018/19. Mae cost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19 yn cael ei osod yn erbyn Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Llywodraeth Cymru o £5,187,000. Mae hyn yn rhoi diffyg rhagamcanedig rhwng y gwariant a'r grant o oddeutu £102k i'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2018/19. Gellir cwrdd â'r diffyg yma o'r gyllideb gyfredol ar gyfer 2018/19.

Yng Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2019/20, mae £5,164,000 wedi ei ddyranu i gwrdd â chost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer drwg ddyledion gordaliadau budd-dal.

Bydd nifer o ffactorau yn 2019/20 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Rhwng Ebrill 2018 a Medi 2018 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 2.9% ac fe dybir bydd y duedd yma'n parhau am weddil y flwyddyn ariannol gyfredol, h.y. gostyngiad o 4% erbyn Mawrth 2019. Mae hyn yn cymharu hefo gostyngiad o 3.8% yn ystod 2017/18 (Ebrill i Ebrill); gostyngiad o 2.1% yn ystod 2016/17; gostyngiad o 2.5% yn ystod 2015/16 a gostyngiad o 1.8% yn 2014/15;

- Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 5.0% am 2019/20 yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 – 2021/22.

- Mae'r Awdurdod eto i gael gwybod beth fydd union effaith Cyllideb hydref Canghellor y Trysorlys ar 29 Hydref 2018 o ran a fydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio ar gyfer cynllun 2019/20 ai peidio.

- Yn ei adolygiad o gyllid llywodraeth leol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi amserlen arwyddol (o 2019) ar gyfer gwella'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan gymryd i ystyriaeth ddiwygiadau lles y DU ond, yn ychwanegol at hynny, mae hefyd wedi cadarnhau y bydd yn parhau i gadw'r hawliadau llawn i'r cynllun yn 2019/20.

- Dylid nodi bod y nifer sy'n manteisio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi gostwng ers iddo gael ei gyflwyno yn 2013 a hynny yn ardaloedd pob un awdurdod lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad manwl o effaith Credyd Cynhwysol ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a fydd yn llywio'r modd y byddant yn datblygu'r cynllun o 2020/21 ymlaen er mwyn sicrhau bod aelwydydd sydd ar Gredyd Cynhwysol a'r aelwydydd nad ydynt yn cael eu trin yn gyfartal.

- Oherwydd y bydd trosglwyddiad Digidol llawn i Gredyd Cynhwysol yn cychwyn ar 4 Rhagfyr 2018 yn ardal yr Awdurdod, disgwylir i geisiadau deuol h.y. ceisiadau ar gyfer Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor leihau ymhellach gyda hynny'n cael effaith ar y nifer a fydd yn ymgeisio.

Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,341,098 (gan dybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 5.0% a gostyngiad 5% mewn llwyth achos) ac, ar ei waethaf, y gwariant a amcangyfrifir o £5,802,967 (yn tybio 9.7% o gynnydd yn y Dreth Gyngor a na fydd gostyngiad llwyth achos).

Felly, disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rwng £210k a £672k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. Fodd bynnag, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i broses y gyllideb mynd ymlaen.

| DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Y brif risg i'r Cyngor yw costau ychwanegol ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn uwch na'r Grant Llywodraeth Cymru am 2019/20. Nid oes gan y Cyngor reolaeth ar newidiadau yn y llwyth achosion a, phe bai yn cynyddu, bydd costau'r Cyngor hefyd yn cynyddu o ganlyniad. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad i'r Cyngor llawn i'w ystyried 11 Rhagfyr 2018.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad Hydref 2018 a Hydref 2017

Adran 13A Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992 -

"13A Pŵer awdurdod bilio i ostwng swm y dreth sy'n daladwy

(1) Os yw person yn atebol i dalu dreth gyngor mewn perthynas ag unrhyw annedd drethadwy ac unrhyw ddiwrnod, gall yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal y mae'r annedd wedi ei lleoli ynddi, leihau'r swm y mae'n atebol i'w dalu ar gyfer yr annedd a'r diwrnod fel y gwêl yn briodol.

(2) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) uchod yn cynnwys pŵer i ostwng y swm i ddim (0).

(3) Gellir ymarfer y pŵer dan is-adran (1) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddosbarth o achosion lle bydd atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r graddau y darperir ar eu cyfer yn y penderfyniad. "

**ATODIAD A**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2018** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **MARC JONES**<br>**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**<br>**(SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **GERAINT JONES - RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>**(EST. 2651)** |
| **GWEITHREDU :** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2019/20** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'r adroddiad yn egluro'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2019 yng nghyswllt 2019/20.

**1.2** Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2018, bod y Cyngor llawn yn derbyn yr argymhellion isod o ran ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig ar gyfer 2019/20 –

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (Cyngor llawn) yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau trefniadol angenrheidiol i'r cynllun a fydd eu hangen yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018.

## 2. GWYBODAETH CEFNDIROL

**2.1** Mabwysiadodd y Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr 2017 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2018/19. Mae angen i'r Cyngor llawn ystyried, yn unol â Rhan 2, Rheoliad 18 o Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif. 3029 (W.301) (y Rheoliadau) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a ddylai adolygu ei gynllun neu ei ddisodli gyda Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arall. Rhaid i'r Cyngor llawn wneud unrhyw newid i'w gynllun, neu unrhyw gynllun newydd yn ei le, heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y bydd yn newid neu'r cynllun newydd yn dod i rym.

**2.2** Fe wnaeth y Cyngor llawn o dan y cynllun cyfredol fabwysiadu'r Rheoliadau yn ffurfiol fel ei gynllun a chan ddefnyddio'i bwerau dewisol fe benderfynodd ddefnyddio disgresiwn lleol i fabwysiadu Pensiwn Anabledd Rhyfel Lleol a Chynllun Dewisol Pensiwn Gweddwon Rhyfel yn unol â'r Rheoliadau. Fe welir manylion yn y cynllun cyfredol o'r elfennau nad ydynt yn cael eu cyfrif fel incwm i bwrpas y disgresiwn lleol hwn. Mae hwn yn darparu cymorth y Dreth Gyngor ychwanegol at yr hyn y mae'n rhaid ei dalu'n statudol dan y Rheoliadau. Hwn yw'r unig ddisgresiwn presennol lleol a roddir gan y Cyngor llawn dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Leol cyfredol.

**2.3** Rhaid i'r Cyngor llawn hefyd roi sylw i Reoliad 17 y Rheoliadau pan fydd yn adolygu neu'n newid cynllun. Os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu adolygu neu newid ei gynllun, rhaid iddo gyhoeddi cynllun drafft o'r adolygiad mewn ffordd y mae'n credu sy'n addas a rhaid iddo ymgynghori gyda phobl a fydd, yn ei dyb ef, â diddordeb yng ngweithrediad ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw ofyniad i ymgynghori'n flynyddol, dim ond pan fydd cynllun yn cael ei adolygu neu ei newid y bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad.

**2.4** Fel yn 2018/19, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi rheoliadau diwygiedig i gynyddu'r ffigurau ariannol a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau technegol neu ganlyniadol eraill sy'n ofynnol yn sgil newidiadau i fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau lles sylfaenol. Unwaith eto, yr un modd â 2018/19, mae amseriad y rheoliadau diwygio hyn yn dibynnu ar Gyllideb Hydref Canghellor y Trysorlys (29 Hydref 2018) a'r amserlen ddilynol a gyhoeddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cynyddu'r budd-daliadau sydd, fel arfer, yn digwydd ychydig ddyddiau ar ôl Cyllideb yr Hydref. Y dyddiad cynharaf y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno'r Rheoliadau drafft newydd yn adlewyrchu'r cynnydd yn y ffigurau ariannol neu unrhyw ddiwygiad technegol arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yw diwedd mis Tachwedd neu ddechrau Rhagfyr 2018.

Rhaid cyflwyno'r rheoliadau hyn ar ffurf ddrafft am 20 diwrnod gwaith heb gyfrif unrhyw egwyl a rhaid cael trafodaeth yn y cyfarfod llawn cyn iddynt ddod i rym. Ar gyfer 2018/19, ni ddaeth y rheoliadau diwygio hyn i rym tan 9 Ionawr 2018 a disgwylir y bydd amserlen debyg yn berthnasol ar gyfer 2019/20.

**2.5** Gan fod y Cyngor llawn yn cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 i benderfynu ar ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol am 2019/20, cynigir bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cael yr awdurdod i wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiadau technegol neu dilynol yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd â newidiadau trefniadol fydd ei angen ar y cynllun yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018.

## 3. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR GYFREDOL

**3.1** Yn **Atodiad A** rhoddir gwybodaeth, ystadegau a gwerthoedd i'r Cyngor llawn ynglŷn ag effaith ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn y dyfodol i'r Cyngor llawn wrth iddo ystyried a ddylai adolygu neu ddisodli ei gynllun cyfredol, i'r graddau -

- Y gall ddefnyddio'r data hwn i fesur patrymau (a oedd yn gywir ar 31 Hydref 2018) yn erbyn y waelodlin (yn gywir yn Rhagfyr 2012) pan gynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran nodweddion a ddiogelir ac achosion o freguster. Fel arfer, mae'r patrymau yma yn cael eu mesur yn flynyddol pob Medi (rhoddwyd data tebyg i'r Cyngor llawn wrth ystryied ei gynllun am 2018/19) ond, ar gyfer pwrpas yr adroddiad yma, oherwydd uwchraddio meddalwedd gan y cyflenwr meddalwedd, nid oedd bosib gwneud hyn ar 30 Medi 2018. Ar hyn o bryd, oherwydd problemau meddalwedd yn dilyn yr uwchraddio, nid yw'n bosib cynhyrchu adroddiadau ar gyfer mathau o incwm a rhyw ac nid yw'r rhain wedi eu diweddaru.

- Er mwyn dechrau deall yr effaith a gaiff y cynllun ar drigolion yr Ynys mewn perthynas ag oed, pobl anabl, rhyw a chenedl.

- I'r dyfodol, i efallai hysbysu dealltwriaeth y Cyngor llawn o gostau tebygol gwahanol gynlluniau posibl ac o gostau tebygol rhoi diogelwch llawn neu rannol i rai grwpiau penodol o gleientiaid a phobl fregus. Ar hyn o bryd, rhaid darparu hyd at 100% o ostyngiad dan y Rheoliadau (os yn ddilys).

**3.2** Ers y data gwaelodlin a sefydlwyd yn Rhagfyr 2012, gellir nodi'r patrymau canlynol ar yr Ynys yng nghyswllt ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:-

- **Llwyth Achosion:** mae'r lleihad yn y llwyth achosion yn parhau ac ar raddfa gyflymach dros y 12 mis diwethaf. Rhwng Rhagfyr 2012 i Medi 2014, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y llwyth achosion o 6.3% (6,960 i lawr i 6,525). Yn ystod y cyfod blynyddol o Medi 2014 hyd at Medi 2015, syrthiodd y llwyth achosion 1.8% i lawr i 6,410 ac o Fedi 2015 i Fedi 2016, syrthiodd y llwyth achosion 2.5% i lawr i 6,252. Yn y cyfnod 12 mis o Fedi 2016 i Fedi 2017, syrthiodd y llwyth achosion 2.1% i lawr i 6,117. Rhwng Medi 2017 i Hydref 2018, syrthiodd y llwyth achosion 5.1% i lawr i 5,807.

- **Llwyth Achosion:** mae'r nifer hawliadau wedi'u Pasportio h.y. hawlwyr sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm, wedi cynyddu o 65.8% i 68.6% o'r llwyth achosion yn ystod y 12 mis o Medi 2017 i Hydref 2018. Mae hawliadau sydd heb Basportio h.y. hawlwyr safonol, wedi gostwng o 34.2% i 31.4%. Mae hyn yn gwydroi'r duedd a nodwyd llynedd. Am hawlwyr safonol, rhaid i'r awdurdod lleol ddilysu manylion incwm. Mae'r hawlwyr yma fel arfer mewn gwaith ar lefel incwm sy'n ddilys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor, llawn neu'n rhannol, neu'n bensiynwyr efo cynilon ac incwm eraill;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad yn Rhagfyr 2012 yn awgrymu nifer ychydig yn uwch o ran hawliadau gan bobl o Oedran Gweithio o gymharu â Phensiynwyr (rhaniad 51.5%/48.5%). Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu rhyw fymryn (rhaniad 51.7%/48.3%), hefo'r un patrwm hyd at Medi 2015, (52.7%/47.3%). I fyny at Medi 2016, mae'r cynnydd wedi sefydlogi ac yn dangos rhaniad 51.9%/48.1%, erbyn Medi 2017, roedd ryw ychydig o gynnydd yn Oedran Gweithio (52.4% / 47.6%) ac erbyn Hydref 2018, roedd y rhaniad Oedran Gweithio i Bensiynwyr yn 52.0% / 48.0%;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd â phlant yn hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor yn Rhagfyr 2012 yn 21.9% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu i 24.2% ac, erbyn Medi 2015, arhosodd yn weddol sefydlog ar 24.1% ond, erbyn Medi 2016, roedd wedi syrthio i 23.2%. Erbyn Medi 2017, nid oedd llawer o newid – 23.3%. Fel ar Hydref 2018, roedd aelwydydd â phlant yn 22.8% o'r llwyth achosion.

- **Anabledd:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor lle derbyniwyd taliadau anabledd penodol (sef Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig neu Uchel), Lwfans Gweini, Cyfran Cefnogaeth o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol) yn Rhagfyr 2012 yn 39.3% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd wedi mynd i lawr i 34.8%. Bu'r patrwm wyrdroi erbyn Medi 2015, hefo 37.0% o aelwydydd yn cael gostyngiad ac roedd y patrwm yma, lle mae taliadau anabledd penodol yn cael eu derbyn wedi parhau hefo cynnydd i fyny at 39.8% o'r llwyth achosion erbyn Medi 2016. Erbyn Medi 2017, roedd cynnydd sylweddol i 45.7% o'r llwyth achosion. Ni ellir gynhyrchu ffigyrau ar gyfer Hydref 2018 ar hyn o bryd;

- **Rhyw:** roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn Rhagfyr 2012 yn 92.5% (13.3% o'r llwyth achosion). Erbyn Medi 2014, roedd yn 92.3% (14.3% o'r llwyth achosion) ac, erbyn Medi 2015, roedd yn 92.1% (13.2% o'r llwyth achosion). Ym Medi 2016, roedd y ffigwr yn 91.1% (14.2% o'r llwyth achosion). Ar Medi 2017, roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn 93.5%% (14.4% o'r llwyth achosion). Ni ellir gynhyrchu ffigyrau ar gyfer Hydref 2018 ar hyn o bryd;

- **Hîl:** Ym mis Rhagfyr 2012 fe gyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ei Chyfrifiad ar gyfer Mawrth 2011 a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth yn Ynys Môn. Gofynnir i'r holl hawlwyr sy'n cwblhau ffurflen gais Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gwblhau arolwg ethnig gwirfoddol. (Gweler Tabl 6 yn Atodiad A am ddadansoddiad yn seiliedig ar yr arolwg gwirfoddol o gymharu â ffigyrau Cyfrifiad Mawrth 2011).

**3.3** Am y 6 mis cyntaf yn 2018/19 roedd 802 o hawlwyr Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd wedi eu prosesu (i'w gymharu â 657 am yr un cyfnod y llynedd) gyda 7,531 o newidiadau mewn amgylchiadau wedi'u prosesu (i'w gymharu â 7,820 am yr un cyfnod y llynedd). Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau oedd 9.9 diwrnod o fewn y cyfnod hwn (am y un cyfnod y llynedd yr amser ar gyfartaledd oedd 6.9 diwrnod).

## 4. ADOLYGU'R CYNLLUN CYFREDOL – DISGRESIWN LLEOL

**4.1** Bydd y rheoliadau hefyd yn cael eu diwygio i gymryd ystyriaeth o'r uwchraddiadau ariannol a newidiadau technegol arferol sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau. Felly, am 2019/20, yr unig ystyriaethau sydd ar gael i'r Cyngor llawn i'w hadolygu ac i benderfynu arnynt yw ym maes y disgresiwn lleol a ganiateir dan y Rheoliadau. O dan y Rheoliadau, (i atgoffa'r Cyngor llawn) mae gan y Cyngor ddisgresiwn lleol yn y meysydd hyn yn unig:-

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bersonau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith lle y maent eisoes wedi bod yn derbyn gostyngiad y Dreth Gyngor a ddaw i ben wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith h.y. **"Cyfnod Talu Estynedig".**

  Mae'r costau uwch a amcangyfrifir am 2019/20 yn gysylltiedig ag ymestyn y cyfnod statudol estynedig yn amrywio rhwng £8,563 am bythefnos hyd at £24,864 am 6 wythnos y tu hwnt i'r 4 wythnos safonol. O dan y rheolau blaenorol ar gyfer Budd-dal Dreth Gyngor, nid oedd unrhyw ddarpariaeth arbennig yn bodoli i ganiatáu ar gyfer hyn a wnaeth y Cyngor ddim defnyddio'r disgresiwn hwn pan gyflwynwyd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Argymhellir, felly, na ddylid adolygu'r cynllun ac ymestyn y cyfnod talu am 2019/20;

- Disgresiwn i gynyddu swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel a fydd yn cael ei ddiystyru wrth weithio allan incwm yr hawliwr h.y. **"Gweddwon Rhyfel"**.

  Mae gan y Cyngor llawn eisoes gynllun lleol sy'n caniatáu diystyriaethau ychwanegol yn y maes hwn. Argymhellir y dylai hyn barhau. Amcangyfrifir y bydd y gost i'r Cyngor yn £11,519 yn 2018/19. Argymhellir, felly, bod y swm ychwanegol sy'n cael ei ddiystyru dan y cynllun lleol cyfredol yn parhau heb ei ddiwygio am 2019/20;

- Y gallu i ôl-ddyddio'r cais Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o safbwynt hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad h.y. **"Ôl-ddyddio Hawliadau".**

  Mae'r Cyngor llawn bob amser wedi bod o'r farn bod 3 mis yn gyfnod digonol i ganiatáu ôl-ddyddio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i hawliadau gan bensiynwyr a rhai o oed gweithio. Mae'r Cyngor llawn o'r farn bod digon o rwydweithiau cefnogaeth ar gael i hawlwyr. Mae yna lawer iawn o ansicrwydd am y gost debygol pe bai cynllun lleol o'r fath yn cael ei fabwysiadu ac argymhellir, felly, na ddylid adolygu'r cynllun drwy ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio y tu hwnt i 3 mis yn ystod 2019/20.

**4.2** Dylid nodi nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau dewisol hyn – mae'r gost yn syrthio ar drethdalwyr lleol.

**4.3** O dan Atodiad 1 Cynllun Arfaethedig Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2019/20, mae'r Cyngor llawn yn manylu ar y weithdrefn lle y gall hawlwyr newydd wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun. Isod ceir dadansoddiad o'r dull ymgeisio a ddefnyddir gan hawlwyr newydd am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018:-

| Dull Ymgeisio | Nifer | Canran (%) |
|---|---|---|
| **A. Ceisiadau electronig** | | |
| **i.** Drwy apwyntiad dros y ffôn i Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 35 | 4.4 |
| **ii.** Drwy apwyntiad hefo partneriaid cymeradwy hefo hyfforddiant priodol – Cyswllt Môn, Canolfan J E O'Toole, Gwasanaethau Tai ac ati | 95 | 11.8 |
| **iii.** Ceisiadau ar-lein drwy'r wefan – hunan wasanaeth | 574 | 71.6 |
| **iv.** Dogfennau mewnbwn yr Adran Gwaith a Phensiynau | 96 | 11.9 |
| **B. Ceisiadau ar bapur** | 2 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **802** | **100** |

**OND, gyda'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno o fewn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018 ar gyfer hawlwyr OED GWEITHIO, sut bydd hyn yn effeithio ar hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n ymgeisio am ostyngiad yn y Dreth Gyngor a sut bydd hyn yn effeithio ar filio ac adennill y Dreth Gyngor yn achos hawlwyr o'r fath?**

Felly, mae'n amser cyfleus i adolygu'r dulliau ymgeisio hyn, yn enwedig yn sgil y ffaith y bydd nifer y ceisiadau deuol h.y. am Fudd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleihau wrth i'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno ond gan gydnabod hefyd y bydd dwy system wahanol yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd i bobl o oedran gweithio (bydd pobl o oed pensiwn yn parhau i fod ar fudd-dal tai am y dyfodol rhagweladwy, tan 2023 o leiaf). Dylai Aelodau nodi bod 90 o hawlwyr o oedran gweithio yn derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor sydd hefyd yn derbyn Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd. Mae hyn cyn y bydd y Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno i ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018.

Mae'r ystadegau canlynol hefyd yn dangos nifer yr hawlwyr o oedran gweithio sydd â cheisiadau deuol ar hyn o bryd h.y. Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a hawlwyr o oedran gweithio sy'n hawlio Gostyngiad yn y Dreth Gyngor yn unig e.e. perchnogion tai.

Hawlwyr Oedran Gweithio sy'n hawlio Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - 2,460
Hawlwyr Oedran Gweithio sy'n hawlio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unig - 507

Yn ystod y 12 mis diwethaf, dylid nodi hefyd bod canran yr hawlwyr ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor nad ydynt yn derbyn y gostyngiad llawn o 100% wedi cynyddu o 22.2% (1,359) (ar 30 Medi 2017) i 31.4% (1,825) (ar 31 Hydref 2018) o'r baich achosion h.y. bydd mwy o hawlwyr sy'n derbyn gostyngiad â balans i'w dalu o ran y Dreth Gyngor.

Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r broses o gyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn yn genedlaethol i hawlwyr newydd gael ei chwblhau erbyn Rhagfyr 2018 ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau trosglwyddo hawlwyr sydd ar budd-daliadau neu credydau treth presennol i Gredyd Cynhwysol o fis Gorffennaf 2019 gyda'r broses honno'n cael ei chwblhau erbyn Mawrth 2023 - ar **gyfer hawlwyr oedran gweithio**. Bydd eithriadau i hyn - bydd hawlwyr oedran pensiwn, unrhyw un â 3 neu ragor o blant (yn cychwyn hawlio Credyd Cynhwysol o 1 Chwefror 2019 ymlaen) a hawlwyr mewn llety â chymorth dynodedig, yn parhau i dderbyn budd-daliadau tai ac ni fydd eu costau tai yn cael eu talu o'r Credyd Cynhwysol. Felly, am y 3 i 4 blynedd nesaf, bydd y darlun yn un cymhleth gyda gwahanol ddulliau o ymgeisio am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn dibynnu ar a ydych yn derbyn budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol. Mae Atodiad 1 y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn esbonio'r dulliau gwahanol hyn ond yn gryno - bydd yn rhaid i hawlwyr Credyd Cynhwysol lenwi ffurflen gais Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yr Awdurdod hwn er mwyn cael gostyngiad. Ni fydd dogfennau yr Adran Gwaith a Phensiynau'n berthnasol i Gredyd Cynhwysol.

Dylid nodi hefyd, yn dilyn cyhoeddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau ar 1 Hydref 2018, y bydd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cael ei hariannu i ddarparu Cymorth Cyffredinol ar gyfer Credyd Cynhwysol yn genedlaethol, mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y modd y mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn bwriadu gweithredu y gwasanaeth cymorth hwn ar lefel leol.

Argymhellir, felly, bod y gweithdrefnau hyn ar gyfer hawlio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau'r un fath ac nad ydynt yn cael eu hadolygu ar gyfer 2019/20, heblaw am y newidiadau trefniadol fydd raid ei wneud ar ôl cychwyn y Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol ar 4 Rhagfyr 2018 – ceir manylion yn Atodiad 1 o'r polisi argaethedig. O dan drefniadau newydd, efallai y bydd nifer fwy o ffurflenni cais yn cael eu cwblhau gyda chymorth partneriaid cymeradwy - Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaethau Tai (Canolfan O'Toole) fel y gwasanaeth sy'n arwain ar Gredyd Cynhwysol yn yr Awdurdod. Fodd bynnag, prif nod y gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yw y bydd y rhan fwyaf o ffurflenni cais am Ostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu cwblhau ar-lein gan yr hawlydd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Sut bydd y Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn effeithio ar filio a chasglu'r Dreth Gyngor?**

Gan fod Credyd Cynhwysol yn un taliad misol, caiff ei drin fel incwm i bwrpas cyfrifo Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gall unrhyw newidiadau i haeddiant hawlydd i Gredyd Cynhwysol, o dan y cynllun sydd i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod hwn (cynllun Cymru gyfan), arwain at newidiadau yn yr hawl i Ostyngiad yn y Dreth Gyngor. Bydd biliau diwygiedig ar gyfer y Dreth Gyngor gydag amserlenni talu newydd yn cael eu cynhyrchu os yw'r newidiadau'n golygu na fydd modd cwrdd yn llawn â chost y Dreth Gyngor. Gall hyn ddigwydd sawl gwaith yn ystod y flwyddyn oherwydd gall yr hawl i Gredyd Cynhwysol amrywio o fis i fis. (Yn Lloegr, mae cynlluniau llawer o awdurdodau lleol yn osgoi hyn oherwydd bod lefelau incwm wedi eu bandio ac nid yw newid incwm o reidrwydd yn golygu newid yn yr hawl i ostyngiad yn y Dreth Gyngor a'r angen am fil newydd).

Gall yr oedi o ran prosesu Credyd Cynhwysol arwain at gynhyrchu biliau llawn, nodiadau atgoffa, rhybuddion terfynol a gwysion am beidio â thalu. Bydd yr Awdurdod yn gwneud gostyngiadau dros dro i'r Dreth Gyngor tra bod y cais yn cael ei brosesu gan y Ganolfan Byd Gwaith, ond dim ond os yw'r hawlydd wedi gofyn am daliad Credyd Cynhwysol ymlaen llaw gan y Ganolfan Byd Gwaith ac wedi rhoi'r manylion gofynnol iddynt ar gyfer caniatáu taliad o'r fath. Gall yr Awdurdod ddefnyddio'r wybodaeth hon gan ddefnyddio porth DWP er mwyn ei alluogi i wneud gostyngiad dros dro i'r Dreth Gyngor.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL A RISG

**5.1** Nid yw'r Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2019/20 yn debygol o gyrraedd tan yr wythnos yn cychwyn 17 Rhagfyr 2018 ac, felly, ni wn (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) beth fydd y dyfarniad Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor terfynol i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19. Mae'r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y Setliad Drafft 2019/20 a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2018. Y gwariant cyfredol (diwedd Hydref 2018 yw £5,289,851), hefo Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru yn ei erbyn o £5,187,000 am 2018/19. Mae hyn yn rhoi diffyg tybiedig o £102k i'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2018/19. Y Grant Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig dan y Setliad Dros Dro ar gyfer 2019/20 yw £5,131,000. Yng Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2019/20 mae £33k wedi cael ei ddyrannu i gwrdd â chost y diffyg ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer ddrwgddyledion gor-daliadau budd-dal.

**5.2** Bydd nifer o ffactorau yn 2019/20 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Rhwng Ebrill 2018 a Medi 2018 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 2.9% ac fe dybir bydd y duedd yma'n parhau am weddill y flwyddyn ariannol gyfredol h.y. gostyngiad o 4% erbyn Mawrth 2019. Mae hyn yn cymharu hefo lleihad 3.8% (Ebrill i Ebrill) yn ystod 2017/18, gostyngiad o 2.1% yn ystod 2016/17, gostyngiad 2.5% yn ystod 2015/16 a gostyngiad 1.8% yn ystod 2014/15;

- Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 5.0% am 2019/20, yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 – 2021/22.

- Mae'r Awdurdod eto i gael gwybod hefyd beth fydd union effaith Cyllideb Hydref y Canghellor ar 29 Hydref 2018 ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r ffigyrau ariannol ai peidio mewn perthynas â'r rheoliadau diwygiedig ar gyfer cynllun 2019/20.

- Yn ei adolygiad o gyllid llywodraeth leol yng Nghymru (diweddariad Hydref 2018), mae Llywodraeth Cymru nid yn unig wedi rhoi amserlen ddangosol (o 2019) ar gyfer gwella'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan gymryd i ystyriaeth ddiwygiadau lles y DU, ond hefyd wedi cadarnhau y bydd, ar gyfer 2019/20, yn cadw'r hawliau llawn i'r cynllun.

- Dylid nodi bod y nifer sy'n manteisio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar gyfer ardal pob awdurdod lleol ers iddo gael ei gyflwyno yn 2013 wedi gostwng. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad manwl o effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a fydd yn llywio datblygiad y cynllun o 2020/21 ymlaen i sicrhau bod aelwydydd sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol a'r rhai nad ydynt yn cael eu trin yn gyfartal.

- Gyda throsglwyddiad digidol llawn i Gredyd Cynhwysol o 4 Rhagfyr 2018 ymlaen yn ardal yr Awdurdod, disgwylir i geisiadau deuol h.y. ar gyfer Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, leihau ymhellach a bydd hyn yn cael effaith ar y nifer a fydd yn ymgeisio.

**5.3** Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,341,098 (gan dybio cynnydd 5% yn y Dreth Gyngor a gostyngiad pellach o 5% yn y llwyth achos) ac ar ei waethaf y gwariant a amcangyfrifir o £5,802,967 (yn tybio na fydd gostyngiad llwyth achos a 5% o gynnydd yn y Dreth Gyngor).

**5.4** Felly, disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rhwng £210k a £672k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. Serch hynny, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i'r broses gosod y gyllideb mynd ymlaen.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

**6.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan y Rheoliadau Anghenion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun arall i'w ddefnyddio pe na bai'r Cyngor yn sefydlu cynllun, mae'r Cyngor, er hynny, â dyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed pe bai'n dewis peidio â gosod unrhyw un o'r elfennau dewisol.

**6.2** Mae'r Cynllun arfaethedig ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gorfod cael ei gymeradwyo dan Adran 13A (1) (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**6.3** Ar 28 Chwefror 2018, cymeradwyodd y Cyngor llawn Bolisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor dan Adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a dirprwyodd i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio y polisi hwn. Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan Adran 13A (1) (c) gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi perthnasol.

**6.4** Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 sy'n cael ei gynnig ar gyfer ei gymeradwyo ar wahân i, ac yn annibynnol o, Bolisi Rhyddhad Dewisol Dreth Gyngor y Cyngor hwn. Gall ymgeiswyr sy'n gymwys am gymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wneud cais am ryddhad ychwanegol o dan Bolisi Rhyddhad Dewisol Dreth Gyngor y Cyngor.

## 7. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dilyn ei ymgynghoriad ar gyfer y Rheoliadau gwreiddiol yn 2012. Mae asesiad lleol o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar ran y Cyngor mewn trefniadau ar y cyd ar draws Cymru hefyd mewn perthynas â Rheoliadau 2012 (Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd Mawrth 2013) a chafodd hwn ei ddiweddaru, ar gyfer yr Awdurdod yma, ym Medi 2014, Medi 2015, Medi 2016, Medi 2017 a diweddariad pellach (lle bo'n boisb ar hyn o bryd) Hydref 2018, fel y gwelir yn **Atodiad A**.

## 8. GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

**8.1** Mae'r prif reoliadau a rheoliadau diwygiedig Cynulliad Cymru yn ddwyieithog. Mae Cynllun y Cyngor ei hun yn ddwyieithog ac mae ffurflenni hawlio, naill a'i trwy ddulliau electronig neu trwy bapur, hefyd yn ddwyieithog. Mae'n partneriaid cymeradwy wedi cael eu hannog i roi gwasanaeth dwyieithog ac mae'n gwasanaeth hawlio hunan wasanaeth yn hollol ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth i hawlio tros y ffôn neu drwy apwyntiad hefo staff hefyd yn hollol ddwyieithog.

**8.2** Mae holl ohebiaeth parthed rhybuddion gwobrwyo Gostyngiad y Dreth Gyngor yn ddwyieithog ac mae'r gwasanaeth yn gallu siarad a gohebu yn yr iaith mae'r cwsmer yn ei ddewis. Serch hynny, mae meddalwedd gweinyddu'r Cynllun yn yr uniaith Saesneg (does dim dewis gwahanol ar gael yn y farchnad). Mae'r ohebiaeth rhwng y Cyngor â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan amlaf, yn yr uniaith Saesneg ond mae ffurflenni hawlio trwy'r Gymraeg ar gael o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

## 9. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**9.1** Wrth ddrafftio'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2019/20, cymerwyd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae'r Cynllun yn cefnogi'r nodau llesiant. Pwrpas y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw rhoi'r gallu i bobol oedran gwaith a phensiynwyr sydd ar incwm isel i gwrdd â'u costau Dreth Gyngor. O dan y Cynllun, rhoddir cymorth ychwanegol i bensiynwyr a phobol anabl trwy ddiystyru lefel uwch o incwm a, hefyd, gosod y lefel incwm disgwylir pensiynwyr a phobol anabl i fyw arno, cyn dechrau colli ar yr hyn sy'n cael eu talu fel gostyngiad, ar lefel uwch na phobol oedran gwaith. Mae hyn yn cyd-fynd ag un o brif nodweddion diwygio lles bod hi'n fwy manteisiol i fod mewn gwaith nac allan o waith.

**9.2** Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi gostyngiad ychwanegol parthed cwsmeriaid sy'n derbyn pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel.

**9.3** Mae'r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant o Gymru lewyrchus, Cymru sy'n iachach, Chymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

## 10. DOGFENNAU CEFNDIROL

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Anghenion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C.301)

Y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Anghenion Rhagnodedig a Chynlluniau diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2019

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru: Cymariaethau o fewn Cymru o Nodweddion a Ddiogelir ac Amlder bregusrwydd Mawrth 2013 - Simon Horsington and Associates Ltd, 2013, (wedi ei diweddaru'n lleol Medi 2014, Medi 2015, Medi 2016, Medi 2017 a Hydref 2018).

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: diweddariad - Hydref 2017 a Hydref 2018

Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i diwygiwyd gan Adran 10 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012

## 11. Argymhellion

- Nad yw'r Cyngor llawn yn adolygu nac yn disodli ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gyda chynllun arall;

- Bod y Cyngor llawn yn ffurfiol yn mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol am flwyddyn ariannol 2019/20 **(gweler Atodiad B);**

- Bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ (Swyddog Adran 151) wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu ddiwygiadau technegol mewn unrhyw reoliad neu reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau gweithdrefnol angenrheidiol mewn perthynas â'r cynllun a fydd eu hangen, efallai, wedi cyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod ao 4 Rhagfyr 2018.

## 12. ATODIADAU

- Atodiad A – Effaith y cynllun cyfredol;
- Atodiad B – Cynllun arfaethedig Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20.

.

**GERAINT JONES**
**RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU** **7 TACHWEDD 2018**

**Tabl 1: Llwyth Achosion 31 Hydref 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **5,807** | **100%** | **£5,289,851** | **100%** |
| | | | | |
| Dyfarniad llawn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor h.y. 100% | 3,966 | 68.3% | £3,543,547 | 67.0% |
| Dyfarniad rhannol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor h.y. llai na 100% | 1,841 | 31.7% | £1,746,302 | 33.0% |
| **Math yr Hawliad** | | | | |
| Hawliadau wedi'u Pasportio* | 3,982 | 68.6% | £3,847,283 | 72.7% |
| Hawliadau heb eu Pasportio h.y. Hawliadau Safonol | 1,825 | 31.4% | £1,442,568 | 27.3% |
| **Bandiau'r Dreth Gyngor** | | | | |
| Band A (Gostyngiad Anabl) | 8 | 0.1% | £5,976 | 0.1% |
| Band A | 1,900 | 32.7% | £1,445,781 | 27.3% |
| Band B | 1,850 | 31.9% | £1,586,931 | 30.1% |
| Band C | 1,033 | 17.8% | £1,005,570 | 19.0% |
| Band D | 604 | 10.4% | £650,832 | 12.3% |
| Band E | 301 | 5.2% | £407,788 | 7.7% |
| Band F | 91 | 1.6% | £149,367 | 2.8% |
| Band G | 18 | 0.3% | £33,120 | 0.6% |
| Band H | 2 | 0.0% | £4,486 | 0.1% |
| Band I | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |
| **Ardaloedd Lleol Tref a Chymuned** | | | | |
| Caergybi | 1,625 | 28.0% | £1,367,632 | 25.9% |
| Llangefni | 501 | 8.6% | £424,538 | 8.0% |
| Amlwch | 442 | 7.6% | £399,806 | 7.6% |
| Porthaethwy | 203 | 3.5% | £193,909 | 3.7% |
| Rhosyr | 194 | 3.3% | £181,167 | 3.4% |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 193 | 3.3% | £197,302 | 3.7% |
| Y Fali | 156 | 2.7% | £134,019 | 2.5% |
| Biwmares | 167 | 2.9% | £163,699 | 3.1% |
| Llanfairpwll | 141 | 2.4% | £137,810 | 2.6% |
| Llanfaelog | 128 | 2.2% | £115,391 | 2.2% |
| Llannerch-y-medd | 130 | 2.2% | £118,943 | 2.2% |
| Llanfair yn Neubwll | 113 | 2.0% | £101,222 | 1.9% |
| Llanbadrig | 121 | 2.1% | £112,439 | 2.1% |
| Llanfihangel Esceifiog | 109 | 1.9% | £104,125 | 2.0% |
| Bodedern | 93 | 1.6% | £87,832 | 1.7% |
| Llangoed | 92 | 1.6% | £87,347 | 1.7% |
| Pentraeth | 83 | 1.4% | £79,936 | 1.5% |
| Llanidan | 89 | 1.5% | £76,096 | 1.4% |
| Mechell | 91 | 1.6% | £86,763 | 1.6% |
| Trewalchmai | 83 | 1.4% | £77,776 | 1.5% |
| Bodorgan | 91 | 1.6% | £83,023 | 1.6% |
| Llaneilian | 84 | 1.4% | £86,464 | 1.6% |
| Moelfre | 73 | 1.3% | £63,370 | 1.2% |
| Rhosybol | 68 | 1.2% | £66,191 | 1.3% |
| Bryngwran | 68 | 1.2% | £60,529 | 1.1% |
| Bodffordd | 70 | 1.2% | £59,522 | 1.1% |
| Cwm Cadnant | 71 | 1.2% | £74,441 | 1.4% |
| Aberffraw | 64 | 1.1% | £54,259 | 1.0% |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 60 | 1.0% | £67,974 | 1.3% |
| Llanddaniel | 49 | 0.8% | £48,921 | 0.9% |
| Cylch y Garn | 46 | 0.8% | £48,739 | 0.9% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Trefi a Chymunedau Lleol (parhad)** | | | | |
| Trearddur | 51 | 0.9% | £58,995 | 1.1% |
| Llanddona | 46 | 0.8% | £46,025 | 0.9% |
| Tref Alaw | 44 | 0.8% | £51,167 | 1.0% |
| Llanfaethlu | 48 | 0.8% | £48,784 | 0.9% |
| Llanfachraeth | 44 | 0.8% | £41,774 | 0.8% |
| Llanddyfnan | 34 | 0.6% | £36,110 | 0.7% |
| Rhoscolyn | 19 | 0.3% | £20,294 | 0.4% |
| Penmynydd | 15 | 0.3% | £14,236 | 0.3% |
| Llaneugrad | 10 | 0.2% | £10,718 | 0.2% |

* Hawliadau wedi'u pasportio yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 2: Oed - Hawliadau gan Bobl o Oed Gweithio a Phensiynwyr 31 Hydref 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **5,807** | **100%** | **£5,289,851** | **100%** |
| **Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,967 | 51.1% | £2,610,229 | 49.3% |
| Oed Pensiynwr | 2,840 | 48.9% | £2,679,622 | 50.7% |
| **Hawliadau pasport* yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,094 | 36.1% | £1,934,622 | 36.6% |
| Oed Pensiynwr | 1,888 | 32.5% | £1,912,661 | 36.2% |
| **Di-basport h.y. hawliadau safonol yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 873 | 15.0% | £675,607 | 12.7% |
| Oed Pensiynwr | 952 | 16.4% | £766,961 | 14.5% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Cwpl** | | | | |
| Oed Gweithio | 658 | 11.3% | £719,635 | 13.6% |
| Oed Pensiynwr | 763 | 13.1% | £860,804 | 16.3% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Sengl** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,309 | 39.8% | £1,890,594 | 35.7% |
| Oed Pensiynwr | 2,077 | 35.8% | £1,818,818 | 34.4% |

* Hawliadau pasport yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 3: Oed – Aelwydydd gyda chyfrifoldeb am Blant 31 Hydref 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **5,807** | **100%** | **£5,289,851** | **100%** |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd - Statws** | | | | |
| Cwpl | 1,421 | 24.5% | £1,580,441 | 29.9% |
| Sengl | 4,386 | 75.5% | £3,709.410 | 70.1% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd - Plant** | | | | |
| **Dim plant** | **4,484** | **77.1%** | **£4,092,261** | **77.4%** |
| 1 plentyn | 566 | 9.7% | £494,035 | 9.3% |
| 2 blentyn | 421 | 7.3% | £374,120 | 7.0% |
| 3 phlentyn | 208 | 3.6% | £196,722 | 3.7% |
| 4 plentyn | 92 | 1.6% | £92,758 | 1.8% |
| 5 plentyn | 19 | 0.3% | £18,819 | 0.4% |
| 6 phlentyn | 10 | 0.2% | £12,492 | 0.2% |
| 7 plentyn | 3 | 0.1% | £3,578 | 0.1% |
| 8 plentyn | 1 | 0.0% | £1,744 | 0.0% |
| 9 plentyn | 3 | 0.1% | £3,322 | 0.1% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyplau â Phlant** | | | | |
| Oed Gweithio | 391 | 6.7% | £422,224 | 8.0% |
| Oed Pensiynwr | 19 | 0.4% | £23,304 | 0.4% |
| **Sengl â phlant** | | | | |
| Oed Gweithio | 181 | 15.4% | £183,310 | 13.8% |
| Oed Pensiynwr | 2 | 0.4% | £1,949 | 0.4% |
| **Cyplau â phlant dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 181 | 3.1% | £183,310 | 3.5% |
| Oed Pensiynwr | 2 | 0.0% | £1,949 | 0.0% |
| **Sengl â phlant dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 346 | 6.0% | £276,582 | 5.2% |
| Oed Pensiynwr | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |

**Tabl 4: Aelwydydd lle ni ellir cynhyrchu taliadau anabledd penodol * ar hyn o bryd ar gyfer 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | | | | |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | | | | |
| Oed Pensiynwr | | | | |

* Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig, Uchel), Lwfans Gweini, Elfen Cymorth y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol.

**Tabl 5: Dadansoddiad o nodweddion a ddiogelir: Rhyw, rhiant Sengl – ni ellir gynhyrchu ar hyn o bryd ar gyfer 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | | | | |
| **Aelwydydd Rhiant Sengl - Benyw** | | | | |
| Oed Gweithio | | | | |
| Oed Pensiynwr | | | | |
| **Aelwydydd Rhiant Sengl - Gwryw** | | | | |
| Oed Gweithio | | | | |
| Oed Pensiynwr | | | | |

**Tabl 6: Cefndir Ethnig Ynys Môn 31 Hydref 2018**

| Tarddiad Ethnig | Cyfrifiad Mawrth 2011 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Medi 2017 |
|---|---|---|
| Prydeinig Gwyn | 96.6% | 81.0% |
| Gwyn arall | 1.7% | 18.4% |
| Etifeddiaeth gymysg | 0.8% | 0.3% |
| Asiaidd (Pawb) | 0.7% | 0.3% |
| Du (Pawb) | 0.1% | 0.0% |
| Arall (Pawb) | 0.3% | 0.0% |

**Tabl 7: Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ychwanegol a ddyfarnwyd dan y cynllun dewisol lleol 31 Hydref 2018. Does dim modd darparu rhaniad ar hyn o bryd ar gyfer 31 Hydref 2018.**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | | | | |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (Cyn 1973) | | | | |
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | | | | |

ATODIAD B

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2019/20

# Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

**Rhagarweiniad**

Ers 1 Ebrill 2013, mae Budd-dal y Dreth Gyngor, sef dull o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Dreth Gyngor, wedi cael ei ddiddymu. Cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar 19 Rhagfyr 2012, gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C.316)" **(Rheoliadau Rhagnodedig)** a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C.317)" **(Rheoliadau Diofyn)**. Ar 22 Ionawr 2013, gwnaed rheoliadau diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013" **(Rheoliadau Diwygiedig).**

Roedd y Rheoliadau Rhagnodedig yn cynnwys cymal machlud. O ganlyniad i'r cymal yma, roedd y rheoliadau a nodwyd uchod ond yn berthnasol am y flwyddyn ariannol 2013/14. Dan y cymal yma roedd yn ofynnol i adolygu'r rheoliadau a dod a rhai newydd ymlaen erbyn 1 Ionawr 2014 gan Weinidogion Cymru. Petai rheoliadau newydd ddim yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y dyddiad yma, ni fyddai darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gweithredu yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

Ar 26 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynlluniad Cymru ddwy set o reoliadau newydd : "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Diofyn)** a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Rhagnodedig)**. Mae'r rhain ar gael ar : -

**Rheoliadau Diofyn**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3035/contents/made/welsh

**Rheoliadau Rhagnodedig**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made/welsh

**Rheoliadau Diwygiedig**

Ar ?? Ionawr 2019, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru set bellach o reoliadau diwygio, yn bennaf i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynnydd yng nghostau byw ac i roi sylw i nifer o fân-bwyntiau technegol – "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a'r Cynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2018" (**Rheoliadau Diwygio**). Mae'r rhain ar gael ar :-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/??/contents/made/welsh

Mae'r rheoliadau hyn, felly yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cyngor yng Nghymru ei fabwysiadu. Felly, mae cyfrifoldeb yn parhau ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2019 ar gyfer 2019/20 ymlaen.

Bydd Cynllun lleol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn seiliedig ar Reoliadau Rhagnodedig Llywodraeth Cymru (fel y diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor. Mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2019, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Rhagnodedig.

**Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Cymeradwyodd y Cyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 11 Rhagfyr 2018 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2019. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Rhagnodedig:-

- Categorïau o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad;
- Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt;
- Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-

**1.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.

**2.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.

**3.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan Adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Gweler isod y linc i'r Polisi Dewisol Tuag at y Dreth Gyngor

**http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/y-dreth-gyngor/lleihewch-eich-bil-dreth-gyngor/cymorth-dewisol-tuag-at-y-dreth-gyngor?redirect=false**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C. 301) (Rheoliadau Rhagnodedig)" a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019 Rhif ?? (C. ?) (Rheoliadau Diwygio)". Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig a'r rheoliad diwygio ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3029/contents/made/welsh

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/??/contents/made/welsh

I grynhoi:-

**Rhan 1 y Rheoliadau Rhagnodedig**:

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

**Rhan 2 y Rheoliadau Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys – categorïau o bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

**Rhan 3 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

**Pensiynwyr** sydd yng Nghategorïau A i B.

**Pobl nad ydynt yn bensiynwyr** sydd yng Nghategorïau C i D.

**Rhan 4 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bersonau na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Categorïau o bersonau sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000.

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo.

Personau sy'n fyfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Yn Atodlenni 1 i 5, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

**Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Yn Atodlenni 6 i 10, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

**Atodlen 11 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Nodi y darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei ddilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensiynwyr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais. Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybodaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei ddarparu wrth roi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

**Rhan 6 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Gosod allan y darpariaethau trosiannol fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn, neu sydd wedi gwneud cais i dderbyn, gostyngiad o dan y cynlluniau gostyngiadau cyfredol, pan fydd y cynlluniau newydd yn dod i rym.

**Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu diystyru fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Rhagnodedig.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**Manylion am y drefn lle y gall rhywun wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun**

Rhaid i bob person wneud cais am Ostyngiad Dreth Gyngor, oni bai bod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hon yn ffurflen electronig neu'n ffurflen gais bapur ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a rhaid ei danfon i un o'r swyddfeydd dynodedig canlynol:-

**A.** Gellir gwneud cais electronig fel a ganlyn: -

**i.** Drwy apwyntiad i fynychu i gwblhau'r ffurflen yng Nghyswllt Môn,Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79) neu i ymweld â chleientiaid bregus yn eu cartref i gwblhau'r ffurflen gais (Ffôn 01248 752658/752226);

**ii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn yn Swyddfeydd Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 752658/752226);

**iii.** Drwy apwyntiad i gwblhau'r ffurflen hefo "partneriaid" cymeradwy hefo hyfforddiant priodol. Y rhai cyfredol yw -

- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- unrhyw swyddfa Cyngor ar Bopeth sydd ar yr Ynys (Ffôn 01248 722652);
- Swyddfa Cymorth Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 765912) a Gwasanaethau Cwsmer Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni (Ffôn 01248 752200); ac
- Swyddfeydd Digartref Ynys Môn, Caergybi (Ffôn 01407 765557).

Efallai, yn y flwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ychwanegu at y rhestr yma o "bartneriaid" cymeradwyo hefo hyfforddiant priodol;

**iv.** Yn electronig drwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn - http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/budd-daliadau-a-hawliau-lles/cais-ar-lein-budd-dal-tai-a-cynllun.gostyngiadaur-dreth-gyngor/ neu safleoedd hunan wasanaeth o fewn :-

- Cyswllt Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79);
- Caffi Stesion y Llan, Yr Hen Stesion, Bridge Street, Llanerchymedd LL71 8EU (Ffôn 01248 470481);
- Canolfan Iorwerth Rowlands, Steeple Lane, Biwmares, LL58 8AE (Ffôn 01248 811508);
- Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, LL68 9EA (Ffôn 01407 830145);
- Llyfrgell Niwbwrch, Neuadd Prichard Jones, Niwbwrch, Llanfairpwllgwyngyll LL61 6SY (Ffôn 01248 440770);
- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- Canolfan Gymunedol Gwelfor, Ffordd Tudur, Morawelon, Caergybi LL65 2DH (Ffôn 01407 763518);

**v.** Dogfen Mewnbwn Awdurdod Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau (LAID) a Gwybodaeth Cwsmer Awdurdod Lleol (LACI) **(i hawlwyr Budd-dal Tai yn unig. NID YW'N BERTHNASOL I HAWLWYR OEDRAN GWAITH CREDYD CYNHWYSOL);**

**vi.** Yn electronig ar unrhyw ffurf arall y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu arno yn y dyfodol.

**B.** Gellir cyflwyno cais ar bapur drwy'r dulliau canlynol: -

**i.** Trwy gyfrwng ffurflenni cais a gymeradwywyd a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn Swyddogaeth Adnoddau, Adain Refeniw a Budd-daliadau yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW neu'r Swyddfa Budd-daliadau, Canolfan J E O'Toole, Sgŵar Trearddur, Caergybi, LL65 1NB.

**CYNLLUN LLEOL - DIYSTYRU PENSIWN RHYFEL**
**Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr**
**Atodlen 9, Rheoliad 31 – Heb fod yn Bensiynwyr**

| ELFENNAU UNIGOL | DIYSTYRU INCWM |
|---|---|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 - SPAL) | Ydyw<br>(2019/20) 100% statudol, £ ??. ?? yn amodol ar uwchraddio blynyddol*) |
| Atodiad Anghyflogadwy | Na |
| Lwfans ychwanegol ar gyfer Gwraig (a delir gydag Atodiad Anghyflogadwy) | Na |
| Lwfans Gweini Cyson | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Annilysrwydd | Na |
| Lwfans ‘Cysuron’ | Na |
| Lwfans Oed | Na |
| Lwfans ar gyfer Galwedigaeth o Safon Is | Na |
| Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol Anabledd Difrifol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Plant | Na |

* gosodir gan y Lluoedd Morwrol, y Fyddin a’r Awyrlu ac ati, Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth “Anabledd a Marwolaeth” 2006. Nid yw’r ffigyrau uwchraddio ar gyfer 2019 /20 wedi dod i law eto.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 26 Tachwedd 2018 |
| **Pwnc:** | Datblygu Cartrefi Grŵp Bychan ar gyfer Plant yn Ynys Môn |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr y Rhaglen Drawsnewid, Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i'r Holl Aelodau |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**Cefndir**

Er mwyn hyrwyddo lleoliadau mwy priodol, lleihau gorwariant sylweddol a chaniatáu i blant a phobl ifanc o Ynys Môn barhau i dderbyn gofal ar yr Ynys, mae angen amrediad o wasanaethau amgen. Mae'n amlwg bod nifer sylweddol o blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd yn all-sirol yn annhebygol o gael eu hail-integreiddio neu eu lleoli gyda theulu, ffrindiau, gofalwyr maeth neu deuluoedd mabwysiedig yn y dyfodol rhagweladwy. Er mwyn sicrhau nad yw'r plant hyn yn cael eu 'gadael ar ôl', a bod modd iddynt barhau i fyw ar yr ynys a pharhau i fynd i ysgolion priflif, mae angen datblygu gwasanaethau gofal preswyl gwahanol. Bydd hyn hefyd yn arwain at arbedion sylweddol.

Fel rhan o'r broses o ystyried gwasanaethau gofal preswyl amgen, ystyrir mai'r cysyniad o Gartrefi Grŵp Bychan (CGB) fyddai'r opsiwn gorau ar gyfer Ynys Môn. Mae'n golygu y byddai plant yn byw gyda'i gilydd mewn amgylchiadau 'cartrefol' ac yn byw fel byddai plant yn byw gartref, h.y. mynd i'r ysgol, byw yn y gymuned, bod â chymdogion a ffrindiau ac yn y blaen. Argymhellir na ddylid defnyddio'r ymadrodd 'Cartref Grŵp Teulu' oherwydd mae hyn yn awgrymu y byddant yn byw gyda phobl a fyddai fel rhieni iddynt ac yn gweithredu fel teulu – nid dyna'r achos.

Dyluniwyd CGB i ddarparu gofal yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngus ac i integreiddio plant a phobl ifanc i'r gymuned gan wella ansawdd eu bywydau a lleihau'r stigma i blant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd neu gyda Gofalwyr Maeth. Bydd hefyd yn sicrhau y gellir cyflawni canlyniadau allweddol i blant i'r graddau y mae hynny'n bosibl oherwydd byddant yn parhau i fyw ar yr ynys a mynychu ysgolion lleol. Bydd hefyd yn sicrhau nad yw'r trefniadau mor 'sefydliadol' ar gyfer plant a phobl ifanc a fyddai fel arall yn cael eu lleoli mewn

sefydliadau preswyl ymhell o Ynys Môn.

**Crynodeb o'r Model**

- Dylid datblygu CGB mewn tai sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol mewn ardaloedd preswyl dymunol yn agos at ysgolion a meithrinfeydd, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau bws a mwynderau cymunedol eraill.

- Dylai'r tai gael eu gwasgaru ar hyd a lled yr ynys fel bod modd i'r plant sy'n byw ynddynt integreiddio'n rhwyddach i'r gymuned a sicrhau nad yw ysgolion a gwasanaethau lleol yn cael eu llethu gan y pwysau ychwanegol y gall CGB eu creu.

- Dylai hyd at 2 o blant fod ym mhob tŷ.

- Dylai pob CGB gael ei staffio gan dîm bychan o weithwyr gofal preswyl lleol gan sicrhau parhad gofal ar gyfer y plant sy'n byw ynddynt.

- Nid oes raid i weithwyr gofal preswyl fod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys a phroffesiynol ond dylent fod â phrofiad blaenorol o weithio gyda phlant neu brofiad o fagu plant. Dylent fod yn ymrwymedig i ofalu am blant ac arddangos capasiti i ddeall a gweithio'n rhagweithiol i roi sylw i anghenion arbennig y plant sy'n byw mewn CGB.

- Rhaid i'r holl staff sy'n rhan o'r gwasanaeth CGB ymrwymo i hyrwyddo'n rhagweithiol y cysylltiadau rhwng y plant sy'n byw yn y cartrefi a'u rhieni a pherthnasau eraill, ffrindiau ac unrhyw berson arall sy'n bwysig i hunaniaeth a lles y plentyn. Mae'n bwysig sicrhau bod modd cyflawni canlyniadau allweddol y plant unigol a bod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn cael sylw.

- Dylair CGB gael eu rheoli gan Uned Reoli a Chymorth Ganolog sy'n gyfrifol am reoli'r adnoddau dynol ac ariannol a'r cymorth gweinyddol, technegol a domestig.

- Dylai plant sy'n byw mewn CGB fedru integreiddio i'r gymuned leol drwy fynychu sefydliadau addysgol lleol megis ysgolion a cholegau a bod yn rhan o bob agwedd ar fywyd arferol y gymuned.

**Nifer Uchaf y Plant a Phroffil fesul CGB**

Bydd pob tŷ neu fflat (CGB) yn lletya hyd at ddau o blant.

Mae hyn er mwyn caniatáu i'r ddarpariaeth 'ffitio i mewn' i'r gymuned leol a pheidio â chael ei ystyried fel 'cartref plant'. Mae angen rhoi gofal ac ystyriaeth i hysbysu'r gymuned leol am y CGB yn eu hardal leol. Rhaid annog staff lleol (addas) i weithio yn y CGB. Argymhellir bod swyddi'n cael eu creu ar gyfer pobl leol sydd adnabod y cymunedau'n well.

Mae'r argymhelliad hefyd yn cefnogi'r model gofal arfaethedig y dylai CGB gael eu lleoli mewn ardaloedd preswyl cyffredinol a dylent, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, efelychu cartrefi teuluoedd ar Ynys Môn.

Yn gyffredinol, ni ddylid lleoli plant dan 8 oed mewn CGB oni bai fod amgylchiadau eithriadol - e.e. bod hynny'n caniatáu iddynt gael eu lleoli gyda'u brodyr/chwiorydd. Ym mhob achos, rhaid cydbwyso anghenion unigol y plentyn gydag anghenion y grŵp yn ei gyfarwydd a gyda chapasiti'r staff i reoli'r anghenion hynny.

Dylid anelu hefyd at gael cymysgedd rhyw ym mhob CGB gan gymryd i ystyriaeth drefniadau cysgu priodol, oedran y plant dan sylw a'u hanghenion unigol.

Mae'n debyg y bydd nifer o blant yn aros yn y CGB am eu plentyndod cyfan. Bydd y plant hyn felly yn tyfu i fyny yn y grŵp lleoliad cychwynnol ac mae'n bosibl, y gellid eu hystyried, petai hynny'n briodol, i gymryd tenantiaeth y CGB unwaith y maent yn dod i oed a bod yr asesiad Gwaith Cymdeithasol yn cefnogi hynny. Byddai lefel staffio'n gostwng i gwrdd ag anghenion y person ifanc.

Byddai trosglwyddo'r denantiaeth i un neu'r ddau o'r bobl ifanc hefyd yn gostwng y risg y gallai'r CGB ddod yn 'nodwedd barhaol' mewn cymuned a byddai hefyd yn caniatáu i'r person ifanc barhau i fyw yn y gymuned honno, gan gymryd mantais lawn o'r rhwydweithiau cymorth y byddant wedi eu datblygu dros y blynyddoedd.

Rhaid cydnabod bod gan y mwyafrif o'r plant sydd wedi ei lleoli mewn gofal preswyl ar hyn o bryd anghenion gofal arbennig. Gall y rhain gynnwys anghenion iechyd a datblygiadol, anghenion addysgol arbennig ac anghenion emosiynol sy'n cael eu hadlewyrchu yn eu hanawsterau ymlyniad a'u problemau ymddygiadol. Eto, dylid ystyried rheoli anghenion y plentyn unigol o fewn cyd-destun y grŵp, er enghraifft, ni fyddai'n gwneud synnwyr i leoli nifer o blant gyda phroblemau ymddygiadol difrifol hefo'i gilydd. Byddai'n well i'r plant hyn fod mewn lleoliadau ble gall patrymau ymddygiad positif gael eu cefnogi gan staff nad ydynt wedi eu llethu gyda gormod o alwadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd.

Byddai angen staffio CGB yn unol â gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru a byddai angen i'r staff hyn fod yn staff newydd, h.y. nid oes capasiti i ryddhau staff cyfredol i weithio yn y

CGB.

**Eiddo CGB**

Byddai'r mathau o eiddo y byddai eu hangen i greu CGB yn dod o'r 'stoc' gyfredol sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn. Y ffactor pwysicaf fydd lleoliad y CGB o ran mynediad i wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cludiant. Byddai angen sefydlu'r CGB yn gadarn yn y gymuned leol fel na fyddai modd gwahaniaethu rhyngddo a chartrefi eraill yn yr ardal leol.

Yr ystyriaeth bwysicaf ar gyfer unrhyw eiddo a argymhellir ar gyfer CGB yw faint o le byw sydd ar gael ac a oes lle ynddo ar gyfer hyd at ddau o blant ynghyd â chyfleusterau ar gyfer y staff sydd eu hangen i'w cefnogi.

Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw'r eiddo.

Mae cartrefi posibl o eiddo'r Awdurdod Lleol wedi cael eu clustnodi ar gyfer eu haddasu'n CGB. Byddai angen addasu'r eiddo i'w i gwrdd ag anghenion unigol y plant a fyddai'n byw ynddynt.

**Costau ac Arbedion**

Mae papur sgopio wedi cael ei baratoi gan ymgynghorydd allanol sydd wedi edrych ar yr holl gostau a goblygiadau. Byddai angen cofrestru'r CGB er mwyn i'r cartrefi fedru gweithredu.

Byddai'r Awdurdod Lleol yn gwneud arbedion sylweddol petai CGB yn cael eu datblygu. Mae'r diffyg darpariaeth ar hyn o bryd a'r angen i leoli plant yn all-sirol yn costio swm sylweddol o arian i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Drwy ddatblygu CGB a chadw plant ar yr ynys neu sicrhau eu bod yn gallu dychwelyd yma, byddai'r gost fesul plentyn yn lleihau'n sylweddol.

Mae'r model ariannol isod wedi cael ei gynhyrchu gan y Gwasanaeth a'r Adran Gyllid ac mae'n seiliedig ar dybiaethau allweddol y Gwasanaeth, sef:

- Ar hyn o bryd, mae cost flynyddol lleoliad preswyl All-sirol ar gyfartaledd fesul plentyn yn £212,744;
- Bydd y Gweithwyr Cymorth yn cael eu cyflogi ar raddfa 4 yr Awdurdod Lleol;
- Bydd 1 Gweithiwr ar gael 24 awr y dydd a bydd ail weithiwr hefyd ar gael yn ystod yr adegau hynny y bydd y plant gartref (fel arall, bydd 1 gweithiwr yn ddigonol). Mae hyn yn seiliedig ar y strwythur staffio a ffafrir gan y Gwasanaeth;

- Bod cofrestriad wedi'i drefnu a bod y CGB cyntaf yn agor ei ddrysau ar 1 Ebrill 2019.

Petai'r tybiaethau allweddol yn newid, câi hynny effaith ar y costiadau:

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif o Gost Flynyddol CGB ar gyfartaledd | £279,765.11 |
| Cyfanswm y Gost Flynyddol fesul Lleoliad (2 yn y lleoliad) | £139,882.55 |
| Cost flynyddol lleoliad all-sirol ar gyfartaledd | £212,744.18 |
| **Arbediad Blynyddol Posibl fesul Lleoliad** | **£72,861.63** |

Mae'r ffigyrau canlynol yn seiliedig ar ddatblygu 2 CGB a fydd yn gartref i 2 o blant ym mhob un.

| **Arbedion Posibl ar gyfer CGB 2019 / 2020** |
|---|
| £73k o arbediad fesul plentyn a £30k o gost sefydlu ar gyfer pob CGB.<br><br>Yn seiliedig ar sefydlu 2 x CGB o 01/04/19:<br><br>Arbediad = Arbediad cost fesul plentyn – costau sefydlu.<br><br>= (£72,862 x 4) - (£30,000 x 2)<br><br>= £291,448 - £60,000<br><br>**= £231,448 o arbedion yn ystod Blwyddyn 1**<br><br>Bydd y gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal am 2019/2020 yn cael ei gostwng gan y swm hwn i adlewyrchu'r arbedion refeniw y gellir eu gwneud yn ystod Blwyddyn 1. |

| **Arbedion Posibl ar gyfer CGB 2020 / 2021** |
|---|
| £73k o arbediad fesul plentyn a £30k o gost sefydlu ar gyfer pob CGB.<br><br>Yn seiliedig ar sefydlu 2 x CGB o 01/04/20:<br><br>Arbediad = Arbediad cost fesul plentyn – costau sefydlu + 19/20 costau sefydlu *<br><br>= (£72,862 x 4) - (£30,000 x 2) + (£30,000 x 2) |

= £291,448 - £60,000 + £60,000

= **£291,448 o arbedion yn ystod Blwyddyn 2 (yn ychwanegol at arbediad o £231,448 yn ystod Blwyddyn 1).**

Bydd y gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael ei gostwng gan y swm hwn yn 2020/2021 i adlewyrchu'r arbediad refeniw pellach y bydd modd ei wneud yn ystod Blwyddyn 2.

** Sylwer bod arbediad ychwanegol o £60,000 i'w wneud yn ystod Blwyddyn 2 mewn perthynas â'r ddau CGB cyntaf i'w sefydlu yn 2019/2020 (oherwydd nad oes angen prynu dodrefn, ceir ac ati ar gyfer y CGB hyn yn yr ail flwyddyn).*

Mae angen hefyd i ni gadw mewn cof y bydd yr arbedion fesul plentyn o Flwyddyn 1 yn parhau i Flwyddyn 2 a'r dyfodol.

**Cyfanswm yr arbedion dros y ddwy flynedd gyntaf = £231,448 + £291,448 = £522,896**

Oni fydd unrhyw CGB pellach yn cael eu sefydlu yn ystod Blwyddyn 3, bydd cyfanswm yr arbediad refeniw ar gyfer y prosiect =

Arbediad = Arbedion fesul plentyn

= £72,862 x 8

**= £582,896**

Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n llawn erbyn 2021/2022 pan na fydd unrhyw gostau sefydlu ar gyfer y 4 CGB.

**<u>Argymhellion</u>**

- Argymhellir bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion fynd yn eu blaenau i chwilio am lety addas a bodloni gofynion Cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn agor darpariaeth Cartref Grŵp Bychan ar yr Ynys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oes unrhyw opsiynau eraill wedi cael eu hystyried hyd yma oherwydd ystyrir mai'r ddarpariaeth CGB yw'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau gofal preswyl amgen ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd mae angen eu caniatâd fel y gall y Gwasanaethau Plant ac Oedolion ymgeisio am gofrestriad a rhyddhau cyllid fel y gellir addasu stoc dai gyfredol yr Awdurdod Lleol yn CGB. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwywyd hyn gan yr UDA ar 22 Hydref 2018. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Amherthnasol |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 26 Tachwedd 2018 |
| **Pwnc:** | Pecyn Maethu ar gyfer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr y Rhaglen Drawsnewid, Gwasanaethau plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Mae’n berthnasol i’r holl Aelodau |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Mae’r Cyngor yn ceisio recriwtio a dal gafael mewn mwy o Ofalwyr Maeth fel bod mwy o leoliadau ar gael i gwrdd â’r galw cynyddol am leoliadau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Ar hyn o bryd, mae’r Cyngor mewn rhai enghreifftiau yn lleoli plant gyda Gofalwyr Maeth drwy asiantaethau preifat, ac o ganlyniad mae’r Cyngor yn talu premiwm oherwydd bod yna ddim digon o Ofalwyr Maeth ar rhestr y Cyngor i gwrdd â’r galw. Mae hyn yn golygu bod y lleoliadau’n ddrutach. Os gall y Cyngor gynnig pecyn mwy cystadleuol o ran lwfansau a buddion, rydym yn disgwyl y bydd yn haws recriwtio Gofalwyr Maeth ar gyfer y Cyngor a daw hyn ag arbedion.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen buddsoddiad fel y gellir darparu pecyn o fuddion mwy cynhwysfawr i Ofalwyr Maeth gan ystyried yr isod:

- Cynyddu’r Lwfans Maethu;
- Disgownt yn y Dreth Gyngor;
- Cerdyn Aelodaeth am ddim ar gyfer Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn;
- Tocyn parcio am ddim gan y Cyngor.

**Cynyddu’r Lwfans Maethu**

Un o’r rhesymau pam fod Gofalwyr Maeth yn dewis maethu i asiantaethau preifat yw oherwydd bod yr asiantaethau hynny’n talu’n well. Mae’n anodd i’r Cyngor gystadlu yn erbyn y cyfraddau yma, ond drwy gynyddu’r Lwfans Maethu (ond nid yr elfen Taliad ar gyfer Sgiliau), dylai hyn ddenu mwy o Ofalwyr Maeth i faethu i’r Cyngor. Deuai hynny ag arbedion (gwelir y dadansoddiad isod).

Isod, ceir dadansoddiad o’r costau yn seiliedig ar gynnydd o **10%** yn y Lwfans Maethu (ond nid y Taliadau Am Sgiliau). Byddai hynny’n cynyddu’r gost flynyddol ar gyfer Gofalwyr Maeth cyfredol y Cyngor fel a ganlyn:

| |
|---|
| Oedran 0-4 = 9 o blant x (**10%** x £175) x 52.14 = £8,212 |
| Oedran 5-10 = 24 o blant x (**10%** x £159) x 52.14 = £19,897 |
| Oedran 11-15 = 19 o blant x (**10%** x £179.78) x 52.14 = £17,810 |
| Oedran 16+ = 5 o blant x (**10%** x £218.16) x 52.14 = £5,687 |
| Y gost flynyddol ychwanegol ar gyfer Gofalwyr Maeth cyfredol y Cyngor fyddai **£51,606.** |

Rydym yn talu **£790** yr wythnos ar gyfartaledd am leoliad gydag Asiantaeth Faethu Annibynnol.

Rydym yn talu **£256** yr wythnos ar gyfartaledd am leoliad gyda Gofalwyr Maeth y Cyngor.

Yr arbedion drwy ddarparu Gofalwyr Maeth ein hunain ar gyfartaledd ydi **£534** fesul lleoliad, fesul wythnos.

Petai 6 o blant yn trosglwyddo o leoliad gydag Asiantaeth Faethu Annibynnol bob blwyddyn:

Arbedion fesul blwyddyn = (nifer y plant sy’n trosglwyddo x yr arbediad fesul plentyn) – cost ychwanegol fesul plentyn sydd gyda Gofalwyr Maeth y Cyngor eisoes)

= 6 o blant x (£534) x 52.14 o wythnosau - £51,606

= £167,057 - £51,606

**= £115,451 y flwyddyn**

**Disgownt y Dreth Gyngor**

Byddai rhoddi disgownt yn y Dreth Gyngor i Ofalwyr Maeth hefyd yn anogaeth gref iddynt faethu i'r Cyngor. Mae Awdurdodau Lleol eraill wedi cychwyn cynnig hyn.

Ar hyn o bryd, mae 42 o aelwydydd Gofalwyr Maeth yn yr Awdurdod Lleol (a chyfanswm 0 75 o Rieni Maeth rhwng y 42 aelwyd). Mae'r ffigyrau canlynol yn seiliedig ar gynnig gostyngiadau o 25%, 50% a 100% yn y Dreth Gyngor ac yn edrych ar yr arbedion fel petai 6 o blant yn trosglwyddo i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol o asiantaethau preifat:

Byddai rhoi disgownt o **25%** i bob aelwyd Gofalwyr Maeth (ar ben y cynnydd uchod o 10%) yn golygu colled incwm i'r Cyngor o **£12,405** y flwyddyn yn seiliedig ar y gwaith manwl a wnaed gan Dîm Refeniw a Budd-daliadau.

Byddai hyn yn gostwng ffigwr yr arbedion i **£103,046** y flwyddyn yn seiliedig ar 6 o blant yn trosglwyddo.

Byddai rhoi gostyngiad o **50%** i bob aelwyd Gofalwyr Maeth (ar ben y cynnydd uchod o 10%) yn golygu colled incwm i'r Cyngor o **£24,801** y flwyddyn yn seiliedig ar y gwaith manwl a wnaed gan Dîm Refeniw a Budd-daliadau.

Byddai hyn yn gostwng ffigwr yr arbedion i **£90,641** y flwyddyn yn seiliedig ar 6 o blant yn trosglwyddo.

Byddai rhoi gostyngiad o **100%** i bob aelwyd Gofalwyr Maeth (ar ben y cynnydd uchod o 10%) yn golygu colled incwm i'r Cyngor o **£49,620** y flwyddyn yn seiliedig ar y gwaith manwl a wnaed gan Dîm Refeniw a Budd-daliadau.

Byddai hyn yn gostwng ffigwr yr arbedion i **£65,831** y flwyddyn yn seiliedig ar 6 o blant yn trosglwyddo.

Byddai unrhyw ddisgownt y cytunir arno yn golygu newid i Bolisi Eithrio'r Dreth Gyngor y Cyngor sydd wedi'i gymeradwyo yn unol ag Adran 13(1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Wrth gymeradwyo'r Polisi Eithrio'r Dreth Gyngor fe ddirprwyodd y Cyngor Sir y pŵer i'r Pwyllgor Gwaith i allu diddymu, ail-ddechrau neu ddiwygio'r Polisi. Ystyrir y newid hwn yn ddiwygiad i'r polisi.

Penderfynodd y Cyngor hefyd i ddirprwyo'r penderfyniad i benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan Adran 13 (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992 i'r Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Byddai felly'n benderfyniad i'r swyddog dirprwyedig i

awdurdodi'r disgownt i'r Gofalwyr Maeth unigol.

Byddai'n rhaid i'r gost o'r opsiwn a ddewisir gael ei thalu gan y Cyngor a bydd angen trosglwyddiad cyllideb o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i'r Gyllideb Eithrio Talid Disgresiwn.

**Cerdyn Aelodaeth am ddim i ddefnyddio Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn**

Mae hyn eisoes wedi'i gynnig ac mae nifer o Ofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol wedi manteisio arno yn ystod yr haf. Mae'n rhoi mynediad i Ofalwyr Maeth a phlant sy'n derbyn gofal i weithgareddau hamdden a chwaraeon mewn unrhyw un o'r canolfannau hamdden ar yr ynys am bris gostyngol. Fel aelodau, gallant hefyd fanteisio ar gynigion eraill, megis sesiynau nofio am ddim i deuluoedd. Ynghyd â sicrhau arbedion, mae hyn hefyd yn hyrwyddo iechyd a lles Gofalwyr Maeth a'r plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r cerdyn yn ddilys am 12 mis a bydd adolygiad o'r cynnig yn ystod haf 2019. Hyd yma, mae 38 o Ofalwyr Maeth wedi derbyn cerdyn aelodaeth.

O ran costau, byddai rhoi Cerdyn Aelodaeth Hamdden am ddim i bob Gofalwr Maeth yn golygu'r golled isod (yn fras) o ran incwm:

= (Cost y Cerdyn x Nifer y Gofalwyr Maeth) + (Disgownt fesul sesiwn x nifer y sesiynau a fynychir gan Ofalwyr Maeth)

= (£20 x £75) + disgownt ar sesiynau

**= £1,500 y flwyddyn** + disgownt ar sesiynau

Ychydig iawn o effaith gâi hyn ar yr incwm gwirioneddol i'r Cyngor oherwydd nid oedd gan nifer o'r Gofalwyr Maeth gerdyn aelodaeth cyn y cynnig hwn ond gall hefyd fod yn fodd o annog pobl i wario yn y canolfannau hamdden – yn y caffis a'r canolfannau'n gyffredinol.

**Tocyn Parcio am ddim ym Meysydd Parcio'r Cyngor**

Cynnig arall a allai fod yn atyniadol i Ofalwyr Maeth fyddai rhoi tocyn parcio am ddim ar gyfer meysydd parcio'r Cyngor i bob un o Ofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol. Isod, ceir dadansoddiad o'r costau, yn seiliedig ar y gost flynyddol o £170 am docyn parcio gyda'r Cyngor:

Byddai rhoi Tocyn Parcio'r Cyngor am ddim i bob Gofalwr Maeth yn golygu colli incwm fel a ganlyn (yn fras):

= Cost y Tocyn x Nifer y Gofalwyr Maeth

= £170 x 75

= **£12,750** y flwyddyn

Ychydig iawn o effaith gâi hynny ar incwm gwirioneddol i'r Cyngor oherwydd hyd y gwyddom, nid oes gan lawer o'r Gofalwyr Maeth gofyn parcio gyda'r Cyngor ar hyn o bryd.

**Buddion Ychwanegol ar gyfer Gofalwyr Maeth (gan gynnwys y rheiny sy'n trosglwyddo o'r sector preifat)**

Byddai'r holl fuddion ychwanegol a amlinellir yn y papur hwn ar gael i'n Gofalwyr Maeth cyfredol sydd â chontract gyda'r Cyngor. Byddai unrhyw Ofalwyr Maeth sydd â chontract gydag asiantaethau preifat ar hyn o bryd ac a fyddai'n penderfynu maethu'n uniongyrchol i'r Cyngor, hefyd yn elwa.

Byddai'r pecyn cyfan, gan ddibynnu ar ei gynnwys, yn cynnig yr anogaeth ariannol ganlynol bob blwyddyn:

- Cynnydd yn y Lwfans Maethu – cynnydd blynyddol o £1,335 fesul plentyn;
- Disgownt yn y Dreth Gyngor – 25% yn arwain at arbediad o £295 y flwyddyn i bob aelwyd, 50% at arbediad o £590 a 100% at arbediad o £1,180;
- Cerdyn Aelodaeth am ddim ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden – budd o £20 y flwyddyn
- Tocyn i barcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor – budd o £170 y flwyddyn

Mae'r pecyn cyfan werth o leiaf **£1,820** y flwyddyn (a fyddai'n cynyddu gyda phob plentyn ychwanegol, nifer y ceir ar yr aelwyd ac yn dibynnu ar faint o ostyngiad Treth Gyngor a gynigir).

**Argymhellion**

➢ Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynnig pecyn mwy atyniadol i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol. Bydd y pecyn yn cynnwys:

i. cynnydd o 10% yn y Lwfans Maethu;
ii. 50% o ddisgownt Treth Gyngor;
iii. awdurdodi diwygiad i Bolisi Eithrio'r Dreth Gyngor er mwyn adlewyrchu'r disgownt

a ganiateir i Ofalwyr Maeth;
iv. cardiau Aelodaeth am ddim ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden yn Ynys Môn;
v. tocyn i barcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor;
vi. awdurdodi'r trosglwyddiad angenrheidiol o gyllideb o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd er mwyn talu costau'r buddion ychwanegol sy'n disgyn ar gyllidebau gwasanaethau eraill.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**Gofalwyr Maeth Cyflogedig**
Rydym wedi ystyried cyflogi Gofalwyr Maeth ond wedi ymchwilio i hyn a edrych ar lwyddiant Awdurdodau Lleol eraill, ni fyddai hwn yn opsiwn ariannol hyfyw. Ystyriwyd hyn ar gyfer Gofal Maeth sy'n edrych ar ôl plant heriol ac sydd â'r lefel uchaf o sgiliau ac sy'n derbyn y taliadau uchaf. O'r herwydd, ni argymhellir cael Gofalwyr Maeth cyflogedig.

**Ceir ar Brydles**
Rydym hefyd wedi ystyried cynnig Ceir ar Brydles i Ofalwyr Maeth. Wedi derbyn dyfynbrisiau gan gwmni prydlesu ceir, dengys ffigyrau y byddai darparu ceir ar brydles i Ofalwyr Maeth yn costio oddeutu **£2,653.56** fesul car bob blwyddyn. Petai'r cyfan o'r Gofalwyr Maeth yn manteisio ar y cynnig hwn, byddai'n costio oddeutu **£111,449.52** y flwyddyn i'r Cyngor ac ni fyddai hynny'n opsiwn cost-effeithlon.

Hefyd, byddai goblygiadau treth i Ofalwyr Maeth oherwydd byddai cost y car ar brydles yn 'fudd-o-fath' ac efallai na fyddai'n ariannol hyfyw iddynt.

Rydym wrthi'n adolygu faint mae ein Gofalwyr Maeth yn ei wario ar deithio er mwyn gweld a fyddai hyn yn gymwys dan delerau'r contract. Rydym wedi edrych i mewn i rai achosion ble mae Gofalwyr Maeth penodol yn hawlio am nifer uchel o filltiroedd ond hyd yn oed wedyn, mae'r gost o ddarparu car ar brydles yn uwch na'r ceisiadau am gostau teithio ac ni fyddai'n arwain at unrhyw arbedion. O'r herwydd, ni argymhellir darparu ceir ar brydles ar gyfer Gofalwyr Maeth.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith oherwydd mae rhai goblygiadau cost ynghlwm wrth y cynnig. Fodd bynnag, dylai'r costau hyn arwain at arbedion yn y tymor hwy

| |
|---|
| oherwydd wrth ddenu mwy o Ofalwyr Maeth, bydd mwy o blant yn cael eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol yn hytrach na gyda Gofalwyr Maeth preifat. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwywyd hyn gan yr UDA ar 22 Hydref 2018. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro a Chyfreithiwr Contractau wedi cael eu ymgynghori ac mae eu sylwadau nhw wedi cael eu hadeiladu i fewn i'r adroddiad yma. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | d/b |
| **5** | **Eiddo** | d/b |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | d/b |
| **7** | **Caffael** | d/b |
| **8** | **Sgriwtini** | d/b |
| **8** | **Aelodau Lleol** | d/b |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | d/b |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | d/b |
| **2** | **Gwrthdlodi** | d/b |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | d/b |
| **4** | **Amgylcheddol** | d/b |
| **5** | **Cydraddoldebau** | d/b |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | d/b |
| **7** | **Arall** | d/b |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| d/b |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **26/11/18 a 11/12/18** |
| **Pwnc:** | **Datganiad Polisi Gamblo 2019-2022** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams**<br>**Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Sion Hughes**<br>**752843**<br>**slhpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo ar gyfer 2019-2022.<br><br>Yn unol â Deddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad o Bolisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo. Mae'r polisi drafft wedi cael ei gynhyrchu'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar ffurf a chynnwys y Polisi. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo. Nid oes unrhyw opsiwn arall ar gael. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor oherwydd mae'r polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. Mae'n ffurfio rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogol i'r cynnwys |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Ceir rhestr o gyrff y mae'n rhaid ymgynghori â nhw yn Atodiad 2 y polisi drafft sydd ynghlwm. Nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Cymuned Llanidan unrhyw sylwadau. Nid oedd gan Gambling Aware unrhyw adborth ond roedd yn cyfeirio at ganllawiau'r Cymdeithasau Llywodraeth Leol ynghylch gamblo ac roedd y rheiny wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r polisi drafft. Awgrymodd y Comisiwn Gamblo y dylai copi o'r asesiadau risg lleol ar gyfer eiddo fod ar gael ynddynt ac mae hynny wedi cael ei fabwysiadu yn y polisi drafft. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill. |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Polisi Gamblo – Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005, 2019-2022 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Polisi Gamblo

Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005

2019 – 2022

Cynnwys


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Egwyddorion Sylfaenol | 5 |
| 3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu | 5 |
| 4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant | 6 |
| 5. Pennu Buddgyfranogwyr | 6 |
| 6. Cyfnewid Gwybodaeth | 7 |
| 7. Archwilio ac Achosion Troseddol | 8 |
| 8. Ffactorau Perthnasol wrth ystyried Ceisiadau ac Adolygiadau | 9 |
| 9. Gwneud Penderfyniadau | 13 |
| 10. Datganiad ynghylch Penderfyniadau am Gasinos | 17 |
| 11. Cyfundrefnau Rheoliadol Eraill | 17 |
| 12. Y Galw am Safleoedd Hapchwarae | 17 |
| 13. Gwybodaeth Ychwanegol | 17 |
| 14. Asesiadau Risg Lleol | 18 |
| 15. Declarasiwn | 20 |
| 16. Atodiadau | 21 |
| 1. Map | 21 |
| 2. Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy | 22 |
| 3. Cynllun dirprwyo | 23 |
| | |

## 1. Cyflwyniad

Mae Ynys Môn yng Ngogledd-orllewin Cymru. Tir isel yw'r rhan fwyaf o'r ynys ac mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar yr arfordir. Mae llawer o ymwelwyr yn cael eu denu i'r ynys, gan wneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn bwysig yma ac mae'n rhan hanfodol o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Dengys Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 69,769 gyda 30,600 o aelwydydd. Y dref fwyaf yw Caergybi ac mae mwyafrif yr aneddiadau mwyaf sylweddol ar yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf nad yw ar yr arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol cryf ag Iwerddon drwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sydd yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd, a rheilffordd arfordir Gogledd Cymru, yn cysylltu'r ardal â gweddill y Gogledd a'r Deyrnas Gyfunol. Darperir map o'r Sir yn Atodiad 1.

Deddf Gamblo 2005 (y **"Ddeddf"**) sy'n rheoli pob darpariaeth ar gyfer gamblo yng ngwledydd Prydain, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol a betio lled. Cafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005.

Fe sefydlodd y Ddeddf y Comisiwn Gamblo (y **"Comisiwn"**) sydd â chylch gwaith cenedlaethol, yn ogystal â nifer o reoleiddwyr lleol sef yr Awdurdodau Trwyddedu. Y Comisiwn sydd yn rheoleiddio gamblo masnachol yng ngwledydd Prydain mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Trwyddedu. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn (y **"Cyngor"**) gyfrifoldebau fel Awdurdod Trwyddedu ac felly mae arno amryw o rwymedigaethau o dan y Ddeddf.

Mae'r Comisiwn yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredwyr a materion sydd o bwys yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Yr Awdurdodau Trwyddedu fydd fel rheol yn arwain o ran rheoleiddio gamblo yn lleol. Gall y Comisiwn a'r Awdurdodau Trwyddedu hefyd gydweithio'n uniongyrchol ar rai materion penodol.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer tri chategori o drwydded:

(i) Trwyddedau gweithredu

(ii) Trwyddedau personol

(iii) Trwyddedau eiddo

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi hawlenni i rai sefydliadau nad oes arnynt angen trwydded eiddo, ynghyd â nifer o ddarpariaethau penodol eraill gan gynnwys rhoi hawlen i safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol, i osod niferoedd cyfyngedig o fathau penodol o beiriannau hapchwarae ar y safle.

Y Comisiwn sydd yn gyfrifol am roi Trwyddedau Gweithredu a Thrwyddedau Personol.

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am roi trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

Neuaddau bingo;

Safleoedd betio (gan gynnwys traciau);

Canolfannau hapchwarae i oedolion; a

Chanolfannau adloniant teuluol;

am roi hawlenni ar gyfer:

Canolfannau adloniant teuluol didrwydded;

Clybiau;

Safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol; a

Hapchwarae am wobrau;

ac am

weinyddu gosod Peiriannau Hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol (lle nad yw'r peiriannau hynny yn rhan o'r drefn ar gyfer rhoi trwyddedau neu hawlenni)

Mae'r rhestr uchod yn nodi rhai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf ond nid yw'n rhestr orfodol.

Datganiad o Egwyddorion

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi datganiad o'r egwyddorion y bwriada'r Cyngor eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Gamblo (y **"Polisi Gamblo"**) yn unol â'r gofyniad hwnnw.

Paratowyd y Polisi Gamblo gan ystyried darpariaethau'r Ddeddf, is-reoliadau, canllawiau a roddwyd i awdurdodau trwyddedu gan y Comisiwn, a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Darperir rhestr lawn yn Atodiad 2 o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi'r Polisi Gamblo.

Daw'r Polisi Gamblo i rym ar y dyddiad y'i mabwysiedir gan y Cyngor ac fe'i hadolygir yn ôl yr angen ond o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu ymlaen.

Mae'r Polisi Gamblo yn amodol ar newidiadau i'r statud. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Polisi Gamblo hwn a deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol perthnasol, bydd y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau hynny yn drech na'r Polisi.

## 2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae'r Ddeddf yn sefydlu tri phrif amcan o ran trwyddedu: (yr **"Amcanion Trwyddedu"**):

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Bydd y polisi'n hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu hyn ac yn anelu i reoleiddio gamblo er budd y cyhoedd.

Wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor anelu i ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo ar yr amod bod y Cyngor o'r farn bod hynny:

- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn dangos cysondeb rhesymol â'r Amcanion Trwyddedu; ac
- yn unol â'r Polisi Gamblo hwn.

## 3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

Mae'r Cyngor fel Awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf:

- Trwyddedu safleoedd lle mae gweithgareddau gamblo'n cael eu cynnal drwy roi trwyddedau safle
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae mewn clybiau a pheiriannau mewn clybiau
- Derbyn hysbysiadau ar gyfer hyd at ddau beiriant hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol
- Rhoi hawlenni peiriant hapchwarae mewn safle trwyddedig lle bo safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol yn gofyn am fwy na dau beiriant
- Caniatáu peiriannau hapchwarae lle caiff symiau bach eu mentro, mewn canolfannau adloniant teuluol didrwydded
- Rhoi Hysbysiadau Dros Dro
- Cofrestru Loterïau Cymdeithasau Bychain
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae am wobrau
- Derbyn rhybuddion Defnydd Dros Dro
- Derbyn rhybuddion Defnydd Achlysurol

## 4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant

O dan Reoliadau (Datganiad Polisi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru a Lloegr) 2006 Deddf Gamblo 2005 (y **"Rheoliadau Polisi"**) mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sydd yn gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sydd yn cynnwys y cyfan o ardal yr Awdurdod Trwyddedu; a
- Yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd yn hytrach nag unrhyw grwpiau a fyddai'n cael budd eu hunain.

Gan hynny, mae'r Cyngor yn dynodi Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn i'r diben hwn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd efallai yn ddoeth i sefydliadau eraill gyflawni'r swyddogaeth hon os bydd y Cyngor yn credu mai dyna sydd yn iawn er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol i blant.

## 5. Pennu Buddgyfranogwyr

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 158 y Ddeddf i benderfynu a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo, neu mewn perthynas â chais ar gyfer neu mewn perthynas â thrwydded eiddo.

Mae'r Ddeddf yn diffinio unigolyn fel buddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo os yw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y gwneir y cais iddo:

- yn byw yn ddigon agos i'r safle i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
- yn meddu ar fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys hefyd, er enghraifft, gymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a phractisau meddygol; neu
- yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni un o'r diffiniadau uchod (er enghraifft Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid).

Lle bo unigolyn, ni waeth a yw'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan gais am Drwydded Eiddo neu a yw'n byw yn agos at yr eiddo lle gwnaed cais o'r fath neu beidio, yn cynnig ei hun i gynrychioli buddiannau rhai sy'n byw yn y cyffiniau, fe all yr Awdurdod Trwyddedu ofyn i'r unigolyn hwnnw ddarparu tystiolaeth briodol ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd i rywrai eraill.

Pan ystyrir a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr ai peidio, bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol gan gynnwys y rhai a gynhwysir yng Nghanllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Ni fydd y Cyngor yn ceisio pennu rheol sefydlog o ran pwy sy'n gymwys o dan yr amodau uchod ond mae o'r farn y bydd yn rhaid ystyried pob achos yn unol â'r ffeithiau penodol a barnu pob achos yn ôl ei deilyngdod.

Pan gyfeirir yn y Polisi Gamblo hwn at **"Fuddgyfranogwr"** cyfeirio a wneir at yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod yn fuddgyfranogwyr mewn perthynas â'r amgylchiadau perthnasol yn unol â'r polisi uchod.

## 6. Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r Rheoliadau Polisi yn mynnu bod y Cyngor yn nodi pa egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor a'r Comisiwn, a'r swyddogaethau o dan adran 350 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor ac unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf.

Bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf pan gyfnewidir unrhyw wybodaeth, ac mae'n cydnabod nad oes dim yn y Ddeddf i awdurdodi datgeliad sydd yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 2018 na'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, 2018. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithredu'n unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, yn ogystal â rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf. Bydd yn mabwysiadu egwyddorion gwell rheoleiddio sef y dylid cynnal gweithgareddau rheoleiddiol mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson ac y dylid targedu'r gweithgareddau at yr achosion hynny yn unig lle mae angen gweithredu. Y nod yw hyrwyddo ffyrdd effeithlon ac effeithiol o archwilio a gorfodi at ddibenion rheoleiddiol, sydd yn gwella'r canlyniadau rheoleiddiol heb fod yn fwrn ar fusnesau yn ddianghenraid.

Mae'r Cyngor yn bwriadu i'w brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau fod yn dryloyw. I'r diben hwnnw, fe rennir yr holl sylwadau a wneir i'r Cyngor tra bo cais yn cael ei wneud ar gyfer Trwydded Eiddo â phawb sydd a wnelo â'r cais hwnnw (sef yr ymgeisydd, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw Fuddgyfranogwyr).

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth (gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 heb gyfyngiad) i'r graddau y mae deddfwriaeth o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor ac i'r wybodaeth dan sylw.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn bwriadu sefydlu protocolau ychwanegol mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth ond fe barheir i adolygu hyn. Os sefydlir unrhyw brotocolau o'r fath gyda chyrff eraill mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth yna fe sicrheir bod y polisïau hynny ar gael i'r cyhoedd.

Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd weithredu ei bwerau o dan adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 er mwyn cyfnewid data a gwybodaeth â'r heddlu a phartïon eraill (er enghraifft swyddog gorfodi, awdurdod trwyddedu, CThEM, y Tribiwnlys Haen Gyntaf a/neu yr Ysgrifennydd Gwladol) er mwyn cyflawni ei amcan statudol i leihau trosedd yn yr ardal.

## 7. Archwilio ac Achosion Troseddol

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adran 15 y Ddeddf o ran archwilio safleoedd; a'r pwerau o dan adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r troseddau a nodwyd yn yr adran honno.

Bydd y Cyngor yn dilyn arweiniad Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, Cod y Rheoleiddwyr a Pholisi Gorfodi'r Cyngor a bydd yn ystyried canllawiau'r Comisiwn ar bryniannau prawf pan ystyrir gwneud pryniannau prawf mewn safleoedd gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prawf-brynwyr sydd dan oed.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn ystyried gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth i'r Weithrediaeth ystyried swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i bwerau o dan y Ddeddf mewn perthynas â gorfodi, bydd y Cyngor yn ceisio:

- **Gweithredu mewn modd cymesur**: dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd angen yn unig; dylai'r dulliau datrys fod yn briodol i'r risg sy'n bodoli a dylid darganfod beth yw'r costau a'u cadw mor isel ag y bo'r modd.
- **Bod yn atebol**: bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a byddant yn cael eu harchwilio gan y cyhoedd.
- **Bod yn gyson**: bydd y rheolau a'r safonau yn gydgysylltiedig ac yn cael eu rhoi ar waith mewn modd teg.
- **Bod yn dryloyw**: bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ceisio cadw rheoliadau yn syml a hawdd eu deall.
- **Targedu gwaith gorfodi**: bydd y rheoleiddio'n canolbwyntio ar y broblem gan achosi cyn lleied o faich dianghenraid ag y bo modd i fusnesau.

Bydd safleoedd yn cael eu harchwiliadau rheolaidd yn unol â chynllun. Bydd amlder yr archwiliadau yn cael ei bennu yn unol â'r risg sy'n perthyn i'r safle h.y. bydd y safleoedd yr ystyrir eu bod yn peri risg mwy yn cael eu harchwilio'n amlach na'r rhai sy'n peri risg is.

Wrth bennu'r risg, fe ystyrir:

- natur y gweithgareddau gamblo sy'n cael eu cynnal yn y safle;
- lleoliad y safle mewn perthynas ag ysgolion ac ati; a'r
- y trefniadau a wnaed gan y rheolwyr er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu.

Efallai y cynhelir ymweliadau monitro ychwanegol, yn ôl doethineb tîm trwyddedu'r Cyngor, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion yr amcan trwyddedu neu os derbynnir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro i sicrhau nad oes unrhyw safleoedd didrwydded.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gydweithio â'r heddlu er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth drwyddedu. Mae'r ddeddfwriaeth yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth am drwyddedeion a safleoedd trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan y Cyngor bolisi gorfodi cyffredinol sydd yn unol â'r codau ymarfer a ddatblygwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac a fydd yn gymwys lle bo hynny'n briodol mewn perthynas â rheoli achosion troseddol.

Y Comisiwn yw'r corff gorfodi ar gyfer trwyddedau Gweithredu a Phersonol. Ni fydd pryderon ynghylch gwneuthuriad peiriannau hapchwarae, nac ynghylch eu cyflenwi na'u trwsio yn cael sylw gan y Cyngor ond fe ddylid hysbysu'r Comisiwn amdanynt.

## 8. Ffactorau perthnasol wrth ystyried ceisiadau ac adolygiadau

8.1 Ceisiadau

I wneud cais am Drwydded Safle, rhaid i unigolyn naill ai:

- ddal Trwydded Weithredu i'w awdurdodi i gynnal y gweithgaredd y ceisir Trwydded Safle ar ei gyfer; neu
- fod wedi gwneud cais am Drwydded Weithredu nad yw wedi cael ei benderfynu.

Gyda cheisiadau ar gyfer rhoi, trosglwyddo neu amrywio Trwydded Safle, mae'n rhaid cyflwyno asesiad sy'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, ar ffurf Cofrestr Weithredu ysgrifenedig. Gall yr Ymgeisydd ofyn i'r Cyngor ei gynghori ynghylch pa fath o wybodaeth sydd i'w darparu.

Pan wneir cais am Drwydded Safle newydd (neu amrywiad ar Drwydded Safle sy'n bodoli eisoes) mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd gynnal Asesiad Risg Lleol.

Bydd lefel y manylion sydd i'w darparu yn gymesur â graddfa a natur y cais a wneir.

Ystyrir pob cais yn unigol yn ôl ei deilyngdod ac yn unol â'r Ddeddf, y canllawiau perthnasol a'r Polisi Gamblo hwn.

8.2 Gwrthwynebu a Gwneud Sylwadau ac Adolygu Cais

Mae gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol yn ysgrifenedig ynglŷn â chais neu i ofyn i drwydded gael ei hadolygu.

Yr unig sylwadau sydd yn debygol o fod yn berthnasol yw rhai sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu neu sy'n codi materion o dan y Polisi Gamblo hwn.

Rhoddir ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai ei fod yn ddisylwedd neu'n flinderus. Ar sail y ffeithiau y penderfynir a yw sylw'n ddisylwedd neu'n flinderus ac fe benderfynir ar bob achos yn unigol.

Pan benderfynir ar gais i roi Trwydded Safle neu i adolygu trwydded safle, fe ystyrir pa mor agos yw'r safle at ysgolion, canolfannau ar gyfer oedolion agored i niwed, neu ardaloedd preswyl lle mae llawer o deuluoedd sydd â phlant.

Bydd y penderfyniad, a yw safle o'r fath yn agos iawn at y safle gamblo arfaethedig ai peidio, yn amrywio yn unol â maint a natur y safle gamblo dan sylw.

Mae Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a'r Amodau a'r Codau Ymarfer ar gyfer Trwyddedau yn nodi materion ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried wrth edrych ar geisiadau am Drwyddedau Safle.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn safle fel gweithgaredd ychwanegol i brif ddiben y safle (e.e. mannau gwasanaeth gerllaw ffyrdd a chanolfannau siopa), bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir a chael ei goruchwylio'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn unol â holl amgylchiadau'r achos.

Penderfynir pob achos yn ôl ei deilyngdod a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gamblo y cynigir ei gynnal yn y safle. Felly, os gall ymgeisydd brofi'n effeithiol sut y gellid datrys pryderon ynghylch yr Amcanion Trwyddedu, fe gaiff hynny ei ystyried.

8.3 Ystyriaethau Amherthnasol

Nid yw gwrthwynebiad moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle. Dylid nodi hefyd nad yw atal niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amcanion trwyddedu penodol (yn wahanol i'r sefyllfa o dan Ddeddf Trwyddedu 2003).

Yn unol â'r Ddeddf, pan benderfynir a ddylid rhoi Trwydded Safle ai peidio, ni fydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r galw disgwyliedig am y safle gamblo sydd yn destun y cais.

8.4 Amodau

Cymhwysir rhai amodau i Drwyddedau Safle yn rhinwedd y Ddeddf (a rheoliadau a wneir dan y Ddeddf). At hynny, mae gan y Cyngor bŵer dan y Ddeddf i osod amodau pan fydd yn rhoi Trwydded Safle.

Wrth weithredu'r pŵer hwn, rhaid i'r Cyngor roi sylw i'w gyfrifoldebau dan y Ddeddf ac i'r polisi a nodir yn y paragraff hwn. Wrth ystyried gosod amodau, bydd y Cyngor yn gwneud defnydd o'r cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn a bydd raid iddo ystyried amgylchiadau pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod.

Ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar Drwydded Safle oni bai fod y Cyngor yn ystyried bod amodau o'r fath yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur i'r defnydd o'r safle ar gyfer gamblo yn unol â'r Amcanion Trwyddedu, y canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn, codau ymarfer y Comisiwn a'r Polisi Gamblo hwn.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill hyd y bo modd ac fel rheol fe ystyrir nad oes angen amodau os yw'r Cyngor o'r farn bod y materion y bwriedir i'r amodau roi sylw iddynt eisoes yn cael eu trin yn ddigonol gan ddeddfwriaeth arall.

Ni roddir amodau heblaw er mwyn bodloni gofynion yr Amodau Trwyddedu. Bydd amodau yn rhai cymesur a byddant yn briodol ar gyfer:

- y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn dan sylw;
- graddfa'r gweithgaredd gamblo a nodir yn y cais; a'r
- risgiau a wêl y Cyngor.

Hyd y bo modd, bydd amodau a roddir ar Drwyddedau Safle yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd yn lleol. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol gosod camerâu cylch cyfyng mewn rhai safleoedd.

Pan ystyrir pa amodau sydd i'w rhoi ar drwyddedau, bydd y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn safle trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu yn gwneud pethau arferol yn yr ardal dan sylw.

Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn cydnabod, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, bod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad afreolus a all ddigwydd y tu allan i safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:

- rheolaeth gynllunio;
- mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant ac adrannau eraill y Cyngor;
- cydgysylltu'n rheolaidd â'r heddlu ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith o ran anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- pŵer yr heddlu, Awdurdodau Cyfrifol eraill neu Fuddgyfranogwr i wneud cais am gael adolygu'r Drwydded Safle.

8.5 Mynediad

Mae'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn nodi'r darpariaethau mynediad ar gyfer pob math o safle yng Nghymru a Lloegr.

Wrth adolygu cais, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw faterion sy'n ymwneud ag israniadau o fewn adeilad neu blot unigol a bydd yn sicrhau y cedwir at yr amodau gorfodol mewn perthynas â mynediad.

Yn y cyd-destun hwn, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau a ganlyn mewn perthynas â safle sy'n destun cais am Drwydded Safle:

- a yw'r safle wedi cofrestru ar wahân ar gyfer trethi busnes;
- perchnogaeth safleoedd cyfagos;
- a oes modd cael mynediad i safleoedd cyfagos o'r stryd neu dramwyfa gyhoeddus; ac
- ai dim ond o safle gamblo trwyddedig arall y gellir cael mynediad i'r safle.

Nodir isod ddarpariaethau perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle:

Casinos:
Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r safle fod o stryd. Yn y cyd-destun hwn mae "stryd" yn cynnwys unrhyw bont, ffordd, lôn, troedffordd, tanlwybr, sgwâr, cwrt, ale neu dramwy (gan gynnwys tramwy trwy safle caeedig fel rhodfa siopa), boed yn ffordd drwodd neu beidio.

Ni chaiff unrhyw fynediad i gasino fod o safle a ddefnyddir yn unig neu yn bennaf gan blant a/neu bobl ifanc.

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy'n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

Canolfan Hapchwarae i Oedolion:

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy'n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

Siopau Betio:

Mae'n rhaid i'r mynediad fod o stryd (gweler y diffiniad uchod) neu o set o safleoedd eraill sy'n destun Trwydded Safle ar gyfer betio.

Ni chaniateir mynediad uniongyrchol i siop fetio o safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau.

Traciau:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino; neu
- ganolfan hapchwarae i oedolion.

Safle Bingo:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Canolfan Adloniant Teuluol:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Ceir canllawiau pellach ar y mater hwn yn Rhan 7, Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y rheini hefyd wrth wneud penderfyniadau.

8.6 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Lle bo unigolyn yn bwriadu gweithredu sefydliad yn llwyr neu yn bennaf er mwyn cynnig peiriannau hapchwarae, ac nad oes gan y sefydliad Drwydded Safle berthnasol, gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r Cyngor am hawlen i weithredu Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded (ar yr amod y cydymffurfir â'r darpariaethau perthnasol a nodir yn y Ddeddf a'r rheoliadau a'r canllawiau perthynol i'r Ddeddf).

Ni ellir caniatáu cais am hawlen o'r fath oni bai fod y Cyngor yn fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded a rhaid i ymgynghoriad fod wedi ei gynnal ynghylch y cais â phrif swyddog yr heddlu.

Bydd yr ystyriaethau perthnasol ar gyfer y Cyngor pan ystyria a ddylid rhoi hawlen o'r fath yn cynnwys (yn ddigyfyngiad) addasrwydd yr ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw euogfarn a all olygu bod yr ymgeisydd yn anaddas i weithredu canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd y safle o ran lleoliad ac o ran materion yn ymwneud ag anhrefn.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw ymgeisydd am hawlen o'r fath fod wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau i amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn ni fydd niwed yn gyfyngedig i niwed oherwydd gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau ehangach mewn perthynas ag amddiffyn plant megis hyfforddi staff ar gyfer adegau pan amheuir triwantiaeth, a sut i drin plant nad oes neb yn eu gorchwylio, plant ifanc iawn, neu blant sy'n achosi anhrefn yn y safle ac o'i amgylch.

Dylai darpar ymgeiswyr roi sylw i'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf, y rheoliadau perthnasol a'r canllawiau perthnasol o ran pa gategorïau o beiriant hapchwarae y caniateir eu defnyddio mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddidrwydded (neu unrhyw sefydliad arall a drwyddedir neu a ganiateir mewn modd arall gan y Cyngor).

8.7 Loterïau Cymdeithasau Bychain

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau i redeg Loterïau Cymdeithasau Bychain. Dylai ymgeiswyr a gweithredwyr roi sylw i'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf ac i'r rhannau perthnasol o Ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Bydd yr Awdurdod yn dilyn trefn seiliedig ar risg wrth gyflawni ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain. Mae'r awdurdod hwn o'r farn y gallai'r rhestr isod, er nad yw'n rhestr orfodol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni'n hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni cyn pen tri mis wedi'r dyddiad pan dynnwyd y loteri);
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir; a
- mynd dros yr uchafsymiau ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain.

## 9. Gwneud Penderfyniadau

9.1 Dirprwyo Swyddogaethau

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor, neu un neu ragor o swyddogion y dirprwyir awdurdod iddynt, gyflawni rhai o bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu.

Ystyrir mai gweinyddol i raddau helaeth fydd llawer o'r swyddogaethau ac ni chredir y bydd dim cynhennus yn eu cylch. Er budd effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, cyflawnir y rhan fwyaf o'r rhain gan swyddogion.

Mae rhestr o'r swyddogaethau trwyddedu a sut y caniateir eu dirprwyo o dan y Ddeddf i'w gweld yn Atodiad 3.

9.2 Y Drefn Apelio

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y bydd gan ymgeiswyr, trwyddedeion a'r rhai sy'n gwneud sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu hawl mewn rhai achosion i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Cyngor: nodir hyn yn llawnach yn adran 206 y Ddeddf.

Er mwyn gwneud apêl, dylai'r apelydd roi rhybudd i Lys Ynadon Caernarfon, o fewn 21 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod pan hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

Wrth benderfynu'r apêl, gall y Llys:

- wrthod yr apêl;

- roi yn lle'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn, unrhyw benderfyniad arall y gallasai'r Cyngor ei wneud;
- cyfeirio'r achos i'r Cyngor, i ddelio â'r apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- gwneud gorchymyn ynglŷn â chostau.

### 9.3 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig a Chyfarfodydd Cymrodeddu

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig, mewn perthynas â materion sydd a wnelo â'r Amcanion Trwyddedu. I ddechrau, anogir achwynyddion i grybwyll y gŵyn yn uniongyrchol wrth y trwyddedai neu'r busnes dan sylw er mwyn ceisio datrys y mater yn lleol.

Lle bo Buddgyfranogwr wedi gwneud sylwadau dilys ynghylch safle trwyddedig neu gais dilys yn gofyn i Drwydded Safle gael ei hadolygu, gall y Cyngor argymell yn gyntaf fod cyfarfod cymrodeddu yn cael ei gynnal er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n peri pryder a chael goleuni arnynt.

Nid yw argymhelliad o'r fath yn rhwymo unrhyw barti ac ni fydd yn rhagfarnu hawl unrhyw Fuddgyfranogwr i fynnu bod y Cyngor yn ystyried ei sylwadau neu ei gais dilys na hawl unrhyw ddeilydd trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymrodeddu.

### 9.4 Adolygu Trwyddedau

Bydd y Cyngor yn adolygu Trwydded Safle os bydd yn derbyn cais ffurfiol i gynnal adolygiad o'r fath gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol yn unol â'r Ddeddf.

Gall cais o'r fath (ond nid oes raid iddo) gynnwys sylwadau i'r perwyl bod un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn wedi cael eu cynnal yn y safle neu yn cael eu cynnal yno:

- defnyddio safle trwyddedig er mwyn gwerthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu elw troseddau yn ymwneud â chyffuriau;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgaredd troseddol a drefnir;
- defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau sydd wedi eu smyglo;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau sydd wedi eu dwyn a/neu
- weithgareddau a all beri risg i blant a/neu unigolion agored i niwed.

Gall y Cyngor (ond nid oes raid iddo) wrthod cais am adolygiad os yw o'r farn bod un neu ragor o'r isod yn berthnasol:

- bod y sail yn ddisylwedd;
- bod y sail yn flinderus;
- bod y sail yn amherthnasol;
- ei bod yn sicr na fyddai'r sail yn peri i'r Cyngor ddiddymu neu atal trwydded na gosod na thynnu amodau oddi ar y Drwydded Safle;

- bod y sail fwy na heb yr un fath â'r sail a enwyd mewn cais blaenorol mewn perthynas â'r un safle; neu
- bod y sail fwy na heb yr un fath â sylwadau a wnaed pan ystyriwyd y cais am Drwydded Safle.

Gall y Cyngor hefyd ddewis adolygu Trwydded Safle yn ôl ei ddoethineb ei hun.

Unwaith y bydd adolygiad wedi ei gwblhau, mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted ag y bo modd, roi gwybod am ei benderfyniad i:

- ddeilydd y drwydded;
- y sawl a wnaeth gais am adolygiad (os yn berthnasol);
- y Comisiwn
- unrhyw unigolyn a wnaeth sylwadau;
- Prif Swyddog yr Heddlu; a
- Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

9.5 Adnewyddu

Atgoffeir y rhai sy'n dal hawlenni 10 mlynedd ar gyfer hapchwarae mewn clybiau, peiriannau mewn clybiau a chanolfannau adloniant teuluol didrwydded, fod cyfnod adnewyddu'r hawlenni hyn yn dod i fyny o 2017 ymlaen. Cyfrifoldeb deiliaid yr hawlenni yw sicrhau y gwneir cais mewn da bryd.

9.6 Hawlenni hapchwarae mewn clybiau a hawlenni peiriannau mewn clybiau

Ni chaiff yr awdurdod wrthod cais heblaw am un neu ragor o'r rhesymau a ganlyn:

(a) (i) ar gyfer **hawlen hapchwarae mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau nac yn sefydliad lles glowyr

(ii) ar gyfer **hawlen peiriannau mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau, sefydliad lles glowyr na chlwb masnachol

(b) bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan blant neu bobl ifanc

(c) bod ymgeisydd wedi cyflawni trosedd neu wedi torri un o amodau'r hawlen

(ch) bod hawlen y bu ymgeisydd yn ei dal wedi cael ei chanslo yn ystod y deng mlynedd diwethaf

(d) bod y Comisiwn neu brif swyddog yr heddlu yn lleol wedi mynegi gwrthwynebiad.

Ni chaiff yr awdurdod ganslo hawlen heblaw am un o'r rhesymau a ganlyn:

(a) bod y safle'n cael ei ddefnyddio yn llwyr neu yn bennaf gan blant neu bobl ifanc

(b) bod trosedd wedi ei chyflawni neu y torrwyd un o amodau'r hawlen yn ystod gweithgareddau hapchwarae.

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau dri mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen chwe wythnos cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Gall hawlenni a roddwyd fynd yn ddi-rym mewn rhai amgylchiadau a gallant gael eu canslo a'u hamrywio.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

Os bydd gan yr ymgeisydd dystysgrif safle clwb ar yr adeg pan adnewyddir hawlen, fe ddilynir y drefn llwybr carlam, fel sy'n digwydd pan ymgeisir am yr hawlen i ddechrau.

### 9.7 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Ni chaiff yr awdurdod wrthod adnewyddu hawlen heblaw ar y sail:

- y gwrthodwyd mynediad i un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol i'r safle heb esgus rhesymol
- na fyddai adnewyddu'r hawlen yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor wedi manteisio ar ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu a bydd yn ymwybodol o unrhyw bryderon sydd wedi codi ynghylch y defnydd o'r safle yn ystod cyfnod yr hawlen.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

### 9.8 Hawlenni hapchwarae am wobrau

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais.

Ni fydd hawlen yn peidio â bod yn ddilys tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

## 10 Datganiad ynghylch penderfyniadau am gasinos

Nid oes ar hyn o bryd unrhyw gasino'n gweithredu o fewn y Sir.

Mae trwyddedu casinos newydd yn cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol iddi. Nid yw'r Cyngor yn un o'r Awdurdodau Trwyddedu sydd â phwerau i roi Trwyddedau Safle ar gyfer casinos.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn i bob Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau safle ar gyfer casinos.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd wedi gwneud penderfyniad o'r fath i wahardd casinos.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu mater Trwyddedau Safle ar gyfer casinos ac fe all newid ei bolisi mewn perthynas â hyn fel y gwêl yn dda. Os digwydd hynny, bydd y Cyngor yn ufuddhau i'r gyfraith berthnasol ac yn rhoi sylw i ganllawiau swyddogol perthnasol.

## 11 Cyfundrefnau rheoliadol eraill

Wrth ystyried materion mewn perthynas â'r polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoliadol eraill hyd y bo modd. Lle bo cyfundrefnau rheoliadol eraill yn bodoli, ni fydd y polisi hwn yn ceisio gosod unrhyw amod a fyddai'n dyblygu gofynion deddfwriaethol eraill. Yn yr un modd, pan benderfynir ar geisiadau neu apeliadau, fe roddir ystyriaeth i'r Ddeddf a ffactorau perthnasol y manylir arnynt yn y polisi hwn.

## 12 Y galw am safleoedd hapchwarae

Bydd pob cais am drwydded safle hapchwarae yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd ystyried y galw disgwyliedig am safleoedd hapchwarae yn ffactor berthnasol wrth benderfynu ar y cais, yn unol ag adran 153 y Ddeddf.

## 13 Gwybodaeth Ychwanegol

Mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad i roi trwydded safle newydd, neu geisiadau am adolygu trwydded sy'n bodoli eisoes, dylai unrhyw wrthwynebiad fod yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu allweddol yn y Ddeddf:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Ni fydd unrhyw wrthwynebiad nad yw'n ymwneud â'r amcanion uchod yn cael ei ystyried yn wrthwynebiad perthnasol.

**14 Asesiadau Risg Lleol**

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer yn mynnu bod gweithredwyr gamblo (h.y. gweithredwyr canolfannau hapchwarae i oedolion, safleoedd bingo, canolfannau adloniant teuluol, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell) yn asesu'r risgiau lleol i'r Amcanion Trwyddedu, sy'n cael eu peri drwy ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob safle o'u heiddo, ac yn sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

Dylid adolygu a diweddaru'r asesiadau risg hyn:

- er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau sylweddol yn yr amgylchiadau yn lleol, gan gynnwys yr amgylchiadau hynny a nodir yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod;
- pan fydd newidiadau sylweddol yn safle trwyddedai, a all effeithio ar yr hyn a wnânt i liniaru risgiau lleol; a
- phan wneir cais am amrywio trwydded safle.

Mae'n rhaid i weithredwr gynnal asesiad risg lleol pan fydd yn gwneud cais am drwydded safle newydd.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais ar gyfer Trwydded Safle newydd neu ar gyfer amrywio Trwydded Safle, neu ar unrhyw adeg pan ofynnir amdano. Bydd yr asesiad risg yn rhan o drefn archwilio'r Cyngor ac efallai y gofynnir amdano pan fydd swyddogion yn edrych i mewn i gwynion. Bydd angen cadw copi o'r asesiad risg lleol ar y safle.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i weithredwyr ystyried y materion isod wrth baratoi eu hasesiad risg.

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio ac achosion o gamblo o dan oed;
- tueddiadau hapchwarae a allai olygu bod budd-daliadau'n cael eu gwario;
- trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau hapchwarae;
- lleoliad trefol, megis agosrwydd i ysgolion, yr amgylchedd masnachol, ffactorau arbennig sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n mynd heibio;
- yr amrywiaeth o gyfleusterau sydd yn ymyl y safle trwyddedig, megis safleoedd hapchwarae eraill, banciau, swyddfeydd post, a chyfleusterau lluniaeth ac adloniant;
- Problemau hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n deillio o bobl yn yfed ar y stryd, ieuenctid, pobl yn ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gweithgareddau delio mewn cyffuriau ac ati;

materion cysylltiedig â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- unrhyw sefydliadau, mannau neu ardaloedd lle dylid disgwyl i blant a phobl ifanc fod yn bresennol, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, mannau chwarae a lleoliadau adloniant megis alïau bowlio, sinemâu ac ati;
- unrhyw safleoedd lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall y denir plant iddo;
- unrhyw fannau lle mae tuedd i bobl ifanc ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti, yfed o dan oed, ac ati; ac
- achosion a gofnodwyd o bobl o dan oed yn ceisio gamblo dan oed, neu wybodaeth sydd gan y trwyddedai ynglŷn â hynny;

materion cysylltiedig ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys:

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio
- tueddiadau gamblo a allai fynd law yn llaw â dyddiadau taliadau ariannol, fel diwrnodau talu neu daliadau budd-dal
- unrhyw drefniant i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau gamblo; ac
- agosrwydd safleoedd a allai gael eu mynychu gan bobl agored i niwed e.e. ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau cyflyrau caeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gallai pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati;

a

- ffactorau eraill a all fod yn berthnasol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) faterion ffydd perthynol i unrhyw grefydd neu ffydd, gan gynnwys agosrwydd at eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw fan addoli arall.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylid ystyried hefyd ffactorau perthnasol eraill nad ydynt i'w gweld yn y rhestr hon.

14.1 Asesiadau Risg – Mesurau Rheoli

Gall mesurau rheoli i liniaru risg tybiedig olygu cyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Bydd mesurau rheoli priodol yn cael eu hasesu fesul achos yn ôl teilyngdod arbennig y mesurau bwriedig yng nghyd-destun yr amgylchiadau dan sylw.

Er enghraifft, er mwyn rhoi sylw i'r ffactorau risg o ran plant yn cael mynediad i safle gamblo sydd wedi'i gyfyngu i bobl dros 18 oed, efallai y byddai'r gweithredwr yn nodi'r mesurau a ganlyn:


- **Systemau:** polisïau ar gyfer cardiau PASS neu drefn gwirio oed, cynllun herio 25, a hyfforddi staff
- **Dyluniad**: Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle, cynllun y fynedfa yn galluogi staff i fonitro pwy sy'n dod i mewn i'r safle a'u herio ynghylch eu hoed pan fo'n briodol.
- **Corfforol**: teledu cylch cyfyng a synwyryddion electronig

## 15 Declarasiwn

Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu (Polisi Gamblo) gan roi sylw dyledus i'r amcanion trwyddedu yn y Ddeddf, y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y polisi.

## 16 Atodiadau

### Atodiad 1 Map o Ardal Cyngor Sir Ynys Môn



**Atodiad 2 Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy**

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn
- Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn
- Cymdeithas Bwcis Prydain
- Y Gymdeithas Bingo
- Cymdeithas Masnach Arlwyo Adloniant Prydain,
- Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
- Cymdeithas Parciau Gwyliau a Chartref Prydain
- Cyngor ar Bopeth
- Done Brothers
- Gamble Aware
- Y Comisiwn Gamblo
- GamCare
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- William Hill

**Atodiad 3 Cynllun dirprwyo**

| MATER I'W DRAFOD | CYNGOR LLAWN | IS-BWYLLGOR NEU BANEL | SWYDDOGION |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Gwaith | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymu hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfynu rhoi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau yn berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |